Ministry of Defence



# Ymateb y Weinyddiaeth Amddiffyn i fyd mwy dadleuol ac ansefydlog

**Gorffennaf 2023**

CP 901

# Ymateb y Weinyddiaeth Amddiffyn i fyd mwy dadleuol ac ansefydlog

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn
trwy Orchymyn Ei Fawrhydi
18th Gorffennaf 2023

CP 901

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod hawlfraint gwybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/official-documents

ISBN 978-1-5286-4291-0

E02937467 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates

# Cynnwys


Rhagair y Gweinidog 2

**Cyflwyniad**
Cyflawni'r Adolygiad Integredig Diwygiedig –
Y Cyd-destun Esblygol a'n Dull Strategol 5

**Rhan 1 Sicrhau a Chynnal ein Mantais Strategol 15**

**Pennod 1:** Ein Pobl 16

**Pennod 2:** Trawsnewid y Lluoedd drwy Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg 26

**Pennod 3:** Ein Perthynas â Diwydiant 38

**Pennod 4:** Cynhyrchiant: Creu Adran sy'n Ymgyrchu 46

**Rhan 2 Ein Huchelgais Gweithredol 55**

**Pennod 5:** Ataliaeth ac Amddiffyn: Ein Gallu i Ymladd ac Ennill 56

**Pennod 6:** Ymgyrchu a Chystadleuaeth Fyd-eang 67

**Pennod 7:** Cryfder drwy ein partneriaethau 80

**Pennod 8:** Cydnerthedd Strategol 91

# Rhagair y Gweinidog





Pan gyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn y Papur Gorchymyn "Amddiffyn mewn Oes Gystadleuol" yn 2021, wrth galon hynny fe roesom yr angen i'r Adran fod yn wirioneddol ymwybodol o fygythiadau. Chwilio am fygythiadau yn y dyfodol a'u deall, buddsoddi yn y gallu i'w hatal a'u trechu, a pharatoi ein hunain i addasu'n gyson i'r bygythiadau wrth iddynt esblygu.

Roedd casgliadau'r Papur Gorchymyn hwnnw'n gywir – Rwsia oedd (a sydd) yn peri'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch Ewropeaidd. Roedd moderneiddio milwrol cyflym Tsieina a phendantrwydd cynyddol ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel yn her gynyddol (ac mae'n parhau i fod felly). Nid oeddem yn bwriadu cyhoeddi Papur Gorchymyn newydd gwta ddwy flynedd yn ddiweddarach. Ond ers mis Mawrth 2021, mae'r bygythiadau a'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu wedi esblygu, yn ogystal â datblygiadau technolegol, ac mae angen i ni addasu yn unol â hynny – yn gyflymach yn wir, er mwyn parhau i gael y llaw uchaf ar ein gwrthwynebwyr.

Ar 24 Chwefror 2022, roedd ymosodiad llawn Rwsia ar Wcráin yn ymosodiad ar genedl falch, sofran a democrataidd. Roedd hefyd yn ymosodiad ar ein gwerthoedd, ar ddiogelwch Ewropeaidd, ac ar y drefn ryngwladol agored y mae sefydlogrwydd a ffyniant wedi dibynnu arni ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Dywedais ar y pryd y byddai'r Wcrainiad yn ymladd; ac maent wedi ymladd – i amddiffyn eu sofraniaeth, eu cyfanrwydd tiriogaethol, a'u rhyddid. Maent yn bobl ryfeddol.

Rydyn ni'n falch o'r rôl mae'r DU wedi ei chwarae o ran cefnogi Wcráin yn y frwydr hon. Rydym wedi darparu offer, hyfforddiant a chefnogaeth wleidyddol. Rydym wedi symbylu partneriaid Ewropeaidd a rhyngwladol i wneud yr un peth. Rydym wedi cynnull cynadleddau rhoddwyr rhyngwladol, wedi hwyluso'r gwaith o ddarparu offer gan eraill, wedi cynnal ymdrech hyfforddi ryngwladol, ac wedi sefydlu cronfa gymorth ryngwladol. Profwyd bod undod a chryfder y Gorllewin gwleidyddol yn gryfach ac yn fwy parhaol nag a ragwelwyd gan lawer. Ac mae apêl deniadol NATO wedi'i gryfhau gan ryfel anghyfreithlon Rwsia: bydd mynediad y Ffindir a (pan fydd yn digwydd) Sweden i'r Gynghrair yn eu gwneud nhw, ni, ac Ewrop gyfan, yn fwy diogel.

Mae'r ffaith bod rhyfel mawr wedi dychwelyd i gyfandir Ewrop – ochr yn ochr â bygythiadau cynyddol mewn rhannau eraill o'r byd – yn golygu bod angen i ni fireinio ein dull gweithredu. Mae angen i ni sicrhau bod ein galluoedd ymladd rhyfel yn gadarn ac yn gredadwy er mwyn gallu atal bygythiadau rhag ymddangos yn y lle cyntaf, ond hefyd i allu brwydro ac ennill os ydyn nhw. Mae angen i ni allu amddiffyn y wlad a gwneud ein hunain yn fwy gwydn i ddigwyddiadau annisgwyl. Mae angen i ni allu cynnal gweithrediadau heddiw – gyda digon o arfau, a galluogwyr hanfodol – yn ogystal â buddsoddi nawr yng ngalluoedd ennill brwydrau'r dyfodol.

Daw ein mantais strategol dros ein gwrthwynebwyr o nifer o ffynonellau. Mae'n deillio o'n pobl o'r radd flaenaf – ein gallu gwirioneddol i ennill brwydrau – yr ydym yn benderfynol o fuddsoddi ynddynt: yn eu llety, eu sgiliau, a'u cynnig cyflogaeth cyffredinol. Mae'n deillio o'n buddsoddiad mewn technolegau arloesol yn y dyfodol, gan

gynnwys digidol a data, a datblygiadau gwyddonol a thechnolegol sy'n dod i'r amlwg. Mae'n deillio o'n perthynas â diwydiant, y byddwn yn ei thrawsnewid yn gynghrair newydd, gyda phartneriaeth wirioneddol i gynnal ein hamddiffyniad. Ac mae'n deillio o'n cynhyrchiant, ethos sy'n canolbwyntio'n ddi-baid ar gyflawni effaith yn y byd go iawn.


Mae ein cynghreiriau a'n partneriaethau rhyngwladol yn bwysicach nag erioed. NATO yn benodol, ond hefyd Five Eyes, y Llu Ymgyrchol ar y Cyd, y Grŵp Gogleddol, a llawer mwy. Maen nhw wrth galon rhannu gwybodaeth, cydweithredu gweithredol, dull integredig o atal, a darparu galluoedd ennill brwydrau: er enghraifft drwy Raglen Brwydr Fyd-Eang yr Awyr (GCAP) ac AUKUS.

Roedd yr Adolygiad Integredig diwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni, yn glir ynghylch yr hyn y mae angen i ni ei wneud i ymateb i'r sefyllfa ddiogelwch fyd-eang sy'n dirywio: mae angen i ni siapio'r amgylchedd strategol byd-eang, cynyddu ein ffocws ar ataliaeth ac amddiffyn, mynd i'r afael â'r gwendidau sy'n golygu bod ein gwlad yn agored i niwed, a buddsoddi yng nghryfderau unigryw'r DU. Bydd amddiffyn yn chwarae rhan ganolog yn yr holl ymdrechion hynny.

Yn 2020, yn wyneb yr heriau economaidd a achoswyd gan COVID, dewisodd y Llywodraeth gynyddu ei buddsoddiad mewn Amddiffyn £24 biliwn mewn termau ariannol dros bedair blynedd, y cynnydd mwyaf ers diwedd y Rhyfel Oer. Ac eleni, er gwaethaf y cythrwfl economaidd byd-eang a achoswyd gan ryfel anghyfreithlon Rwsia yn Wcráin, mae'r Llywodraeth unwaith eto wedi cadw at ei gair, gyda chynnydd pellach o £5 biliwn dros ddwy flynedd yng Nghyllideb y Gwanwyn.  Eleni, mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn gyllideb o dros £50 biliwn am y tro cyntaf. Rydym yn ymwybodol – o ystyried yr heriau ariannol y mae holl ddinasyddion Prydain yn eu hwynebu ar hyn o bryd – bod hyn nid yn unig yn adlewyrchiad o'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu ond hefyd yn arwydd o hyder yn yr Adran hon. Byddwn yn gwario'r arian hwnnw'n ddoeth, ar ddiogelwch y genedl a'n Cynghreiriaid, ac ar gefnogi ffyniant a thwf economaidd.

Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi gosod dyhead newydd dros y tymor hwy i fuddsoddi 2.5% o gynnyrch domestig gros mewn amddiffyn, fel y mae'r amgylchiadau ariannol ac economaidd yn ei ganiatáu. Bydd y weledigaeth feiddgar hon yn galluogi i amddiffynfeydd ein cenedl gael eu trawsnewid ar gyfer yr heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Mae cenhadaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn yn glir: Diogelu'r Genedl a'i Helpu i Ffynnu. Bydd y Papur Gorchymyn hwn yn sicrhau ein bod yn gallu gwneud hynny – nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.



**Y Gwir Anrhydeddus Ben Wallace AS**
Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn



**Y Gwir Anrhydeddus James Heappey AS**
Gweinidog Gwladol (Y Gweinidog drosy Lluoedd Arfog)



# Cyflwyniad

## Cyflawni'r Adolygiad Integredig Diwygiedig – Y Cyd-destun Esblygol a'n Dull Strategol

**1.** Roedd yr Adolygiad Integredig diwygiedig (IRR) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 yn nodi bod y newid i fyd amlbegynol, tameidiog a dadleuol wedi digwydd yn gyflymach ac yn fwy pendant na'r hyn a ragwelwyd yn yr Adolygiad Integredig gwreiddiol. Mewn ymateb i'r cyd-destun bygythiad hwn sy'n newid, roedd yr IRR wedi nodi dull gweithredu newydd drwy fframwaith strategol wedi'i ddiweddaru sy'n cael ei ddarparu drwy bedair colofn:

(a) **Siapio'r amgylchedd rhyngwladol.** Siapio, cydbwyso, cystadlu a chydweithredu ar draws prif feysydd cystadleuaeth systemig, gan weithio gyda phawb sy'n cefnogi trefn ryngwladol agored a sefydlog a diogelu nwyddau cyhoeddus byd-eang.

(b) **Atal, amddiffyn a chystadlu ym mhob maes.** Cyflymu'r newid parhaus i ddull integredig o atal ac amddiffyn, er mwyn mynd i'r afael â bygythiadau i'r wladwriaeth a heriau diogelwch trawswladol. Mae NATO wrth wraidd yr ymdrech hon, ond rydym yn glir – o ystyried y newid yn y cyd-destun bygythiadau – y bydd ataliaeth effeithiol yn golygu gweithio drwy grwpiau eraill a thu hwnt i'r theatr Ewro-Iwerydd. Ar ben hynny, pwyslais o'r newydd ar y cysyniad o sefydlogrwydd strategol – sefydlu fframweithiau newydd ac adeiladu pensaernïaeth diogelwch rhyngwladol newydd i reoli cystadleuaeth systemig ac uwchgyfeirio mewn amgylchedd amlbegynol.

(c) **Mynd i'r afael â gwendidau drwy gydnerthedd.** Datblygu dull y DU o ymdrin â chydnerthedd, gan symud at ymgyrch hirdymor i fynd i'r afael â'r gwendidau sy'n gadael y DU yn agored i argyfyngau ac actorion gelyniaethus. Bydd hyn yn cryfhau ataliaeth y DU drwy wadu a sicrhau bod gweithgarwch gweithredol o dan biler dau yn gallu canolbwyntio ar lle mae'n cael yr effaith fwyaf.

(d) **Creu mantais strategol.** Adeiladu ar ffocws IR2021 ar fantais strategol – gallu cymharol y DU i gyflawni ein hamcanion o'i gymharu â'n cystadleuwyr. Mewn amgylchedd sy'n fwy dadleuol, mae hyn yn hanfodol i gynnal rhyddid gweithredu'r DU, rhyddid rhag gorfodaeth a'n gallu i gydweithio ag eraill ac mae'n sail i bileri eraill y fframwaith strategol.

**2.** Roedd yr IRR yn cydnabod bod yr amgylchedd diogelwch byd-eang yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu nawr a chynllunio ar gyfer y tymor hir. Felly, yng Nghyllideb y Gwanwyn, cytunodd y Llywodraeth y byddai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael £5 biliwn arall o gyllid ychwanegol dros ddwy flynedd – yn ogystal â'r £24 biliwn a dderbyniwyd mewn termau ariannol (dros bedair blynedd) yn 2020. Mae hyn yn golygu, am y tro cyntaf, bod cyllideb y Weinyddiaeth Amddiffyn bellach yn fwy na £50 biliwn y flwyddyn – arwydd clir o'r pwysigrwydd a roddir ar ein cyfraniad at ddiogelwch a ffyniant y genedl. Hefyd, mae'r Prif Weinidog hefyd wedi nodi dyhead newydd dros y tymor hwy i fuddsoddi 2.5% o gynnyrch domestig gros mewn Amddiffyn, fel y mae'r amgylchiadau ariannol ac economaidd yn ei ganiatáu.

**3.** Fel y gwelsom yn glir dros yr un mis ar bymtheg diwethaf, mae'r sgil-effeithiau – a'r costau – o ymateb ar ôl i fygythiadau ddod i'r amlwg mewn gwrthdaro yn sylweddol uwch na phe bai'r bygythiadau hynny'n cael eu hatal neu eu rhwystro yn y lle cyntaf. Yn y byd mwy dadleuol hwn, mae ataliaeth yn bwysicach nag erioed, wedi'i ategu gan y galluoedd a'r cynghreiriau a fydd yn ein galluogi i frwydro ac ennill os bydd angen. **Mewn gair, mae pŵer caled yn bwysig.**

## Bygythiadau a heriau

**4.** Mae'r bygythiad uniongyrchol i'r rhanbarth Ewro-Iwerydd, ac i'r DU, wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i weithredoedd **Rwsia.** Mae'r byd bellach yn dyst i ryfel mawr a sbardunwyd gan bŵer niwclear, sy'n bygwth tanseilio sofraniaeth gwladwriaeth arall. Ond mae ymosodiad llawn Rwsia ar Wcráin, gan adeiladu ar ei chyfeddiannaeth anghyfreithlon o diriogaethau yn 2014, nid yn unig yn ymosodiad arfog creulon ac anghyfreithlon ar genedl sofran; dyma hefyd yr her fwyaf i'r drefn ryngwladol agored mewn cenedlaethau. Nid yw Ewrop wedi gweld gwrthdaro fel hyn ers diwedd yr Ail Ryfel Byd.

**5.** Er bod methiannau Rwsia yn Wcráin wedi gwanhau ei gallu o ran tir ac arfau tywys yn sylweddol, mae ganddi rymoedd niwclear a strategol medrus o hyd, ac mae ganddi'r bwriad a'r capasiti i ailadeiladu ac adfywio. Yr ydym wedi gweld parodrwydd llywodraeth Rwsia i droi at rethreg niwclear anghyfrifol, sy'n golygu bod y bygythiad niwclear yn fwy nag ar unrhyw adeg ers y Rhyfel Oer. Mae grymoedd morol ac awyr Rwsia hefyd yn parhau i fod yn gyfan i raddau helaeth, ac mae gwladwriaeth Rwsia yn parhau i fygwth y DU a'n cynghreiriaid o dan y trothwy gwrthdaro ledled y byd. Mae Rwsia'n parhau i ddangos ei pharodrwydd yn ddi-hid i anwybyddu normau rhyngwladol, o ddefnyddio Novichok ar strydoedd y DU yn 2018, i'w defnydd mawr o rymoedd milwrol yn Wcráin ac mewn mannau eraill. Ac wrth i Rwsia gael ei hynysu'n fwy rhyngwladol o ganlyniad i'w gweithredoedd, a'i hymddygiad ddod yn fwy ansefydlog, mae'n debygol y bydd y bygythiadau i'r DU a'n buddiannau yn cynyddu.

**6.** Roedd yr IRR hefyd yn nodi wrth i ni symud i fyd mwy heriol, mae cystadleuaeth systemig yn parhau i ddwysáu, gan sbarduno dirywiad yr amgylchedd diogelwch byd-eang. Mae Tsieina'n cyflwyno her fyd-eang sy'n parhau ac yn datblygu i fuddiannau Prydain – gan gynnwys buddiannau Amddiffyn – drwy ei hymddygiad sy'n fwyfwy pendant a gorfodol wrth geisio ailysgrifennu'r drefn ryngwladol sydd wedi darparu sefydlogrwydd a ffyniant i genedlaethau. Wrth ddilyn rhaglen o foderneiddio milwrol cyflym, mae Tsieina yn parhau i ddefnyddio ei photensial economaidd a milwrol i ddatblygu hawliadau tiriogaethol yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel ac ehangu ei dylanwad ar draws Ewrop, Affrica a'r Dwyrain Canol, gan gynnwys drwy ledaenu systemau arfau Tsieineaidd. Er gwaethaf honiadau blaenorol Tsieina o'i chynnydd heddychlon, mae Tsieina wedi gwrthod ymwrthod â'r defnydd o rym i gyflawni ei hamcanion o ran Taiwan. Mae tensiynau cynyddol yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel, a sbardunwyd gan weithredoedd Tsieina, yn her uniongyrchol i ranbarth y credwn y dylai fod yn rhydd ac yn agored ar gyfer ffyniant pawb. Fodd bynnag, fel y nododd yr IRR, nid yw'r DU yn derbyn bod perthynas Tsieina â'r DU, na'i heffaith ar y system ryngwladol, yn seiliedig ar gyfeiriad a




bennwyd ymlaen llaw. Er y byddwn bob amser yn glir ynghylch risgiau ymgysylltu, byddwn yn gweithio i argyhoeddi Tsieina o'r angen iddi chwarae rhan gyfrifol yn fyd-eang yn unol â'i statws fel pŵer P5 ac fel chwaraewr blaenllaw o ran diogelwch.

**7.** Bydd **Iran** a **Gogledd Corea** yn parhau i fod yn fygythiadau ansefydlog i ddiogelwch yn eu rhanbarthau a thu hwnt. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld y ddwy wlad yn cynnal gweithgareddau sy'n ansefydlogi ar draws eu rhanbarthau ac yn ceisio datblygu eu rhaglenni niwclear, gan fygwth diogelwch byd-eang. Rydym o'r farn y bydd yr ymdrechion hyn yn parhau hefyd.

**8.** Nid yw'r bygythiad wedi lleihau gan actorion nad ydynt yn rhan o'r wladwriaeth. Mae **mudiadau terfysgol** yn dal i geisio ymosod ar y DU a'n buddiannau dramor. Mae ansefydlogrwydd rhanbarthau fel Sahel, Basn Llyn Chad a rhannau o'r Dwyrain Canol, a gwledydd fel Afghanistan a Somalia, yn rhoi lle i grwpiau o'r fath ehangu. Mae cynyddu mynediad byd-eang at wybodaeth a thechnoleg hefyd wedi cynyddu'r bygythiadau a achosir gan ymgyrchwyr hacio, terfysgwyr un mater a mudiadau troseddol mwy amorffaidd ar-lein.

**9.** Wrth wynebu newid yn yr hinsawdd, heriau economaidd, cyflymder newid technolegol a chystadleuaeth am fwyd a deunyddiau crai, mae gwladwriaethau'n wynebu **heriau diogelwch cynyddol gymhleth ac amrywiol**. Mae cystadleuaeth rhwng llywodraethau i addasu i amgylcheddau sy'n newid, cynyddu eu gwytnwch, a diwallu anghenion sylfaenol eu poblogaethau yn golygu bod cysylltiadau rhyngwladol yn dod yn fwy trafodaethol ar draul buddiannau cyffredin. Mae ein gallu i ddeall effaith newid yn yr hinsawdd ar draws Amddiffyn, ac addasu iddo, yn allweddol i fantais strategol. Gallai methiant gan wladwriaethau i ddiwallu'r anghenion hyn achosi cynnydd mawr mewn mudo, cynnydd mewn terfysgaeth a gwrthdaro dros adnoddau. Bydd effaith anghymesur ar grwpiau agored i niwed bron yn sicr, gan greu heriau ychwanegol o ran **diogelwch dynol**.

**10.** Fodd bynnag, un o dueddiadau pwysicaf y ddwy flynedd ddiwethaf fu'r **rhyng-gysylltiad cynyddol rhwng rhanbarthau ac actorion**. Yn sgil goresgyniad anghyfreithlon Wcráin, rydym wedi gweld partneriaeth Rwsia â Tsieina yn dyfnhau, ei chydweithrediad cynyddol gydag Iran, yn ogystal â darparu arfau gan Ogledd Korea i Rwsia yn groes i Benderfyniadau Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn arwain at fyd lle mae'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu gan actorion yn amlygu ac yn lluosogi ar draws sawl rhanbarth, gan greu geowleidyddiaeth fwy gwrthwynebol. Mae'r defnydd anghyfrifol o alluoedd seiber, a chamwybodaeth sy'n cael ei lledaenu drwy gyfryngau cymdeithasol, yn mynd y tu hwnt i ffiniau daearyddol. Bydd hyn yn siapio sut mae dinasyddion a llywodraethau'n deall ac yn ymateb i ddigwyddiadau byd-eang. Mae ymosodiad anghyfreithlon Rwsia ar Wcráin wedi arwain at ganlyniadau ledled y byd, gan achosi argyfwng ffoaduriaid ac ynni yn Ewrop, yn ogystal â bygwth cyflenwadau bwyd yn rhai o rannau mwyaf bregus y byd. Mae'r cydlynu a'r cydweithrediad rhwng gweithredwyr y wladwriaeth a'r rhai nad ydynt yn rhan o'r wladwriaeth yn cynyddu hefyd. Er enghraifft, rydym wedi gweld grwpiau milwrol Rwsia yn ymladd yn Wcráin, ac yn hybu buddiannau Rwsia drwy gynnal gweithgarwch ansefydlogi yn Affrica a'r Lefant.

## Gwersi o Wcráin

**11.** Mae cysylltiad annatod rhwng ein diogelwch gwladol a chanlyniad y rhyfel yn Wcráin. Er bod yn rhaid i ni fod yn ofalus i beidio â rhuthro i ddysgu gwersi diffiniol o ymosodiad anghyfreithlon Rwsia ar Wcráin – mae'r rhyfel yn mynd rhagddo, mae'r sefyllfa'n gymhleth, a bydd y gwersi'n ddwys – rhaid i ni achub ar y cyfle i gael dealltwriaeth ac addasu nawr. Bydd rhai o'r mewnwelediadau hyn yn strategol, er enghraifft yn ymwneud â'r grefft o ataliaeth, sefydlogrwydd strategol, rôl mesurau economaidd mewn gwrthdaro, a rheoli gwaethygu. Bydd rhai ohonynt yn dactegol, yn ymwneud â maes brwydr sydd – gyda rhyfela mewn ffosydd – ag adleisiau dychrynllyd o ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn ogystal â galluoedd yr unfed ganrif ar hugain. Mae llawer o'r mewnwelediadau yn atgyfnerthu'r daith rydyn ni arni'n barod, ond hefyd yn dangos lle mae angen i ni fynd ymhellach neu'n gyflymach.

**12.** Mae digwyddiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi tanlinellu pwysigrwydd **NATO** i'n diogelwch gwladol. Mae undod NATO wedi bod yn gadarn drwy gydol y gwrthdaro; ac mae ein gallu i **ryngweithredu** yn rhan o'n cryfder a'n gallu i atal ac amddiffyn yn erbyn bygythiadau. Y sicrwydd cyfunol a ddarperir gan NATO yw ein mur cryfaf yn erbyn ymosodiadau gwladwriaethol, fel bod cynnal cynghrair NATO, yn rhannol drwy ein harweinyddiaeth ein hunain a chyfraniadau cynyddol, yn flaenoriaeth strategol i Amddiffyn y DU.

**13.** Mae rôl hanfodol **cynghreiriau a phartneriaethau** yn fwy cyffredinol hefyd yn glir o ganlyniad i'r ddwy flynedd ddiwethaf: mae ein gallu i roi cynghreiriau a phartneriaethau ar waith ledled y byd i ddiogelu tiriogaethau a buddiannau'r DU yn rhan bwysig o'n hygrededd yng ngolwg darpar-ymosodwyr. Mae rhyng-gysylltiad ac anweledigrwydd gwahanol theatrau rhanbarthol hefyd wedi dod yn fwy amlwg nag erioed: mae cefnogaeth i Wcráin wedi dod o ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel yn ogystal ag o'r ardal Ewro-Iwerydd; a mae cysylltiadau rhwng yr Iwerydd a'r Môr Tawel wedi tyfu o ran dyfnder a phwysigrwydd.

**14.** Mae'r rhyfel yn Wcráin yn tynnu sylw at bwysigrwydd **hygrededd ein galluoedd, confensiynol a niwclear**, ar y ddaear neu yn y gofod neu seiberofod, i atal bygythiadau yn ein herbyn. Mae'n cadarnhau'r **ffordd orllewinol fodern o ryfela**: ar y cyd ac ym mhob maes, wedi'i ategu gan ddata a gwybodaeth, o ffynonellau agored a chyfrinachol iawn. Mae hefyd yn pwysleisio'r gofyniad brys i barhau i **foderneiddio'r lluoedd** i gyd-fynd â datblygiadau technolegol heddiw, ac i esblygu i gwrdd â bygythiadau'r dyfodol. Mae'n atgyfnerthu'r angen i ddeall ac i **fanteisio i'r eithaf ar effaith galluoedd digidol**, ac i fuddsoddi ynddynt nawr er mwyn gallu bod yn fwy manwl, cyflym, marwol a sylweddol. Mae angen digon o grynswth a thechnoleg arloesol, gyda'r ddau'n cael eu cyfuno'n aml. Mae ein gallu – drwy'r galluoedd sydd gennym a'n sgiliau i'w defnyddio – a'n hewyllys, yn amlwg ac yn argyhoeddiadol i amddiffyn ein tiriogaethau a'n Cynghreiriaid, yn hanfodol i'n heffaith ataliol.

**15.** Mae gwerth **addasu'n gyflym** – ystwythder – ar faes y gad wedi dod yn amlwg. Rydym wedi dysgu y gellir aros ar y blaen i'r bygythiad ac ennill mantais strategol drwy ddulliau newydd a chreadigol, gan fanteisio ar dechnoleg ac addasu systemau

arfau, fel Systemau Awyr Heb Griw, yn ystod gwrthdaro, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar becyn presennol o rymoedd. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am **broses gaffael fwy ystwyth a phartneriaeth gryfach fyth rhwng y llywodraeth a'r diwydiant, busnesau mawr a busnesau bach a chanolig.** Rhaid i hyblygrwydd holl fenter Amddiffyn y DU, gyda'r hyblygrwydd i ymateb i fygythiadau sy'n newid ac addasu i dechnolegau newydd, ddod yn gryfder iddi, a bydd yn hanfodol i sicrhau hygrededd parhaus y lluoedd.

**16.** Mae ystyriaeth bellach yn ymwneud â phwysigrwydd hanfodol **cynnal** gweithrediadau'n effeithiol – gallu llu i aros yn y frwydr, hyd yn oed wrth i hyd a dwyster gwrthdaro gynyddu. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am ddigon o **bentyrrau stoc ac arfau**, wedi'u hategu gan sylfaen economaidd a diwydiannol gadarn gartref. Mae hefyd yn atgyfnerthu rôl hanfodol galluogwyr **logistaidd**, gan gynnwys y gallu i gael yr offer cywir – a phobl – i'r lle iawn ar gyflymdra perthnasol.


Milwyr Wcráin yn cael hyfforddiant maes y gad yn y DU

**17.** Mae gwytnwch a dewrder pobl Wcráin wedi bod yn ysbrydoledig, ac yn ein hatgoffa o gryfder, stamina a gallu'r ysbryd dynol i addasu. Mae hyn yn ailbwysleisio'r angen i **ddarparu'r sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar ein pobl** i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial, i'w rhyddhau o broses ormodol, ac i gryfhau'r cysylltiad rhwng y fenter Amddiffyn a'r gymdeithas, gan gynnwys drwy'r **Lluoedd Wrth Gefn**: mae'r llwyddo mewn rhyfel yn gofyn am ymdrech genedlaethol.

**18.** Bydd Rwsia hefyd yn dysgu gwersi o'i phrofiadau yn Wcráin ac yn ceisio rhoi'r gwersi hyn ar waith yn gyflym ar lefel dactegol a gweithredol. Bydd Tsieina hefyd yn arsylwi ar y gwrthdaro, ac yn dod i gasgliadau, gan gynnwys am undod a dygnwch y DU a'n cynghreiriaid a'n partneriaid.

## Ein Dull Strategol

**19.** Mae digwyddiadau ers Papur Gorchymyn Amddiffyn 2021 (DCP21) wedi dangos ein bod yn iawn i wneud yr ymrwymiadau a wnaethom, a bod ein hymdrechion wedi bod ar y trywydd iawn. Rydym wedi arwain y ffordd yn Ewrop o ran cefnogi amddiffyniad Wcráin, gan ysgogi eraill i ddilyn yr un llwybr. Rydym wedi parhau i fod yn gyfrannwr blaenllaw i NATO, gan gyflawni ein hymrwymiad yn gyson i wario o leiaf 2% o'r Cynnyrch Domestig Gros ar Amddiffyn – gan gydnabod yr Addewid Buddsoddi mewn Amddiffyn fel llawr, nid

nenfwd. Rydym wedi dangos ein cyrhaeddiad byd-eang drwy weithgarwch ar dir, môr ac awyr yn Ne'r Iwerydd, y Caribî, y Gogledd Uchel, ar draws Affrica, y Dwyrain Canol, y Cawcasws a Chanol Asia ac ar draws ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel, gan gynnwys ymfyddino'r Grŵp Cludwyr Ymosod yn 2021. Rydym wedi meithrin partneriaethau a chynghreiriau cryfach, gan gynnwys yn ddwyochrog a thrwy NATO, y Five Eyes, a Llu Ymgyrchol ar y Cyd y deg gwlad. Rydym wedi cynnal mantais filwrol galed, yn enwedig drwy ein Lluoedd Arbennig, ein galluoedd niwclear, a'n lluoedd confensiynol ar draws parthau sydd wedi'u hintegreiddio â NATO – i gyd yn seiliedig ar alluoedd cudd-wybodaeth eithriadol. Ond mae'r newidiadau yn y cyd-destun presennol yn golygu bod angen i ni fynd ymhellach ac yn gyflymach.

**20.** I gefnogi pedair colofn yr IRR, rydym wedi mynegi pwrpas newydd a chlir ar gyfer Amddiffyn: **diogelu'r genedl, a'i helpu i ffynnu.** Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth:

| Beth? | Sut? |
|---|---|
| Diogelu'r DU, Dibynwledydd y Goron, a'i Thiriogaethau Tramor, a chyfrannu at atal ac amddiffyn ardal yr Ewro-Iwerydd ar y cyd: gallu atal ac, os oes angen, amddiffyn yn erbyn a threchu, ymosodiadau ar dir cartref y DU (gan gynnwys ein Tiriogaethau Tramor) a'n Cynghreiriau NATO. | *Drwy foderneiddio ein system ataliaeth niwclear strategol, darparu grym ymladd rhyfel credadwy, gwella ein cyfraniad at NATO, cyflymu'r gwaith o foderneiddio'r lluoedd, parhau i gefnogi Wcráin, a chynyddu ein buddsoddiad mewn amddiffyn y wlad a chadernid cenedlaethol.* |
| Defnyddio dull ymgyrchu i fynd i'r afael â'r bygythiadau gan weithredwyr gwladwriaethol a rhai nad ydynt yn rhan o wladwriaeth, lle bynnag y maent yn dod i'r amlwg yn y byd, gan weithio mewn ffordd integredig gyda chynghreiriaid a phartneriaid i sicrhau canlyniadau effeithiol ac wedi'u canolbwyntio. | *Drwy ymgorffori ymgyrchu fel y ffordd y mae Amddiffyn yn cyflawni ei effaith, integreiddio'r holl adnoddau pŵer amddiffyn mewn dull gweithredu wedi'i dargedu, gyda chynghreiriaid a phartneriaid, ac ar draws y Llywodraeth, gan alluogi ymfyddino a phresenoldeb parhaus, a datblygu arbenigedd y gellir ei allforio.* |

| Beth? | Sut? |
|---|---|
| Hyrwyddo ein buddiannau cenedlaethol yn fyd-eang, meithrin perthnasoedd dylanwadol, a chynnal ymgysylltiad a mynediad. | *Drwy gydweithio â'n rhwydwaith craidd o gynghreiriaid a phartneriaid democrataidd, meithrin cysylltiadau dyfnach â 'phwerau tir canol' dylanwadol, buddsoddi yn ein presenoldeb parhaol presennol a manteisio i'r eithaf arno, a manteisio i'r eithaf ar y manteision a ddaw yn sgil defnyddio'r system, diplomyddiaeth amddiffyn, cydweithio o ran galluogrwydd ac allforion amddiffyn.* |
| Sicrhau mantais strategol, sicrhau mwy o wytnwch economaidd a diwydiannol, a chyfrannu at ffyniant cenedlaethol. | *Drwy fuddsoddi yn ein pobl, manteisio ar arloesedd ym meysydd digidol, data a gwyddoniaeth a thechnoleg, meithrin perthynas agosach â diwydiant, gwella ein prosesau caffael, mabwysiadu dull gweithredol o ran allforion amddiffyn, cynyddu ein cynhyrchiant, gwella parodrwydd ac angeuoldeb.* |

**21.** Er mwyn ymateb i'r heriau'n uniongyrchol, ac er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, bydd angen i ni fod yn:

- **Cael ein arwain gan fygythiad**. Mae hyn yn golygu canolbwyntio'n rhagweithiol ar y bygythiad gan ein gwrthwynebwyr, gallu atal – ac os oes angen, amddiffyn yn erbyn a threchu – ymosodiadau sy'n uwch ac yn is na throthwy gwrthdaro. Byddwn yn cael ein hoptimeiddio i frwydro, tra'n gallu gweithredu mewn senarios dwyster is i gystadlu'n effeithiol. Byddwn yn gwreiddio dull ymgyrchu parhaus sy'n gyfredol â'r cyd-destun bygythiadau sy'n esblygu. Yn unol â'r IRR, mae hyn yn golygu 'meddwl yn y tymor hir; gweithredu nawr'. Byddwn yn canolbwyntio ar angeuoldeb, argaeledd a pharodrwydd ein galluoedd i ymateb i'r cyd-destun bygythiadau.
- **Hyblyg**. Mae'r gallu i addasu'n gyflym yn ffactor sy'n pennu'r gallu i drechu mewn gwrthdaro. Mewn byd cyfnewidiol, mae sicrhau mantais dros ein gwrthwynebwyr yn ymdrech ddi-baid ac ailadroddol. Felly, bydd hyblygrwydd Lluoedd Arfog y DU yn gryfder iddynt – grym bytholwyrdd, gyda meddylfryd ystwyth, gan addasu bob amser i aros ar y blaen. Mae ein pobl wrth galon y fantais strategol hon – a byddwn yn cydnabod hynny yn y ffordd rydym yn buddsoddi ynddynt:  eu hymrwymiad, eu dyfeisgarwch, eu gallu i addasu a'u

cymhelliant sy'n golygu mai nhw yw'r ased pwysicaf sydd gennym.

- **Cynghreirio drwy Ddyluniad**. Mae ein cynghreiriau a'n partneriaethau yn hanfodol i'n diogelwch a'n ffyniant – boed hynny drwy rannu gwybodaeth, gweithredu ochr yn ochr â'n gilydd, neu adeiladu'r genhedlaeth nesaf o alluoedd. Er y byddwn yn blaenoriaethu ein perthnasoedd craidd â'n cynghreiriaid a'n partneriaid agosaf, byddwn hefyd yn buddsoddi mewn dyfnhau perthnasoedd â phartneriaid eraill ledled y byd, y mae llawer ohonynt yn dylanwadu fwyfwy ar eu rhanbarthau eu hunain ac yn fyd-eang. Byddwn yn Cynghreirio drwy Ddyluniad ac yn genedlaethol drwy eithriad.
- **Integredig**. Er mwyn mynd i'r afael ag amrywiaeth a chymhlethdod cynyddol bygythiadau yn fyd-eang, yn y gofod, ac mewn seiberofod, byddwn yn meithrin dull gweithredu gwirioneddol integredig o atal ac amddiffyn. Mae hyn yn golygu gwella integreiddio ar draws yr holl wasanaethau a meysydd, ar draws y Llywodraeth, a gyda chynghreiriaid a phartneriaid, a diwydiant, yn ogystal ag ar draws rhanbarthau, a sbectrwm gwrthdaro.
- **Arloesol**. Moderneiddio yw'r allwedd i'n mantais o ran ymladd. Byddwn yn cyflymu'r gwaith o foderneiddio ein galluoedd, drwy arloesi ac arbrofi. Mae angen i ni barhau i flaenoriaethu ymchwil a datblygu, a gwyddoniaeth a thechnoleg, gan weithio'n agosach fyth gyda diwydiant i sicrhau bod galluoedd y genhedlaeth nesaf yn cael eu defnyddio'n gyflymach. Mae ein mantais strategol yn cael ei chynnal pan fydd y Llywodraeth a diwydiant yn cydweithio'n glos. Bydd ymdrech gyffredin yn sicrhau gofynion cliriach, yn sicrhau sylfaen ddiwydiannol gadarn a chadwyni cyflenwi cadarn, ac yn galluogi datblygu a lleoli galluoedd newydd yn gyflymach.
- **Digidol**. Byddwn yn manteisio ar y cyfleoedd arloesol a gynigir gan ddatblygiadau digidol y blynyddoedd diwethaf i gynnal mantais bendant yn erbyn ein gwrthwynebwyr. Bydd hyn yn golygu newid ein ffordd o feddwl i integreiddio grym a meddalwedd yn llawn, gan ddatblygu'n ailadroddus – cynyddu – ein galluoedd presennol i sicrhau mantais sy'n ennill brwydrau. Mae hyn hefyd yn gofyn i ni fuddsoddi mewn gwella sgiliau ein pobl, a mynd â'n Cynghreiriaid gyda ni ar y daith.

## Papur Gorchymyn Amddiffyn wedi'i ddiweddaru

**22.** Yn 2021, fe wnaethom ymateb i'r Adolygiad Integredig gwreiddiol gyda Phapur Gorchymyn Amddiffyn a oedd yn nodi, yn gynhwysfawr, sut byddem yn dylunio ac yn arfogi'r lluoedd ar gyfer y degawdau i ddod. Nid yw llawer o hynny wedi newid yn y Papur hwn. Rydym wedi bod yn dilyn gwersi Wcráin yn ofalus yn ogystal â mesur llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, ein gweithgareddau ledled y byd. Lle mae ein safbwynt yn y Papur Gorchymyn gwreiddiol wedi'i gyfiawnhau, yr ydym yn glynu wrtho. Lle'r ydym wedi gweld bod yn rhaid inni symud yn gyflymach neu wneud pethau'n wahanol yn gyfan gwbl, rydym wedi nodi yn y papur hwn sut yr ydym yn bwriadu gwneud hynny.

**23.** Rydym yn canolbwyntio ar sut rydym yn bodloni sbectrwm mor eang o fygythiadau, ar draws y byd ac ar draws pob maes. Hyd yn

# IR2023 Fframwaith Strategol

## Pwrpas Amddiffyn:

### Diogelu'r Genedl a'i Helpu i Ffynnu

**Siapio'r amgylchedd rhyngwladol**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyfrannu drwy: Dull byd-eang o ymgyrchu a chystadlu; cynghreiriau a phartneriaethau; perthnasoedd dwyochrog a grwpiau amlochrog ac mânochrog; ymgysylltu â phwerau tir canol; cefnogi eraill i gyflawni eu diogelwch; rhwydwaith byd-eang integredig o bobl a lleoliadau.

**Atal, Amddiffyn a Chystadlu ym mhob maes**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyfrannu drwy: Galluoedd credadwy, niwclear a chonfensiynol, seiber a gofod; ein rôl yn NATO; ein cefnogaeth i Wcráin; sylfaen gadarn o gyflenwadau, galluogwyr agwybodaeth.

**Mynd i'r afael â gwendidau drwy gydnerthedd**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyfrannu drwy: Amddiffyn y famwlad; diogelu gofod awyr a seilwaith cenedlaethol hanfodol, gan gynnwys yr is-wyneb; cymorth i'r awdurdodau sifil; diogelwch economaidd; defnyddio ein Lluoedd Wrth Gefn

**Creu mantais strategol**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyfrannu drwy: Ein pobl; perthynas gref rhwng Amddiffyn a diwydiant; prosesau caffael mwy llyfn; moderneiddio drwy arloesi; digidol a data, gwyddoniaeth a thechnoleg; ein rôl yn cefnogi twf economaidd a ffyniant cenedlaethol, gan gynnwys allforion amddiffyn.

oed gyda chyllidebau cynyddol, gwyddom na allwn barhau i wneud mwy o'r un peth.

- Mae anghenion ein gweithlu'n newid yn gyflym, a rhaid inni ymateb gyda **model cyflogaeth a fframwaith sgiliau newydd**.
- Mae technoleg yn newid yn gyflym, a rhaid i ni ymateb gyda **ffocws o'r newydd ar wyddoniaeth a thechnoleg** gan ei roi wrth galon ein gwaith o ddylunio ein lluoedd a datblygu gallu.
- Mae maes y frwydr yn newid yn gyflym, ac felly mae'n rhaid i ni ymateb gyda **phartneriaeth newydd gyda diwydiant** a chanolbwyntio ar ddarparu gallu y gellir ei uwchraddio'n gyflym yn gyflymach.
- Ac mae'r bygythiad yn newid yn gyflym, sy'n golygu ei bod yn rhaid i ni wneud mwy, ac felly mae'n rhaid i ni fod yn ddidostur wrth geisio **enillion cynhyrchiant** er mwyn i ni allu ateb y galw hwnnw.

**24.** Gyda'r hanfodion hynny mewn golwg, yr ydym wedi gwrthdroi strwythur traddodiadol y Papur Gorchymyn Amddiffyn. Daw trawsnewid ein sefydliad yn y rhan gyntaf oherwydd mae'n cydnabod, er bod y Llynges Frenhinol, y Fyddin, yr Awyrlu Brenhinol a'r Gorchymyn Strategol yn flaenllaw, ein bod yn cystadlu â'n gwrthwynebwyr ar draws ein holl fenter. O'r recriwtiwr ar y stryd fawr, i'r gwyddonydd yn ei labordy, i'r timau caffael yn yr adran Cyfarpar a Chymorth Amddiffyn (DE&S), ac ar bob desg ym mhob cyfarwyddiaeth ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn a'n hasiantaethau; mae pawb yn ein sefydliad yn chwarae rhan, bob dydd, drwy wneud yn siŵr ein bod yn gyflymach ac yn well ym mhopeth a wnawn na'n cystadleuwyr a'n gwrthwynebwyr.

**25.** Yn ail ran y papur, rydyn ni'n canolbwyntio ar ein huchelgais strategol a sut rydyn ni'n ei gyflawni drwy fuddsoddi yn ein menter niwclear; a gyda'r llongau, catrawdau a sgwadronau yn y lluoedd arfog confensiynol, rydyn ni'n gwneud tri newid cyffredinol. Yn gyntaf, rydym yn ailbwysleisio ein hymrwymiad i NATO. Yn ail, rydym yn buddsoddi nid mewn rhagor o lwyfannau ymladd ond yn y galluogwyr strategol, y seilwaith a'r cyflenwadau sydd eu hangen i wneud ein galluoedd yn wydn ac yn gredadwy; oherwydd y pethau hynny – nid y rhestr cyfarpar ar bapur – sy'n sail i ataliaeth wirioneddol. Ac yn drydydd, rydym yn dod â mwy o gydlyniad i'n gweithrediadau byd-eang drwy Lu Ymateb Byd-eang newydd.

**26.** Yna, rydym yn nodi dull ymgyrchu byd-eang sy'n dod â'r holl ddulliau Amddiffyn at ei gilydd, ar y cyd â'r Llywodraeth ehangach ac eraill, ac mewn ffordd drefnus a gweithredol, i gyflawni ein nodau: o'r rhwydwaith eang o Attachés Amddiffyn, timau hyfforddi tymor byr, ac ymarferion a gweithrediadau ar y cyd sy'n datblygu cysylltiadau dwyochrog â ffrindiau a phartneriaid ledled y byd; i'n penderfyniad i ddiogelu ein cenedl a'i helpu i ffynnu drwy hyrwyddo allforion Amddiffyn y DU. Rydym yn tynnu sylw at bwysigrwydd ein cysylltiadau ledled y byd: o bartneriaethau galluogrwydd newydd fel Raglen Brwydr Fyd-Eang yr Awyr (GCAP) a'n cynlluniau i adeiladu llongau tanfor wedi'u harfogi'n gonfensiynol, wedi'u pweru gan ynni niwclear, a rhannu technolegau milwrol sy'n dod i'r amlwg rhwng Awstralia, y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau (AUKUS); i'n cefnogaeth ar gyfer grwpiau diogelwch rhanbarthol fel y Llu Ymgyrchol ar y Cyd, Dragon Group, Accra Initiative neu fel partner i ASEAN. Yn olaf, rydym yn nodi'r rôl hollbwysig y bydd Amddiffyn yn ei chwarae o ran diogelu'r wlad ac o ran gwneud y wlad yn fwy gwydn, o blismona gofod awyr y DU i weithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth i gryfhau ein diogelwch economaidd.

Rhan 1

# Sicrhau a Chynnal ein Mantais Strategol



# Pennod 1:

# Ein Pobl

**1.** Daw ein pobl yn gyntaf, yn y papur hwn ac yn ein holl feddylfryd fel Adran – oherwydd mae'n amlwg mai nhw yw'r sylfaen y mae ein mantais strategol yn seiliedig arni. Yn filwyr arferol, wrth gefn neu weision sifil, dyma'r ased pwysicaf sydd gennym. Wrth i fwy fyth o ymreolaeth a Deallusrwydd Artiffisial ddod i'r gweithle, nid yw eu pwysigrwydd yn lleihau; yn lle hynny, byddem yn dadlau eu bod yn dod yn fwyfwy critigol.

**2.** Bydd amddiffyn bob amser angen pobl ddewr i wneud pethau peryglus; ni allwn weld dyfodol lle nad oes angen hynny. Ac felly mae'n rhaid i'r contract rhwng y genedl a'i staff gwasanaethu bob amser gael y gydnabyddiaeth honno o'r rhwymedigaeth anghyfyngedig y maent yn ei derbyn wrth gyflawni eu dyletswyddau. Am y rheswm hwnnw, yn fwy nag unrhyw reswm arall, rhaid inni orfodi ein hunain i fod y cyflogwr gorau y gallwn fod a pharhau i weithio gyda gweddill y Llywodraeth i sicrhau bod pobl sy'n gwasanaethu, eu teuluoedd a'n cyn-filwyr yn cael gofal.

**3.** Mae gwasanaethu yn lluoedd arfog ein gwlad bob amser wedi bod yn gyfrwng gwych ar gyfer symudedd cymdeithasol, gan roi cyfle i genedlaethau o bobl – beth bynnag fo'u cymwysterau – wasanaethu ledled y byd, a thros gyfnod eu gyrfaoedd i ennill sgiliau, arbenigedd a statws sydd nid yn unig yn trawsnewid eu bywydau, ond sy'n rhoi gorwelion newydd i'w teuluoedd.

**4.** Yn y degawd nesaf, rhaid i ni drawsnewid ein gweithlu i ateb y galw cynyddol am sgiliau technegol ym maes y frwydr fodern, ond rhaid i ni wneud hyn drwy uwchsgilio ein staff gwasanaeth presennol a gwella ein darpariaeth hyfforddiant, addysg a phrentisiaeth i'r rheini sy'n ymuno o'r newydd. Rydym yn falch o recriwtio o bob cymuned yn y Deyrnas Unedig – byddwn yn parhau i wneud hynny.

**5.** Ar ben hynny, mae angen i ni ehangu ein hapêl i ddenu pobl sydd â sgiliau a phrofiad a enillwyd cyn ymuno ac felly mae'n rhaid i ni edrych ar ein strwythurau gyrfa a'n cydnabyddiaeth ariannol i adlewyrchu nad yw pawb sy'n ymuno ag Amddiffyn yn gwneud hynny yn eu harddegau hwyr na'u hugeiniau cynnar ac yn eu swydd gyntaf. Ar ben hynny, pan fydd gennym bobl dda yn ein sefydliad, rhaid inni wneud yn well o ran eu cadw. Dyna pam mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn wedi comisiynu Adolygiad annibynnol Haythornthwaite – yr adolygiad cyflawn cyntaf o delerau ac amodau gwasanaeth a chymhelliant yn ein Lluoedd Arfog ers Adolygiad Bett yn y 1990au.

**6.** Cyflwynwyd Adolygiad Haythornthwaite gerbron y Senedd ar 19 Mehefin. Byddwn yn canolbwyntio ar unwaith ar fwrw ymlaen â'i argymhellion i foderneiddio ein cynnig ar draws yr holl weithlu. Cymaint yw maint a chwmpas yr Adolygiad, rydym wedi nodi tri maes allweddol o argymhellion yr Adolygiad i fwrw ymlaen â nhw fel blaenoriaeth: mwy o hyblygrwydd gyrfa drwy Sbectrwm Gwasanaeth; gwella effeithiolrwydd ein cynnig drwy fabwysiadu Dull Gwobrwyo Cyfan; a digideiddio a symleiddio ein system rheoli pobl.

## Sgiliau

Mae dros **100** o Gynlluniau Prentisiaeth yn cefnogi symudedd cymdeithasol, gyda **57% yn gysylltiedig â STEM**

a dros **20,000** o bobl yn cael eu hyfforddi ar unrhyw un adeg.

Mynd i'r afael â diffygion sgiliau ym meysydd **digidol, STEM, niwclear, gofod a seiber** dros y 3 blynedd nesaf.

## Amrywio

Byddwn yn parhau i **amrywio ein gweithlu**, gan gynnwys recriwtio mwy o fenywod a lleiafrifoedd ethnig.

Symud ymlaen tuag at un **Ddeddf y Lluoedd Arfog**

Mabwysiadu **Dull Gwobrwyo Hollgynhwysol** yn unol ag Adolygiad Haythornwaite

Hyrwyddo gyrfaoedd **'igam-ogam' neu 'bortffolio'** i hyrwyddo symudedd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

## Hyblygrwydd

## Gwobrwyo

# Pobl: ein hased pwysicaf

## Cefnogi staff y lluoedd arfog a chyn-filwyr

**Buddsoddi £400m mewn llety dros y 2 flynedd nesaf**

**Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd** newydd i gefnogi ein cyn-filwyr ymhellach

Mae **£3.5m** eisoes wedi'i hawlio fel rhan o'r **Cynllun Gofal Plant Cofleidiol**

Mae **Cynllun Cymorth i Brynu'r** Lluoedd Arfog bellach yn barhaol ac mae **28,000** o staff y Lluoedd Arfog wedi'i ddefnyddio

Hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth, a **mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol** drwy bolisïau **dim goddefgarwch**

**Datblygu 30 o argymhellion y Lluoedd Wrth Gefn**

## Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf

Byddwn yn cynyddu nifer y cadetiaid mewn ysgolion i 60,000

Gweithio mewn partneriaeth â cholegau Addysg Bellach i **ddarparu llwybrau i yrfaoedd ym maes Amddiffyn**

## Hyblygrwydd gyrfa

**7.** Rydym yn cydnabod bod gan lawer o bobl ifanc sy'n ymuno â'r gweithlu heddiw safbwynt gwahanol ynghylch y ffordd y byddant yn datblygu eu gyrfaoedd, o'i gymharu â'r cenedlaethau a fu. Maen nhw'n rhagweld gyrfaoedd sy'n hyblyg ac yn gweld eu hunain yn gweithio mewn nifer o wahanol broffesiynau, yn hytrach na symud ymlaen mewn un sefydliad. Felly, byddwn yn hyrwyddo **gyrfaoedd 'igam-ogam' neu 'bortffolio'** ar gyfer pawb sydd eu heisiau – gan fanteisio ar fwy o gyfle i symud gyrfa rhwng swyddi ym maes Amddiffyn a pha bynnag gyflogaeth arall yr hoffent ei dilyn mewn mannau eraill.

**8.** Rydym yn gyfforddus y bydd ein pobl yn llifo i mewn ac allan o faes Amddiffyn i adlewyrchu'r gofynion newidiol yn eu bywydau a'u blaenoriaethau personol. Yn syml, byddai'n well gennym gael peiriannydd talentog yn gwasanaethu am chwe blynedd ac yna'n dod yn ôl atom am ddeg mlynedd arall ar ôl gwneud ychydig flynyddoedd o rywbeth gwahanol yn y cyfamser, yn hytrach na'u gorfodi i adael y lluoedd arfog yn gyfan gwbl oherwydd ein bod yn mynnu ymrwymiadau di-dor llawn i wasanaethu. Mae gwasanaethu'r genedl yn ein Llynges, y Fyddin neu'r Llu Awyr yn gyfle sy'n wahanol i



Diwrnod y Lluoedd Arfog 2023



unrhyw un arall ac felly mae'n rhaid i ni fod yn hyderus, os byddwn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth reoli gyrfaoedd milwrol, y bydd mwy o'n pobl yn treulio llawer mwy o'u bywydau gwaith mewn lifrai nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**9.** Amddiffyn yw'r cyflogwr mwyaf mewn ecosystem ddiogelwch genedlaethol sy'n cynnwys yr asiantaethau diogelwch, y diwydiant Amddiffyn, a'i gadwyn gyflenwi ehangach. Mae er budd pawb bod ein pobl yn ennill profiad ac yn datblygu eu cymwysterau technegol yn ystod eu cyfnod yn y maes Amddiffyn ac wrth weithio yn y sector amddiffyn a diogelwch ehangach. Drwy helpu pobl yn ein crefftau mwyaf technegol i ennill profiad ar draws y sector, credwn y byddwn yn datgloi sgiliau arbenigol ac yn cadw arbenigwyr am fwy o amser. Gallai'r rheini yn y sector ehangach hefyd ystyried ehangu eu profiad eu hunain drwy gyflogaeth ym maes Amddiffyn. Mae hyn nid yn unig er budd y Weinyddiaeth Amddiffyn ond hefyd er mwyn i ddiwydiannau'r DU dyfu'n gyflym – fel gofod, seiberddiogelwch, niwclear a gweithgynhyrchu uwch – a fydd yn cyfrannu'n aruthrol at ffyniant a diogelwch y wlad yn y dyfodol.

**10.** Byddwn felly'n cynnig '**Sbectrwm Gwasanaeth**' a fydd yn ein galluogi i gadw a gwella talent ar draws yr holl weithlu. Bydd hyn yn golygu mwy o hylifedd rhwng y fyddin, y Gwasanaeth Sifil a diwydiant, yn ogystal â rhwng cyflogaeth amser llawn a rhan-amser, drwy drawsnewid strwythurau gyrfa a chreu continwwm rhwng gwasanaeth rheolaidd a gwasanaeth wrth gefn. I wneud hyn, byddwn yn symud ymlaen at un **Ddeddf y Lluoedd Arfog**, i gael gwared ar y rhwystrau strwythurol sy'n cyfyngu ar ein gallu i gynyddu ein talent ar draws yr holl weithlu.

**11.** Rhaid i ni hefyd chwyldroi'r **ffordd rydym yn recriwtio** er mwyn sicrhau bod ein mewnlif yn cyd-fynd yn well ag anghenion y gwasanaethau. Felly, byddwn yn recriwtio mwy o bobl i'n Lluoedd Arfog dros y ddwy flynedd nesaf ac yn symud i fodel recriwtio trawsnewidiol ar gyfer tri gwasanaeth. Bydd y model hwn yn cefnogi ein hangen i gynyddu mynediad ochrol i faes Amddiffyn ar gyfer y rheini sydd eisoes wedi sefydlu eu hunain yn eu gyrfaoedd, ond hefyd yn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cyflogaeth i'r gronfa ehangaf o dalent, gan gynnwys i'r rheini sy'n dechrau heb gymwysterau.

**12.** Bydd yr hyblygrwydd gwasanaeth hwn ar draws y llu cyfan yn newid y ffordd rydyn ni'n meddwl am 'faint' ein Lluoedd Arfog. Ers gormod o amser, mae cyfrif pennau wedi cael ei weld fel procsi ar gyfer canlyniadau, gyda maint y lluoedd rheolaidd yn cael eu cymryd fel totem o'n grym milwrol cenedlaethol. Dros y degawdau i ddod, bydd angen llai a llai o bobl ar y llongau, y tanciau a'r awyrennau yn ein grwpiau ymosod, y brigadau arfog a'r sgwadronau awyrennau ymladd, ond ni fydd hynny o reidrwydd yn golygu y bydd ein gweithlu'n llai. Efallai y bydd gennym lai o bobl ar y rheng flaen ond cymuned lawer mwy o arbenigwyr yn eu cefnogi. Wrth i ni ddysgu mwy gan Wcráin am natur newidiol brwydrau modern ac archwilio'r cyfleoedd mewn deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio, byddwn yn **cynnal lefelau ein grym yn gyffredinol ar y lefelau a gyhoeddwyd yn y Papur Gorchymyn Amddiffyn blaenorol.**

## Dull Gwobrwyo Hollgynhwysol

**13.** Yn unol ag Adolygiad Haythornthwaite, byddwn yn mabwysiadu **Dull Gwobrwyo**

**Hollgynhwysol** sy'n cysylltu amcanion sefydliadol â sgiliau a nodau personél penodol. Bydd y dull hwn, y byddwn yn ei dreialu drwy garfan beirianyddol ddethol yn 2024, yn cydnabod bod y ffordd rydym yn talu ein pobl yn aml yn llawer mwy na'u cyflog craidd. Mae ein cynnig i'n staff gwasanaeth – gan gynnwys llety, bwyd sy'n cael cymhorthdal, cymorth i blant, gofal meddygol a deintyddol, a phensiwn – yn adlewyrchu pecyn sy'n werth llawer mwy na chyflog yn unig, ac mewn llawer o achosion bydd yn mynd y tu hwnt i'r hyn a fyddai ar gael yn y sector preifat. Drwy dargedu'n well yr ysgogiadau ariannol ac anariannol sydd ar gael i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, byddwn yn gallu cynnig **pecyn cymell mwy cymhellol a chystadleuol** i'r rheini sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn ogystal â'r rheini rydym yn ceisio eu denu.

## Trawsnewid sut rydym yn rheoli ein pobl

**14.** Mewn byd digidol yn gyntaf, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y **cyfleoedd a gynigir gan awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial.** Byddwn yn datblygu gweithlu hyblyg a chynaliadwy sy'n gallu addasu'n gyflym i ofynion sy'n esblygu, a defnyddio technolegau modern i sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Fel prif flaenoriaeth, byddwn yn ceisio digideiddio a symleiddio ein system pobl y lluoedd cyfan, gan fanteisio ar dechnoleg fodern, symleiddio polisïau a phrosesau presennol, a chwalu'r rhwystrau sy'n atal hyblygrwydd ac ystwythder y gweithlu ac sy'n cyfyngu ar fynediad at dalent.

## Sgiliau ar gyfer y dyfodol

**15.** Mae amddiffyn wedi dangos ei fod yn un o **beiriannau mwyaf pwerus y wlad ar gyfer symudedd cymdeithasol**, gan gynnwys o ganlyniad i'n darpariaeth hyfforddiant ac addysg. Fel cyflogwr agored a modern, rydym yn recriwtio o bob rhan o gymdeithas, gan ddarparu mynediad cyfartal at gyflogaeth a hyfforddiant beth bynnag fo'u cefndir – gan ddarparu cyfrwng grymus i 'Ffyniant Bro'. Byddwn yn rhoi sgiliau wrth galon y ffordd rydym yn defnyddio, yn cynllunio ac yn rheoli ein gweithlu, gan deilwra ein dull gweithredu fel ein bod yn recriwtio, hyfforddi, rheoli a chymell ein pobl mewn ffyrdd llawer mwy effeithiol ac wedi'u targedu.

**16.** Byddwn yn cyflymu'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Sgiliau Amddiffyn Gyfan, lle byddwn yn mapio'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau yn y fenter Amddiffyn gyfan a dyluniad y lluoedd ar gyfer y dyfodol. Bydd y **dull seiliedig ar sgiliau** hwn yn ein galluogi i dargedu ein hyfforddiant a'n haddysg yn well, gan gydnabod ein cyfrifoldeb nid yn unig i ddenu pobl i'r sefydliad sydd eisoes â'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol, ond hefyd i uwchsgilio'r rhai yr ydym yn eu recriwtio ac, yr un mor bwysig, y rhai sydd eisoes yn ein gweithlu.

**17.** Fel mater o flaenoriaeth, dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn **mynd i'r afael â'n diffygion sgiliau mwyaf critigol**, yn enwedig ym meysydd **digidol a STEM** (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg). Wrth i ni fuddsoddi mewn uwchsgilio ein pobl ein hunain yn y meysydd hyn, yn ogystal ag mewn **niwclear, y gofod a seiber**, byddwn hefyd yn gweithio'n agosach ar draws y Llywodraeth, a chyda diwydiant a'r byd


Diwrnod y Lluoedd Arfog 2023

academaidd, i sicrhau ein bod yn datblygu'r sgiliau hynny'n genedlaethol. Mewn partneriaeth â diwydiant, bydd ein cronfa o beirianwyr, arbenigwyr seiber, dadansoddwyr data a gwyddonwyr, yn rhyfelwyr digidol y dyfodol a bydd yn helpu i fod yn sail i dwf a ffyniant cenedlaethol.

**18.** Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y defnydd o fentrau newydd, gan gynnwys **hyfforddiant digidol i uwchsgilio'r** rheini sy'n ymuno â'r fenter Amddiffyn a'r rheini sydd eisoes ynddi, gan ddatblygu'r prosiect Sgiliau Digidol ar gyfer Amddiffyn (DS4D) ymhellach. Bydd DS4D, sy'n cael £19 miliwn dros dair blynedd, ac sy'n gweithio'n agos gyda diwydiant a'r byd academaidd, yn cychwyn ar raglen uchelgeisiol ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer yr holl staff Amddiffyn i drawsnewid eu sgiliau digidol, drwy Academi Cyfuno Sgiliau Digidol Rhithwir sy'n gysylltiedig â'r Academi Amddiffyn. Bydd hyn yn gweithio ochr yn ochr â mudiadau a sefydliadau rhyngwladol flaenllaw i uwchsgilio dros 65,000 o arweinwyr, uwchsgilio 13,000 o weithwyr proffesiynol digidol yn dechnegol a chodi'r bar digidol ar gyfer y gweithlu cyfan sy'n 250,000 o bobl. Bydd partneriaid strategol yn y diwydiant, gan gynnwys Amazon Web Services a Microsoft, yn helpu. Byddwn yn mabwysiadu dull newydd o wobrwyo, gan gydnabod yn well y rheini sy'n dod â **thalent technoleg** i'r sefydliad. Byddwn yn annog **mwy o hyblygrwydd a symudedd** rhwng y Llywodraeth a diwydiant ar gyfer ein gweision sifil a'n staff milwrol mwyaf digidol abl, gan agor cyfleoedd newydd ar gyfer ein talent cenedlaethol, a chefnogi ffyniant cenedlaethol.

**19.** Mae dros 100 o **gynlluniau prentisiaeth** ar gael yn y maes Amddiffyn, gyda dros 20,000 o brentisiaid yn cael eu hyfforddi ar unrhyw un adeg. Mae 57% o'r cynlluniau'n gysylltiedig â STEM ac mae llawer yn cyfateb i lefel Gradd. Cafodd y Fyddin, y Llynges Frenhinol a'r Awyrlu Brenhinol eu rhoi yn y safle cyntaf, y trydydd a'r seithfed safle, yn y drefn honno, yn y 100 cyflogwr gorau yn y DU yn 2023. Byddwn yn adeiladu ar y sylfeini hyn ac yn cynnig hyd yn oed mwy o **leoliadau a secondiadau** yn ôl ac ymlaen i faes Amddiffyn, er mwyn i'n pobl allu dyfnhau eu harbenigedd a'u sylfaen sgiliau. Bydd hyn yn dechrau drwy ddarparu credydau dysgu a chyllid i'r rheini sy'n ymgymryd â chymwysterau mewn meysydd lle nad ydym yn meddu ar sgiliau, ac yna'n ymestyn i ddarparu llwybrau eraill i addysg uwch.

## Cefnogi staff y lluoedd arfog a chyn-filwyr

**20.** Rydyn ni'n cydnabod y cyfraniad amhrisiadwy mae **partneriaid a theuluoedd** yn ei wneud i fywyd y Lluoedd Arfog a'r rôl gefnogol hollbwysig maen nhw'n ei chwarae o ran cynnal gallu gweithredol. Cynhaliodd Andrew Selous AS adolygiad annibynnol i ddeall anghenion teuluoedd y Lluoedd Arfog ar gais y Llywodraeth. Gan adlewyrchu ei adroddiad 'Living in our Shoes', mae Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Teuluoedd y Lluoedd Arfog wedi cael ei lansio. Mae'n sefydlu cynllun deng mlynedd y Weinyddiaeth Amddiffyn i gynnwys elfennau modern sy'n ystyriol o deuluoedd i mewn i bolisïau sy'n ymwneud â phobl.

**21.** Ym mis Medi 2022, lansiwyd y cynllun Gofal Plant Cofleidiol; ers hynny, mae dros 7,000 o blant y Lluoedd Arfog wedi cael eu cofrestru ar y cynllun, gyda dros £3.5 miliwn eisoes wedi cael ei hawlio i gefnogi teuluoedd.

Erbyn 2024, byddwn wedi ehangu'r mynediad hwn at ofal plant i'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau tramor. Byddwn hefyd yn lansio **strategaeth Blynyddoedd Cynnar Amddiffyn erbyn mis Mawrth 2024**, i gynyddu capasiti mewn darpariaeth gofal plant, gan wasanaethu lleoliadau Amddiffyn ledled y DU. Rydym hefyd yn benderfynol o weithio gydag eraill y tu allan i Amddiffyn – gan gynnwys y GIG a'r Adran Addysg – i sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn cael cyngor a chymorth mwy pwrpasol. Ym mis Mai 2022, daeth y Weinyddiaeth Amddiffyn i gytundeb â Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau i addasu ei broses ymgeisio er mwyn cefnogi staff, cyn-filwyr a dibynyddion sy'n mynd i addysg uwch yn well.

**22.** Mae **darparu llety gwasanaeth** yn hanfodol ar gyfer effeithiolrwydd gweithredol y Lluoedd Arfog ac mae'n elfen allweddol o'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i'n pobl. Er ein bod wedi buddsoddi'n sylweddol mewn llety â chymhorthdal i'n pobl, mae gormod ohonynt heb dai o safon y dylent ei disgwyl yn rhesymol. Gan gydnabod hyn, ym mis Hydref 2022 fe wnaethom gyhoeddi'r Strategaeth Llety Amddiffyn a oedd yn nodi cynnig llety gwell i staff, eu partneriaid a'u teuluoedd. Mae'r strategaeth yn sefydlu safon sylfaenol




Morwyr y Llynges Frenhinol yn cydweithio

newydd ar gyfer Llety Byw Sengl y mae'r ystâd yn awr yn cael ei hasesu yn ei herbyn ac mae'n cynnwys buddsoddiad sylweddol.

**23.** Mae amddiffyn yn dal ar y trywydd iawn i ddarparu cyfleusterau mwy modern a chynaliadwy i'r Lluoedd Arfog, gan gynnwys drwy'r Portffolio Optimeiddio'r Ystâd Amddiffyn ehangach. Er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu tai a llety preswyl milwrol newydd ac wedi'i adnewyddu ar gyfer dros 40,000 o filwyr, morwyr, awyrenwyr a'u teuluoedd, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn **chwistrellu £400 miliwn arall dros y ddwy flynedd nesaf** i sicrhau ein bod yn darparu'r llety modern y mae ein teuluoedd gwasanaeth yn ei haeddu. Yn ogystal â chyfrannu at effeithiolrwydd staff Amddiffyn a'u cadw, bydd y Portffolio Optimeiddio'r Ystâd Amddiffyn yn cefnogi blaenoriaeth 'Ffyniant Bro' y Llywodraeth, gan greu cyfleoedd cyflogaeth a darparu tir ar gyfer tai cymdeithasol.

**24.** Rydym hefyd yn cydnabod y dylai ein **darpariaeth llety adlewyrchu anghenion cyfoes**, gan gyflawni ein hymrwymiad i ddyrannu llety i staff mewn perthnasoedd hirdymor ar yr un sail â'r rheini sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. Byddwn yn symud oddi wrth ddyrannu llety teulu ar sail statws, at fodel sy'n seiliedig ar anghenion. Byddwn yn cefnogi perchnogaeth tai drwy gynllun Cymorth i Brynu'r Lluoedd Arfog, sydd bellach wedi cael ei wneud yn barhaol ac sydd eisoes wedi galluogi dros 28,000 o staff y Lluoedd Arfog i gamu ar yr ysgol dai.

**25.** Yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth arlwyo, cytunwyd ar **Strategaeth Arlwyo** newydd ar draws y Lluoedd Arfog. Mae'r strategaeth yn rhoi anghenion staff wrth galon y ddarpariaeth, gyda dewisiadau bwyta iachach ar gael ac yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn well â bywyd modern. Cyn contractau newydd yn 2026, rydym yn gweithio gyda darparwyr y diwydiant i gyflwyno cynifer o agweddau â phosibl ar y ddarpariaeth fwyd newydd o fis Ionawr 2024 ymlaen.

**26.** Rydyn ni eisiau i'r DU fod yn lle gwych i fod yn gyn-filwr. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi buddsoddi dros £40 miliwn i ddigideiddio gwasanaethau lles, pensiynau a chynlluniau iawndal i gyn-filwyr. Mae dros 10,000 o sefydliadau wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, gan gydnabod y gwerth y mae cyn-filwyr yn ei roi i'w busnes ac i economi'r genedl. Bydd y Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd newydd yn gwella'r cymorth rydyn ni'n ei roi i'n staff, fel eu bod yn pontio'n llwyddiannus o'r Lluoedd Arfog.

**27.** Gyda'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr, rydym yn cyflwyno Cardiau ID Adnabod Cyn-filwyr yn 2023, ac yn adolygu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'n cyn-filwyr: mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r GIG i gael cymorth wedi'i deilwra i gyn-filwyr fel Op Courage, sy'n darparu cymorth iechyd meddwl i gyn-filwyr, pobl sy'n gadael gwasanaethau a milwyr wrth gefn; comisiynu personol integredig i'r rheini sydd ag anghenion iechyd corfforol cymhleth; a meddygon teulu sydd wedi'u hachredu fel rhai cyfeillgar i gyn-filwyr. **Mae ein cyn-filwyr yn ased cenedlaethol** a byddwn yn parhau i hyrwyddo eu gwasanaeth a'u gwerth parhaus i gymdeithas.

## Harneisio'r Lluoedd Cyfan

**28.** Mae'r Rhyfel yn Wcráin wedi atgoffa'r byd bod **Lluoedd Wrth Gefn yn hanfodol ar**

**faes y gad ac oddi arno.** Gan wneud y Lluoedd Arfog yn fwy abl a gwydn, mae'r Lluoedd Wrth Gefn yn darparu galluoedd sifil arbenigol sy'n ennill brwydrau na all y Lluoedd Rheolaidd eu cynhyrchu na'u cynnal yn rhwydd.  Maent hefyd yn rhan hanfodol o ymgysylltiad Amddiffyn â'r genedl.  Rhaid cydnabod Aelodau'r Lluoedd Wrth Gefn – ar bob lefel ym maes Amddiffyn – fel rhan hanfodol o'r gweithlu Amddiffyn, a bydd cyflwyno'r Sbectrwm Gwasanaeth yn galluogi eu defnydd a'u heffeithiolrwydd ymhellach.

**29.** Er mwyn gwella'r ffordd y cânt eu cefnogi, byddwn yn adeiladu ar 30 o argymhellion y Lluoedd Wrth Gefn, i fynd i'r afael â rhwystredigaethau polisi a phrosesau a nodwyd, ac i fynd i'r afael â'r problemau diwylliannol ac adnoddau y mae ein Milwyr Wrth Gefn yn eu hwynebu.  Bydd y cam gweithredu hwn hefyd yn ceisio gwella'r strwythurau a'r prosesau symud sydd eu hangen i gynhyrchu'r grymoedd ail a thrydydd echelon a fydd yn atgyfnerthu ac yn cynnal galluoedd ymladd rhyfel ac yn diogelu'r wlad – ein **Lluoedd Wrth Gefn Strategol** – yn ogystal â sicrhau y gallwn wneud gwell defnydd o sgiliau sifil arbenigol Milwyr Wrth Gefn ym maes Amddiffyn.

**30.** Mae amddiffyn eisoes yn amgylchedd lle mae talent yn ffynnu a lle mae gyrfaoedd yn cael eu meithrin, a byddwn yn gwneud yn siŵr bod hyn yn parhau i fod yn wir. Mae timau amrywiol yn gryfach, yn fwy arloesol ac yn llai tueddol o feddwl mewn grŵp.  Er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio ac yn cadw pobl sydd â'r sgiliau sydd eu hangen arnom, byddwn yn **hyrwyddo cynhwysiant** ar draws ehangder a dyfnder y sefydliad, gan feithrin amgylchedd lle mae pobl ar bob lefel yn cael eu grymuso a'u gwerthfawrogi.  Byddwn yn parhau i **amrywio ein gweithlu**, gan gynnwys drwy recriwtio mwy o fenywod a lleiafrifoedd ethnig. Byddwn yn edrych ar sut y gallwn recriwtio a chefnogi pobl ag anableddau yn well.

**31.** Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran sicrhau gwelliannau i'n holl bobl, drwy gynyddu hyder, tryloywder, gweithio'n hyblyg, a mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol drwy ein **polisïau dim goddefgarwch** (gan gynnwys mewn ymateb i adroddiad Sarah Atherton AS 'Protecting Those Who Protect Us: Women in the Armed Forces from Recruitment to Civilian Life'). Rydym yn trawsnewid ein systemau Cyfiawnder Gwasanaeth a Chwynion Gwasanaeth er mwyn cynyddu ymddiriedaeth ac atebolrwydd.  Fodd bynnag, mae gennym dal uchelgais i gyflawni mwy a chyflymu cyflymder y newid hwn. Bydd lansio ein Cynlluniau Gweithredu ar Hil Amddiffyn yn arwain at ragor o newid cadarnhaol i aelodau o leiafrifoedd ethnig. Rydym wedi comisiynu adroddiad yr Arglwydd Etherton ar y ffordd y cafodd pobl LGBT eu trin gan y Weinyddiaeth Amddiffyn cyn 2000 a byddwn yn parhau i weithio drwy ei argymhellion.

**32.** Mae llwyddiant parhaus Amddiffyn yn seiliedig ar **safon, proffesiynoldeb ac ymrwymiad ei Weision Sifil** – waeth beth fo'u rôl, eu lleoliad na'u graddfa.  Mae hyn yn cael ei ddangos drwy'r gwaith rhagorol mae ein Gweision Sifil wedi'i wneud i gefnogi Wcráin, ar draws sawl maes gweithgarwch: caffael, logisteg, polisi, datblygu gallu, a chyllid, ymysg llawer o rai eraill.  Mae Gweision Sifil nid yn unig yn hanfodol i berfformiad cryf y Weinyddiaeth Amddiffyn fel Adran o'r Wladwriaeth a phencadlys strategol; ar draws pob rhan o Amddiffyn, maent i gyd yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth, ac yn hanfodol i gefnogi allbynnau'r Lluoedd Arfog. Mae Gwasanaeth

Sifil modern yn fedrus, yn arloesol, yn uchelgeisiol ac yn benderfynol o barhau i esblygu i addasu i fyd sy'n newid. O fewn Amddiffyn, rydym wedi ymrwymo o hyd i ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil drwy ddatblygu strategaeth wobrwyo ddeng mlynedd ar gyfer Gweision Sifil ym maes Amddiffyn, cyflwyno gwell cynllunio tymor hir ar gyfer y gweithlu, a thrwy foderneiddio ein dull gweithredu ar gyfer y ffordd rydym yn denu, yn recriwtio ac yn cadw talent.



Gweision Sifil ac aelod o'r Lluoedd Arfog ym Mhrif Swyddfa'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Llundain

## Ysbrydoledig Ieuenctid a Chadetiaid

**33.** Mae ymchwil annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Northampton wedi dangos bod y sgiliau bywyd gwerthfawr a gafwyd o brofiad y cadetiaid, gan gynnwys hunanddisgyblaeth, hyder a gwydnwch, yn gwella cyflogadwyedd a symudedd cymdeithasol.  Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn noddi pum llu cadetiaid: y Corfflu Cadetiaid Môr, y Corfflu Cadetiaid Gwirfoddol, Llu Cadetiaid y Fyddin, a'r Corfflu Hyfforddiant Awyr, sydd i gyd wedi'u lleoli yn y gymuned; a'r Llu Cadetiaid Cyfunol sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion.  Mae dros 135,000 o bobl ifanc a bron i 26,000 o oedolion yn gwirfoddoli mewn tua 3,500 o unedau cadetiaid ledled y Deyrnas Unedig. Drwy Raglen Ehangu Cadetiaid y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adran Addysg ar y cyd, mae gwaith yn mynd rhagddo ar uchelgais y Llywodraeth i **gynyddu nifer y cadetiaid** mewn ysgolion i 60,000 erbyn mis Ebrill 2024, gan sicrhau bod mwy o blant mewn ysgolion y wladwriaeth yn cael y cyfleoedd sydd wedi bod yn nodwedd o'r sector annibynnol ers tro byd.  Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Cholegau Addysg Bellach ar draws y wlad i **ddarparu llwybrau wedi'u diffinio'n glir i dalent ifanc i yrfaoedd** ym maes Amddiffyn.



Cadetiaid y Fyddin

# Pennod 2:

# Trawsnewid y Lluoedd drwy Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg

**1.** Mae'r dirwedd dechnoleg fyd-eang yn fwy cymhleth a deinamig nag erioed. Credwn mai un o'r prif wahaniaethau mewn cystadleuaeth fyd-eang a rhyfela yn y dyfodol fydd y gallu i reoli a harneisio technoleg. Felly, mae Amddiffyn yn falch o fod yn flaenllaw yn uchelgais y Llywodraeth i'r DU fod yn **Uwch-bŵer Gwyddoniaeth a Thechnoleg (S&T)** ac rydym yn cofleidio'r rôl bwysig rydym yn ei chwarae yn **Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg y DU**, sy'n nodi nodau a gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg hyd at 2030.

**2.** Byddwn yn gwreiddio'r ymdrech i sicrhau **mantais strategol drwy Wyddoniaeth a Thechnoleg** ym maes Amddiffyn, gan wella ein gallu i nodi, defnyddio a sicrhau datblygiadau gwyddonol a thechnolegol allweddol sy'n dod i'r amlwg, gwthio'r technolegau mwyaf perthnasol i allu gweithredol, a sicrhau ystod o fanteision milwrol a chenedlaethol. **Bydd cefnogaeth i'r Cyngor S&T Cenedlaethol (NSTC) wrth galon ein dull gweithredu.** Byddwn yn cyfrannu at gyflawni nodau'r NSTC, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau Amddiffyn sydd ar gael i ni; byddwn yn



Ymarfer OLYMPUS WARRIOR, Cyprus. Ymarfer y Môr-filwyr Brenhinol gan ddefnyddio dronau codi trwm

blaenoriaethu buddsoddiadau a galluoedd sy'n ategu, yn hytrach na dyblygu, gweithgarwch ehangach y Llywodraeth; a byddwn yn gweithio gyda gweddill y Llywodraeth i sicrhau bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gallu manteisio ar y fantais ehangach a gynhyrchir gan Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg y DU i sicrhau mantais a diogelwch milwrol.

**3.** Gan gydnabod bod cynnal ein mantais dechnolegol mor allweddol i ennill brwydrau ag unrhyw beth yn y lluoedd, **rydym yn bwriadu buddsoddi llawer mwy na £6.6 biliwn mewn Ymchwil a Datblygu (R&D) uwch** i greu a manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, i wella'r galluoedd milwrol sydd ar gael i'r DU a'n cynghreiriaid, ac i helpu i gynnal ein mantais strategol.

**4.** Menter Ymchwil a Datblygu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw conglfaen ein system Ymchwil a Datblygu. Byddwn felly'n cynyddu'r buddsoddiad yn ein galluoedd mewnol yn y meysydd hynny sy'n allweddol i heriau diogelwch sy'n esblygu a datblygiadau technolegol yn y dyfodol, neu sy'n sail i allu'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid a chyflenwyr allanol. Ymhlith ein blaenoriaethau allweddol mae'r **pum technoleg hanfodol** a nodwyd gan NSTC:

**(a) Deallusrwydd Artiffisial.** Mae deallusrwydd artiffisial yn flaenoriaeth strategol ar gyfer Amddiffyn, fel y nodir yn y Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial Amddiffyn, ac un o'i nodau allweddol yw cryfhau ecosystem deallusrwydd artiffisial amddiffyn a diogelwch y DU. Byddwn yn darparu galluoedd arloesol i gefnogi gweithrediadau presennol (yn bennaf ym maes Gorchymyn a Rheoli a Deallusrwydd) ac adnoddau ar gyfer mwy o ystwythder sefydliadol fel rheoli'r gadwyn gyflenwi. Byddwn yn cynyddu'r buddsoddiad mewn opsiynau gallu milwrol a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial, gan eu blaenoriaethu mewn ymarferion Datblygu Lluoedd a 'chydbwysedd buddsoddi', a nodi gwelliannau galluogrwydd 'enillion cyflym' ac opsiynau deallusrwydd artiffisial newydd mewn rhaglenni mawr.

**(b) Bioleg Peirianegol.** Mae defnyddio cysyniadau bioleg synthetig a'u trosi'n atebion yn y byd go iawn yn cynnig cyfleoedd gwych i Amddiffyn, gan gynnwys cymwysiadau ar gyfer galluoedd milwrol yn y dyfodol. Felly, rydym yn gwneud buddsoddiadau wedi'u targedu, fel £2 filiwn y flwyddyn dros dair blynedd yn y rhaglen ymchwil a datblygu, i sicrhau bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn un sy'n mabwysiadu'n gynnar. Mae hyn yn cynnwys £12.5 miliwn ar gymwysiadau Bioleg Peirianegol biodanwyddau ar gyfer awyrennau milwrol.

**(c) Telegyfathrebu yn y Dyfodol.** Mae peirianneg drydanol uwch yn allu S&T sy'n flaenoriaeth i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ac mae gennym diddordeb cryf o hyd mewn darparu seilwaith digidol cenedlaethol effeithiol a diogel. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos ag adrannau eraill y Llywodraeth a diogelwch cenedlaethol i gefnogi nodau NSTC.

**(d) Lled-ddargludyddion.** Mae lled-ddargludyddion yn dechnoleg sylfaenol, sy'n hanfodol i'n ffyniant a'n diogelwch cenedlaethol. Mae technolegau lled-ddargludyddion sy'n benodol i amddiffyn yn arbennig o hanfodol ar gyfer synhwyro, delweddu, arfau, gwrthfesurau a

# Sut byddwn yn trawsnewid y Lluoedd drwy wyddoniaeth, arloesi a thechnoleg

**Deallusrwydd Artiffisial**
Blaenoriaeth strategol i Amddiffyn


**Bioleg Peirianegol**
Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu mabwysiadu'n gynnar ac mae'n targedu buddsoddiad, fel £2 filiwn y flwyddyn dros dair blynedd yn y rhaglen gwyddoniaeth a thechnoleg.

**Telegyfathrebu yn y Dyfodol**

**Lled-ddargludyddion**
Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio'n agos gyda'r **Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT)** i gyflawni'r canlyniad a nodir yn y Strategaeth Lled-ddargludyddion Genedlaethol.

**Technolegau Cwantwm**
Buddsoddi £30 miliwn dros bedair blynedd mewn Synhwyro'r Dyfodol gyda threialon prototeip eisoes ar waith

**Technoleg arall**
Byddwn yn gwella ein galluoedd mewn roboteg, cynyddu gallu dynol, BioCem, arfau ynni cyfeiriedig a deunyddiau datblygedig




**Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd**
Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn effeithio ar amddiffyn. Rhaid inni wynebu realiti gweithredu mewn hinsawdd fwy garw ac addasu yn unol â hynny, gan wella ein galluoedd a'n mantais weithredol

**Digidol a Data**
Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyflymu'r gwaith o gyflawni ei thrawsnewidiad digidol ei hun – yr hyn rydym yn ei alw'n Asgwrn Cefn Digidol.

**Yr Ecosystem Genedlaethol**
Y Cyngor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cenedlaethol, byddwn yn cynyddu ein hymdrechion yn sylweddol i lunio canlyniadau technolegol a diwydiannol cenedlaethol.

**Technoleg-ganolog**
Er mwyn aros ar flaen y gad, mae angen i ni symud yn bendant oddi wrth ddull gweithredu platfform-ganolog a chanolbwyntio ar yr effeithiau milwrol rydym yn ceisio eu cyflawni.

**Dysgu o Wcráin**
Daw ein mas nid yn unig o'r llongau, y tanciau a'r awyrennau yn ein rhestr stoc ond o'r systemau arloesol rydym yn eu hychwanegu atynt a chyfrwystra'r rhai sy'n eu gweithredu

**Gemau rhyfel a dadansoddi**
Mae'r galw gan Amddiffyn am gemau rhyfel dadansoddol yn dod yn fwyfwy sylweddol. Mewn ymateb i hyn, mae Dstl yn bwriadu cynyddu maint ei dîm a sicrhau cyfleusterau gemau rhyfel.

chymwysiadau cyfathrebu. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn, fel un o brif ddefnyddwyr lled-ddargludyddion gyda phŵer caffael sy'n siapio'r farchnad, yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT) i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y Strategaeth Lled-ddargludyddion Genedlaethol.

(e) **Technolegau Cwantwm.** Yn 2022, prynodd y Weinyddiaeth Amddiffyn gyfrifiadur cwantwm gan ddatblygwr cyfrifiaduron cwantwm Prydeinig, ORCA Computing, i ddatblygu galluoedd prosesu data yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i fod ar flaen y gad yn y chwyldro cyfrifiadura cwantwm, gan herio ein hunain i fod ymhlith y byddinoedd cyntaf i weld a harneisio ei botensial ar faes y frwydr. Ochr yn ochr â'n diddordeb mewn cyfrifiadura cwantwm, ein nod yw mabwysiadu synhwyro cwantwm yn gynnar, gan fuddsoddi £30 miliwn dros bedair blynedd mewn Synhwyro'r Dyfodol ac eisoes yn treialu prototeipiau ar lwyfannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Felly, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn eisoes wedi dweud wrth y diwydiant ein bod yn chwilio am rôl yn adeiladu'r ecosystem synhwyro cwantwm genedlaethol.

**5.** Ar ben hynny, byddwn yn gwella ein galluoedd mewn meysydd fel **roboteg, cynyddu gallu dynol, BioCem, arfau ynni cyfeiriedig a deunyddiau uwch** a fydd yn hanfodol i gyflawni gallu milwrol a thasgau diogelwch cenedlaethol.

**6.** Yn unol â hynny, byddwn yn ad-drefnu ein strwythurau R&D, S&T ac arloesi i greu un system gydgysylltiedig, gan leihau biwrocratiaeth, cynyddu ein gallu i wthio ymchwil a datblygu yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i allu, a datblygu strategaeth gwyddoniaeth, arloesi a thechnoleg integredig newydd. Fel rhan o hyn, byddwn yn datblygu system newydd ar gyfer rheoli technoleg, gan gynnwys gallu mwy cadarn i integreiddio systemau i sicrhau ein gallu i gyrchu, integreiddio a defnyddio technolegau arloesol, a dull cryfach o gynhyrchu a modelu opsiynau ar gyfer trosi syniadau a thechnolegau arloesol yn alluogrwydd. Byddwn yn sefydlu swyddogaeth craffu ymarferoldeb a chyflawni technoleg, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd y gallwn gyflawni ein rhaglenni mwyaf uchelgeisiol.

**7.** Byddwn yn gweithio'n agosach gyda **chynghreiriaid a phartneriaid** fel UDA, Awstralia, Ffrainc, yr Almaen, Japan a'r Eidal i ddatblygu galluoedd arloesol. Byddwn yn manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil creu **Cyflymydd Arloesedd Amddiffyn NATO ar gyfer Gogledd yr Iwerydd** (DIANA) – gyda'i bencadlys Ewropeaidd yn Llundain, gydag ail yn Tallinn – i wella galluoedd cyfunol y Gynghrair gyfan. Drwy ddeall ein blaenoriaethau ymchwil a datblygu, ein galluoedd gwyddoniaeth a thechnoleg, a'n seiliau diwydiannol yn well, byddwn yn gallu manteisio ar alluoedd 'gorau yn y dosbarth' yn ogystal â meithrin cryfderau sofran.

## Adeiladu ecosystem genedlaethol

**8.** I gefnogi'r Cyngor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cenedlaethol, byddwn yn cynyddu ein hymdrechion yn sylweddol i **siapio canlyniadau technolegol a diwydiannol cenedlaethol**: mae ein ffyniant cenedlaethol, sylfaen dechnolegol a

diwydiannol gadarn, cadwyn gyflenwi gynaliadwy, a'n gallu milwrol, i gyd yn atgyfnerthu ei gilydd. Byddwn yn ymgysylltu'n helaeth â mentrau cenedlaethol (gan gynnwys AI, rhaglenni Cwantwm, Bioleg Peirianegol a Lled-ddargludyddion), gan gyfrannu amrywiaeth o ysgogiadau Amddiffyn i gefnogi DSIT ac adrannau eraill.



Drôn Black Hornet 3 nano yn darparu cuddymwybyddiaeth o sefyllfa

**9.** Byddwn yn cryfhau ein **hymgysylltiad â sylfaen ddiwydiannol a sector prifysgolion o'r radd flaenaf y DU, ac yn cynyddu ein buddsoddiad ynddynt.** Mae gennym sylfeini cryf eisoes, ac yr ydym wedi cryfhau'r ymgysylltu hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2021/22, gwariodd Dstl £354 miliwn ar ymchwil allgyrsiol drwy sylfaen amrywiol o gyflenwyr o bartneriaid diwydiannol ac academaidd; mae Dstl yn amcangyfrif bod hyd at 10,000 o swyddi'n cael eu cefnogi gan gyllid y rhaglen y mae'n ei roi i bartneriaid o'r fath. Rydym wedi agor canolfan Dstl newydd yn Newcastle i helpu i ledaenu cyrhaeddiad daearyddol Dstl a harneisio meddyliau gwych y gwyddonwyr, y peirianwyr a'r academyddion i ddatblygu gwyddoniaeth data a deallusrwydd artiffisial arloesol i gefnogi ein diogelwch cenedlaethol. Mae Dstl yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer rhagor o ganolfannau Gwyddoniaeth a Thechnoleg ledled y DU i gael gafael ar gyflenwyr newydd a chyfleoedd recriwtio eraill.

**10.** Mae perthynas agos Dstl â diwydiant eisoes yn datblygu technolegau arloesol. Er enghraifft, mewn cydweithrediad â grŵp o bartneriaid yn y diwydiant a elwir yn gonsortiwm Dragonfire, mae Dstl wedi dangos prototeip gweithredol o system laser yn erbyn drôn. Fe wnaethant integreiddio system arfau arbrofol gyda gorchymyn a rheolaeth uwch, a oedd yn gallu cynhyrchu 50kW o bŵer mewn laser, a'i dargedu gyda chywirdeb a sefydlogrwydd hynod gywir. Roedd y prawf ym mis Tachwedd 2022 yn cynnwys ergyd uniongyrchol yn erbyn drôn ar dennyn 3.5km i ffwrdd. Pan fydd y system hon yn cael ei datblygu a'i defnyddio ymhellach, bydd yn galluogi Lluoedd Arfog y DU i niwtraleiddio targedau heb fod angen ffrwydron.

**11.** Byddwn yn adeiladu ar y sylfeini hyn i **feithrin ecosystem wirioneddol gydweithredol gyda'r nod o greu un system ar gyfer rhagoriaeth ym maes ymchwil a datblygu ym maes amddiffyn – y Llywodraeth, diwydiant a'r byd academaidd.** Gyda'r Llywodraeth ehangach, byddwn yn buddsoddi mewn sylfaen ddiwydiannol gadarn, gydnerth a thechnolegol uchel a'r cadwyni cyflenwi sydd eu hangen arnom. Byddwn yn meithrin ac yn buddsoddi'n benodol yn y sectorau hynny lle mae gofynion milwrol yn debygol o fynd y tu hwnt i alw sifil tymor agos, fel synhwyro cwantwm, neu lle mae rheidrwydd i Amddiffyn fod ar flaen y gad, fel deunyddiau uwch, technolegau gofod arloesol neu ymchwil seiber. Byddwn yn gwneud hynny drwy gyd-greu atebion gyda diwydiant; gweithredu fel 'mabwysiadwr cyntaf', defnyddio technoleg sifil mewn systemau milwrol, a gweithio gyda'r Adran Busnes a Masnach i fanteisio i'r eithaf ar y potensial allforio.

**12.** O dan gyfarwyddyd Prif Gynghorydd Gwyddonol y Weinyddiaeth Amddiffyn, bydd Dstl yn gwella ei hymgysylltiad allanol, gan ddatblygu partneriaethau strategol newydd gyda sefydliadau allweddol. Byddwn yn adeiladu **cymuned o fuddiant y gallwn ymddiried ynddi** y byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth â hi am ein blaenoriaethau a'n diddordebau ymchwil, a'n dealltwriaeth o risgiau a bygythiadau allweddol sy'n cael eu gyrru gan dechnoleg – gan ddod â Gwybodaeth Amddiffyn yn fwy cyflawn i'n dull gweithredu. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth a sefydliadau ehangach i wella diogelwch ein sylfaen ymchwil, gan helpu i gael y cydbwysedd cywir rhwng y natur agored sydd ei hangen ar gyfer rhagoriaeth academaidd, arloesedd a ffyniant ar y naill law, a chadw mantais genedlaethol drwy ddiogelwch yr ymchwil fwyaf datblygedig ar y llall.

**13.** Byddwn yn datblygu **dull newydd uchelgeisiol o fanteisio ar eiddo deallusol (IP)** a gynhyrchir gan Wyddoniaeth a Thechnoleg y Weinyddiaeth Amddiffyn ac arloeswyr eraill, gan ddatblygu cyfrwng presennol y Llywodraeth ar gyfer cyflwyno eiddo deallusol, Ploughshare Innovations Limited, a hyrwyddo masnacheiddio ar raddfa fwy – er mwyn cyflymu'r gwaith o gyflawni gallu milwrol (y daith o brototeip i fasgynhyrchu ac yn nwylo milwyr) yn ogystal â thwf yn y sector technoleg a chreu swyddi.

**14.** Byddwn yn cynnwys y diwydiant – gan gynnwys y prif fentrau Amddiffyn presennol, y prif fentrau anhraddodiadol, a busnesau bach a chanolig – yn llawer agosach yn ein prosesau datblygu gallu a dylunio lluoedd. Drwy wneud hyn, byddwn yn dod â mwy o ffocws i'n hecosystem arloesi, ac yn hyrwyddo defnydd cyflymach o'r technolegau arloesol sy'n cael eu creu ac yn **cau'r bwlch rhwng yr hyn y mae diwydiant yn ei ddatblygu a'r hyn sydd ei angen arnom.**

**15.** Rydym yn cydnabod y risg o fod yn agored i niwed mewn cadwyni cyflenwi byd-eang a'r manteision ychwanegol i gadernid, diogelwch a ffyniant cenedlaethol a allai godi o ddull sy'n manteisio i'r eithaf ar dechnoleg 'cartref'. Byddwn felly'n datblygu **opsiynau ar gyfer dulliau mwy ymyriadol** sydd eu hangen i sicrhau galluoedd sofran a chyflymu technolegau milwrol newydd. Byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau i feithrin ein gallu yn y dyfodol yn fwy bwriadol o amgylch **cryfderau cenedlaethol ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg**, gan gadw dull sy'n dal i gael ei yrru'n sylfaenol gan heriau. Wrth wneud hynny, byddwn yn chwarae rhan fwy

sylweddol yn **cynnal a datblygu iechyd ein hecosystem ymchwil a datblygu a'n canolfan ddiwydiannol ymchwil a datblygu.**

## Paratoi ar gyfer y dyfodol drwy gemau rhyfel a dadansoddi

**16.** Mae'r galw gan Amddiffyn am gemau rhyfel dadansoddol yn dod yn fwyfwy sylweddol. Mae'n ein helpu i nodi opsiynau'n gyson i ddarparu gwell gallu, mewnosod technoleg newydd, ac optimeiddio'r ffordd rydym yn gweithredu. Er mwyn gallu mynd i'r afael â bygythiadau sy'n newid yn gyflym yn gost-effeithiol, rhaid i gemau ryfel a dadansoddi o ran amrywio a datblygu'r lluoedd fod yn rhan o'r dull gweithredu fel mater o drefn.

**17.** Mae Dstl yn bwriadu cynyddu maint ei dîm a sicrhau cyfleusterau gemau rhyfel i ateb y galw hwn, yn ogystal â gweithio gyda diwydiant i ddatblygu gallu ychwanegol. Blociau adeiladu'r gallu hwn yw: pobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad cywir; offer, gan gynnwys modelau ac efelychiadau; seilwaith, ffisegol a TG; a data dibynadwy, cywir, wedi'i guradu i fwydo'r modelau.

**18.** Mae ein gemau rhyfel a dadansoddi, ynghyd â thechnoleg sganio'r gorwel, wedi cefnogi llawer o gasgliadau'r Papur Gorchymyn hwn, sy'n dangos y bydd angen i ni ailflaenoriaethu i greu'r gofod i arloesi i wrthsefyll bygythiadau yn y dyfodol a darparu effeithiau o ran mas; buddsoddi mewn cerbydau a systemau awtonomaidd, ac arfau newydd – fel ynni cyfeiriedig a hypersoneg; cysylltu gorchymyn a rheoli â synwyryddion, fel bod ein grymoedd yn cael eu cysylltu a'u gweithredu fel system lawn gydag ymwybyddiaeth sefyllfaol; sicrhau ein bod yn rhoi'r buddsoddiad angenrheidiol mewn galluogwyr allweddol i sicrhau bod ein lluoedd yn fwy galluog a chynaliadwy a haws eu hymfyddino; a newid y ffordd yr ydym yn gweithredu er mwyn cael y gorau o'r technolegau a'r galluoedd newydd hyn.

## Dysgu o ganologrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg wrth gefnogi Wcráin

**19.** Bydd dadansoddi, gan gynnwys gemau rhyfel, yn parhau i fod yn arf allweddol wrth ddatblygu tactegau a ffyrdd newydd o weithredu. Yn wir, rydyn ni wedi gweld pŵer y modelau gemau rhyfel mwyaf soffistigedig dros y pymtheg mis diwethaf wrth i'r DU, ochr yn ochr â rhoddwyr eraill, chwarae rhan flaenllaw o ran treialu'r gwahanol opsiynau ar gyfer Lluoedd Arfog Wcráin wrth iddyn nhw gynllunio eu gweithrediadau. Bydd angen i'r technolegau a'r dulliau hyn ddod yn rhan fwyfwy annatod o'r ffordd y mae lluoedd arfog y DU yn datblygu dyluniad a gallu ein lluoedd, yn ogystal â'r ffordd rydym yn cynllunio ein gweithrediadau.

**20.** Ymysg llawer o gyfraniadau mwy sensitif, defnyddiodd Dstl ei wybodaeth wyddonol am guddliwio, celu a thechnegau twyllo i ddarparu atebion newydd ac arloesol i wella gallu System Roced Aml-Lansio M270 (MLRS) i oroesi, sef system a roddwyd gan y DU. Gan ddefnyddio ei arbenigedd helaeth o ran deunyddiau, datblygodd Dstl atebion amddiffyn arfog pwrpasol sydd ar gael yn rhwydd ar gyfer prif danciau brwydr Challenger 2, i ddarparu amddiffyniad ychwanegol rhag bygythiadau penodol Rwsia. Ac mae arbenigedd technegol Dstl wedi

galluogi Lluoedd Arfog Wcráin i osod ac integreiddio system amddiffyn awyr pellter byr Starstreak a roddwyd gan y DU ar nifer o gerbydau ymladd arfog Wcráin.

**21.** Nid yw mantais i ennill brwydrau yn cael ei gyflawni drwy alluoedd costus a medrus yn unig. Gellir ei ddarparu hefyd drwy **gyfuno'r dechnoleg wirioneddol uchel yn ddoeth â thechnoleg cost isel**, oddi ar y silff, y dyfeisgar a'r rhad – lle gellir defnyddio'r rhain yn gyflym i ddatrys her weithredol: yr ateb gwerth £100 sy'n trechu'r bygythiad gwerth £100 miliwn. Yn ogystal â manteisio ar y wyddoniaeth a'r dechnoleg fwyaf arloesol, mae Dstl hefyd wedi nodi ffyrdd arloesol iawn o ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau sydd ar gael yn rhwydd yn Wcráin – fel deunydd inswleiddio toeau – y gellir eu cyfuno i gyflawni effeithiau unigryw o ran ennill brwydrau yn erbyn galluoedd Rwsia sydd wedi costio cannoedd o filiynau o bunnoedd i'w datblygu.

**22.** Nid yw hyn yn golygu ychwanegu ychydig o syniadau da ochr yn ochr â'n galluoedd confensiynol na chyflawni Amddiffyn yn rhad. Er mwyn paratoi ar gyfer maes y frwydr yn y dyfodol a chynnal mantais strategol, rhaid i ni groesawu newid technolegol wrth i ni drawsnewid y lluoedd a pheidio â cholli'r cyfle i ddefnyddio'r dechnoleg rad a thechnoleg isel i dwyllo, amharu a hyd yn oed drechu technoleg ein gwrthwynebwyr. **Daw ein mas nid yn unig o'r llongau, y tanciau a'r awyrennau yn ein rhestr stoc ond o'r systemau arloesol rydym yn eu hychwanegu atynt a chyfrwystra y rhai sy'n eu gweithredu.**

## O fod yn Blatfform-ganolog i fod yn Dechnoleg-ganolog

**23.** Felly, rhaid i ni feddwl yn wahanol am y Lluoedd Arfog eu hunain. Er mwyn aros ar flaen y gad, mae angen i ni symud yn bendant oddi wrth ddull gweithredu platfform-ganolog a chanolbwyntio ar yr effeithiau milwrol rydyn ni'n ceisio eu cyflawni. Drwy **ddull gweithredu technoleg-ganolog**, byddwn yn cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ym maes y gad, creu mwy o fas, mwy o gynhyrchiant yn y lluoedd ac, yn bwysicaf oll, llawer mwy o angeuoldeb.

**24.** Yn y meysydd hynny lle mae angen platfformau arnom o hyd, byddwn yn caffael yn gynyddol ar sail **strategaeth dechnoleg glir**, gan sbarduno atebion mwy arloesol sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn blaenoriaethu'r gallu i uwchraddio ac esblygu drwy gydol oes yn hytrach na gweld platfformau a oedd yn hynod integredig ar adeg eu dylunio yn dod yn dechnoleg ddarfodedig, er yn gymharol newydd o safbwynt modurol. Byddwn fel arfer yn cyflawni hyn drwy bensaernïaeth agored, diweddariadau meddalwedd cyflym, a modiwlaredd caledwedd. Ar draws rhaglenni mawr, byddwn yn sicrhau asesiadau dichonoldeb a chyflawni technolegol llawer cadarnach yn ein prosesau craffu a chymeradwyo.

**25.** Wrth i ni ddatblygu lluoedd y dyfodol, ymhlith llawer o dechnolegau eraill, bydd synwyryddion **cwantwm** yn chwyldroi ein galluoedd casglu gwybodaeth; bydd **deunyddiau datblygedig** gyda phriodweddau ffisegol newydd yn agor posibiliadau newydd ar gyfer dylunio ac adeiladu ein systemau; a bydd arfau ynni cyfeiriedig fel **laserau pŵer**

**uchel** yn sail i alluoedd sy'n darparu amddiffyniad rhag bygythiadau newydd fel heidiau drôn. Wrth i dechnoleg ddod yn fwy soffistigedig, mae angen i ni hefyd feddwl am ein pobl; bydd **technolegau cynyddu gallu dynol** yn eu helpu i oresgyn yr amgylchedd a'r gwrthwynebydd. Bydd yr holl alluoedd hyn yn cael eu cyflawni'n ddiogel, yn foesegol ac yn gyfrifol, yn unol â gwerthoedd y gymdeithas rydyn ni'n ei gwasanaethu.

**26.** Bydd **cerbydau awtonomaidd** yn perfformio amrywiaeth o swyddogaethau'n gynyddol, o ailgyflenwi'r filltir olaf a logisteg, i awyrennau heb griwiau yn hedfan fel rhan o system o amgylch ein jetiau ymladd. Bydd dronau bach rhad yn cynyddu ein darpariaeth gwybodaeth ac yn darparu opsiynau newydd ar gyfer cyflawni effeithiau. Bydd **rhwydweithiau a synwyryddion clyfar** yn bwydo meddalwedd cefnogi penderfyniadau soffistigedig, gan alluogi gwneud penderfyniadau'n gyflymach. Bydd meddalwedd – yn enwedig yn ei bŵer i wneud hen dechnoleg yn newydd – yn cadw ein galluoedd ar flaen y gad, gan roi mantais bendant i ni ym maes y frwydr y dyfodol.




Treialon cerbydau awtonomaidd fel rhan o raglen Milwr y Dyfodol y Fyddin

**27.** Byddwn yn edrych tua'r dyfodol, gan fuddsoddi mewn **technolegau newydd** a manteisio arnynt, gan gynnwys drwy Ymchwil a Datblygu uwch, sganio'r gorwel ac archwilio ac ecsbloetio galluoedd 'y genhedlaeth nesaf' yn barhaus. Yn hollbwysig, bydd ein mantais strategol nid yn unig yn deillio o syniadau newydd, ond o ba mor gyflym rydym yn gwthio technoleg drwy ein system – dyfeisio, prototeipio, cyflawni ac ehangu galluoedd newydd. Byddwn yn ystyried ein galluoedd ymchwil a datblygu sylfaenol a'r system ymchwil a datblygu sy'n darparu atebion cyflymach fel gallu Amddiffyn pwysig ynddo'i hun ac yn ei roi wrth galon y fenter Amddiffyn.

## Manteisio'n llawn ar Ddigidol a Data

**28.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Lluoedd Arfog Wcráin wedi dangos effaith arloesol y meddalwedd cudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth a thargedu mwyaf datblygedig a ddefnyddiwyd



Gweinyddion Data yn darparu amgylchedd gwyddor data gweithredol

erioed. Rydym wedi gweld sut mae seilwaith cyfathrebu, digideiddio data, a chynyddu awtomatiaeth ac ymreolaeth yn hanfodol ar gyfer diogelwch data, gweithrediadau gwybodaeth, cyfathrebu, targedu, rhyngweithredu, ac angeuoldeb. Mae'r rhyfel yn Wcráin hefyd wedi ein hatgoffa'n glir o'r angen i **addasu'n gyflym ac arloesi'n gyson** mewn rhyfel, boed hynny drwy greu galluoedd newydd neu addasu rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'r cyfuniad deinamig o alluoedd newydd, rhyng-gysylltiad cynyddol, ac amgylchedd data sy'n ehangu yn galw am **ddull gweithredu digidol wrth wraidd amddiffyn ac ataliaeth.**

**29.** Gan gydnabod bod canolbwyntio ar ddata ac ystwythder digidol yn elfennau cynyddol bwysig o'n ataliaeth, byddwn yn ail-lunio polisi, strwythurau a sgiliau i fanteisio ar fuddion newid digidol cyflym. Mae hyn yn cynrychioli newid sylfaenol mewn meddylfryd, lle nad dim ond 'galluogwyr' yw data a thechnolegau digidol, ond conglfaen ein dull o atal. Bydd galluoedd sy'n cael eu gyrru gan ddata fel dadansoddi, awtomeiddio ac ymreolaeth yn arwain at enillion cynyddol o ran mas, cyflymder a chywirdeb, gyda'u manteision cyfansawdd yn arwain at fwy o angeuoldeb, symudedd a chynaliadwyedd. Maent hefyd yn addo enillion sylweddol o ran cynhyrchiant; bydd offer cynhyrchiol Deallusrwydd Artiffisial yn unig yn galluogi cyflawni tasgau'n gyflymach, o'r mwyaf di-nod, fel drafftio gohebiaeth, i gynhyrchu cod critigol mewn ymgyrchoedd er mwyn diweddaru meddalwedd hanfodol maes y gad.

**30.** Felly, byddwn yn gweld galluoedd digidol fel elfen drawsnewidiol o'r fenter amddiffyn a byddwn yn buddsoddi ynddynt ar unwaith er mwyn dod yn rym gwirioneddol ddigidol gyda'r defnydd o ddata wrth ei wraidd, gan gadw i fyny â'r newid cyflym mewn technoleg. Wrth wneud hynny, byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Chynghreiriaid ar draws NATO i wella ein gallu i ryngweithredu, a gallu cyfunol y Gynghrair. Bydd pŵer data a thechnolegau digidol yn cryfhau ein hataliaeth, ein gwytnwch, a'n ffyniant cenedlaethol. Bydd creu a manteisio ar dechnolegau digidol newydd, uwchsgilio ein pobl, a gweithio fel un fenter gyda diwydiant, yn sail i'n cenhadaeth gyfan: diogelu ein cenedl a'i helpu i ffynnu.

## Gweithredu Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial Amddiffyn

Roedd Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial Amddiffyn (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022) yn tynnu sylw at botensial enfawr deallusrwydd artiffisial i wella gallu, gwella ansawdd penderfyniadau a thempo gweithrediadau, a gwella cyflymder ac effeithlonrwydd prosesau busnes a swyddogaethau cefnogi. Mae datblygiadau diweddar rhyfeddol fel datblygiad cyflym Modelau Iaith Mawr (LLM) yn atgyfnerthu neges allweddol y Strategaeth: mae cynnwrf radical ar droed ac mae cystadleuaeth strategol sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial yn dwysáu; felly, rhaid i'n hymateb fod yn gyflym, yn uchelgeisiol ac yn gynhwysfawr.


Mae datblygiadau sydyn mewn AI cynhyrchiol hefyd wedi dwysáu pryderon am risgiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial. Rydym wedi ymrwymo o hyd i fod yn ddiogel ac yn gyfrifol wrth ddatblygu a defnyddio deallusrwydd artiffisial, ac rydym yn sefydlu'r fframweithiau a'r prosesau sydd eu hangen i sicrhau canlyniadau cyfrifol a moesegol. Rydym hefyd yn ystyried datblygu a defnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel ac yn gyfrifol yn fyd-eang fel blaenoriaeth strategol. Ar y cyd â'r FCDO, felly, byddwn yn parhau i fod yn eiriolwr cryf, rhagweithiol ac yn arweinydd meddwl, gan adeiladu consensws, normau a fframweithiau.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwneud cynnydd da tuag at fod yn sefydliad 'AI Parod'. Mae ein Canolfan Deallusrwydd Artiffisial Amddiffyn (DAIC) yn gwbl weithredol ac yn cynnig y cyfle i fanteisio ar y datblygiadau cyflym mewn technoleg er budd ymgyrchoedd. Rydym hefyd wedi sefydlu Canolfan Deallusrwydd Artiffisial y Fyddin.

Mae gennym set helaeth o brosiectau AI a thrywyddion manteisio sy'n cael eu datblygu. Ond rhaid i ni fynd ymhellach ac yn gyflymach:

- Byddwn yn pennu gweithredu'r Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial fel blaenoriaeth allweddol, gan gydnabod llwyddiant cyffredinol mabwysiadu deallusrwydd artiffisial fel nod strategol ynddo'i hun.
- Byddwn yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer 'Parodrwydd AI' erbyn 2025 ar draws Amddiffyn. Byddwn yn cyflymu'r gwaith o ddarparu galluogwyr hanfodol fel talent a sgiliau, masnachol, digidol a data.
- Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd hanfodol gweithio gyda'r llywodraeth ehangach, diwydiant, y byd academaidd a phartneriaid rhyngwladol. Rydyn ni'n barod i gydweithio'n agos â'r Tasglu Modelau Sylfaen, sydd newydd gael ei gyhoeddi, wrth iddo ddatblygu.

**31.** Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn **cyflymu'r gwaith o gyflawni ei thrawsnewidiad digidol ei hun** – yr hyn rydyn ni'n ei alw'n Asgwrn Cefn Digidol – gan gynnwys drwy fuddsoddi mewn fersiwn cyfrinachol o'r cwmwl. Rydym eisoes wedi cyflawni camau cynnar moderneiddio digidol: gan esblygu systemau cyfathrebu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a phensaernïaeth cwmwl i alluogi dadansoddi a gwneud penderfyniadau arloesol sy'n seiliedig ar ddata ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn. Rydym wedi sefydlu'r Ffowndri Ddigidol, sef grŵp o dimau digidol ym maes Amddiffyn i arloesi ffyrdd newydd o ddefnyddio data, defnyddio deallusrwydd artiffisial, a rhannu ac ehangu syniadau newydd. Rydym hefyd wedi sefydlu'r rhaglen Ecsbloetio Digidol ar gyfer Amddiffyn (DX4D) i ddarparu arweiniad ar gyfer sut rydym yn cyflymu'r defnydd o dechnoleg ddigidol i fod yn fwy effeithiol ar faes y frwydr a maes busnes. Byddwn yn buddsoddi ymhellach mewn uwchraddio ein systemau a datblygu offer er mwyn i ni allu



**gwneud y defnydd gorau o'n data** i gefnogi ein penderfyniadau. Rydyn ni'n gwybod nad yw'n ddewisol mwyach: **mae data hygyrch o ansawdd uchel yn elfen hanfodol o'n pŵer ymladd.**

## Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd

**32.** Mae'r **newid yn yr hinsawdd** eisoes yn effeithio ar amddiffyn. Rhaid inni wynebu realiti gweithredu mewn hinsawdd fwy garw ac addasu yn unol â hynny, gan wella ein galluoedd a'n mantais weithredol. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd wedi ymrwymo i chwarae ei rhan i gyflawni uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer mwy o gynaliadwyedd a chydnerthedd, gan gynnwys targedau ar gyfer Sero Net. Nid yw'r ddau amcan hyn – sy'n cyfrannu at gyflawni Sero Net a bod yn fwy effeithiol – yn annibynnol ar ei gilydd, fel y nodwyd yn Strategaeth Cymorth Cynaliadwy ddiweddar y Weinyddiaeth Amddiffyn. Byddwn yn symud o fodel o gynnal o fewn cyrraedd, i fodel sydd wedi'i gynllunio ar gyfer bod yn hunan-gynhaliol. Drwy wneud hyn, bydd technolegau amgylcheddol yn rhoi'r modd i ni chwyldroi'r ffordd rydyn ni'n gweithredu ac yn brwydro.

**33.** Dim ond dechrau'r symudiad tuag at feddylfryd cynaliadwy yw hyn. Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar sut rydym yn gweithredu, gyda phwy rydym yn gweithredu, a sut mae Amddiffyn yn gweithredu. Rydym wedi dechrau dangos sut gall Amddiffyn harneisio arloesedd i gyflawni'r uchelgais hwn.  Mae'r RAF yn arwain y ffordd gyda'r **Tanwydd Hedfan Cynaliadwy** (SAF) cyntaf : mewn hediad arbrofol arloesol ym mis Tachwedd 2022, roedd Voyager yn hedfan ar SAF 100%; ac mewn arbrawf arall a oedd y cyntaf o'i fath yn fyd-eang, llwyddodd y RAF i ail-gyflenwi tanwydd Typhoon yn yr awyr drwy ddefnyddio cyfuniad o SAF a thanwydd traddodiadol. Mae'r Fyddin wedi cychwyn **rhaglen fferm solar** ar raddfa fawr i leihau ei hallyriadau, creu arbedion effeithlonrwydd a sicrhau cadernid ynni yn y dyfodol. Mae **systemau catalytig** arloesol y Llynges Frenhinol hefyd yn lleihau allyriadau ocsid nitraidd o'n llongau patrôl morol newydd. Ar ben hynny, mae'r adeiladau ar yr ystâd amddiffyn yn cael eu dylunio i fod yn fwy hyblyg, effeithlon a chydnerth i sicrhau ein bod yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac yn lliniaru ei effaith.


**Pennod 3:**

# Ein Perthynas â Diwydiant

**1.** Mae tair gwers allweddol wedi'u hatgyfnerthu gan y rhyfel yn Wcráin y mae'n rhaid i ni eu defnyddio ar frys yn y ffordd rydyn ni'n darparu gallu i'n Lluoedd Arfog. Yn gyntaf, ac yn bwysicaf oll, mae cyflymder yr arloesi ar draws maes y frwydr yn cyflymu ac ni ellir ei gyflawni'n gredadwy drwy raglenni caffael confensiynol – sy'n aml yn para am ddegawdau – ac uwchraddio llwyfannau. Fel rheol, rhaid i ni brynu llwyfannau symlach yn gyflymach a'u dylunio ynddynt y capasiti i uwchraddio'n gyflym – ac nid dim ond gyda'r prif gontractwr gwreiddiol. Yn ail, rhaid inni weithio mewn partneriaeth â diwydiant, gan archwilio gyda'n gilydd ddatblygiadau mewn technoleg a'r hyn y maent yn ei olygu i allu amddiffyn y DU, bod yn barod i rannu risg a chydnabod pwysigrwydd ein sylfaen ddiwydiannol amddiffyn yn ein diogelwch cenedlaethol. Yn drydydd, mae amser yn bwysig. Bydd bron yn sicr y bydd yn cymryd gormod o amser i aros am 100%. Rhaid i ni orfodi ein hunain i dderbyn atebion sy'n 'ddigon da' a all fod yn nwylo staff ein gwasanaeth o fewn yr amserlen sydd ei hangen i gynnal ein mantais dros ein gwrthwynebwyr a'n cystadleuwyr.

**2.** Mae integreiddio rhwng y Llywodraeth a diwydiant yn hanfodol i gynnal y grym ymladd, datblygu a manteisio ar dechnolegau newydd, a chynhyrchu'r offer sydd ei angen ar gyflymdra perthnasedd. Bydd ymdrech gyffredin sy'n rhoi diwydiant wrth galon y Fenter Amddiffyn – gan gydnabod ein sylfaen ddiwydiannol fel elfen hanfodol o'n diogelwch cenedlaethol – yn helpu i gynnal ein mantais strategol: bydd yn sail i bennu gofynion yn gliriach, cadwyni cyflenwi mwy gwydn, datblygu a lleoli galluoedd newydd yn gyflymach, a dull mwy gweithredol o allforio (fel y nodir yn fanylach ym Mhennod 6). Bydd Menter Amddiffyn effeithiol – sy'n cynnwys y Llywodraeth a diwydiant – ac economi genedlaethol gref yn atgyfnerthu ei gilydd.

**3.** Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ers cyhoeddi'r **Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch (DSIS)** ochr yn ochr â'r DCP yn 2021: er enghraifft, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi ei llif gwaith yn y dyfodol drwy'r Cynllun Offer, y Fframwaith Galluoedd Amddiffyn, Llwybrau Caffael, a strategaethau sector fel y Strategaeth Ddiwydiannol Tir a'r Strategaeth Gofod Amddiffyn. Rhaid inni yn awr gyflawni'r gwaith o weithredu'r strategaethau hyn.



Ffrigad Math 26 HMS Glasgow yn cael ei rholio ar long yn iard longau Govan

**4.** Mae'r cynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ran adeiladu llongau'n genedlaethol yn enghraifft wych o addasu ein dull gweithredu'n llwyddiannus. Roedd y **Strategaeth Adeiladu Llongau Cenedlaethol a ddiweddarwyd** yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth a'r diwydiant ar gyfer menter adeiladu llongau lwyddiannus, arloesol a chynaliadwy yn y DU. Fel un o brif gwsmeriaid menter adeiladu llongau'r DU, mae gan Amddiffyn rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi'r Ysgrifennydd Amddiffyn, yn ei rôl fel Tsar Adeiladu Llongau, i gyflawni'r weledigaeth hon. Mae'r Swyddfa Adeiladu Llongau Genedlaethol am weld twf cynaliadwy yn sector adeiladu llongau'r DU, wedi'i adeiladu ar gymysgedd o archebion y Llywodraeth, archebion masnachol ac allforio. Yn y Strategaeth Adeiladu Llongau genedlaethol a ddiweddarwyd, gwnaethom ymrwymo i gynnal piblinell barhaus ar gyfer adeiladu llongau. Bydd hyn yn darparu llinell sylfaen o sefydlogrwydd ar gyfer diwydiant adeiladu llongau morol y DU, sy'n parhau i fod yn ased strategol ar gyfer sicrhau annibyniaeth weithredol y Llynges Frenhinol.

**5.** Fodd bynnag, mae angen i ni drawsnewid ein perthynas â diwydiant ymhellach – **gan greu cynghrair newydd** – i greu amgylchedd sy'n creu ymdeimlad cyffredin o **ymdrech genedlaethol**. Mae diwydiant yn rhan o Fenter y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac mae'n rhaid iddo deimlo felly. Rhaid i hyn hefyd fod yn weladwy: bydd cydweithrediad clos gyda sylfaen ddiwydiannol gadarn yn **sail i'n hygrededd fel grym ymladd, yn dangos ein dibynadwyedd fel cynghreiriaid, ac yn atal ein gwrthwynebwyr.** Bydd sylfaen ddiwydiannol fywiog sy'n gweithio'n agosach



Treialon system dronau, a grëwyd gan gwmni newydd yn y DU a noddir gan y Llu Awyr Brenhinol

gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd yn cynyddu **gwydnwch cenedlaethol** y DU a'i gallu i ymdopi â siociau strategol. Ni fydd ein perthynas â diwydiant gyda'r prif gontractwyr traddodiadol yn unig: byddwn hefyd yn agored ac yn groesawgar i **fusnesau bach a chanolig** a'r rheini y tu allan i'r sector Amddiffyn gydweithio'n well â'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Amddiffyn a Diwydiant: 'Cynghrair Newydd'

**6.** Byddwn yn **ymgysylltu'n llawer cynharach mewn sgyrsiau strategol** â diwydiant. Byddwn yn symud y tu hwnt i'r berthynas draddodiadol rhwng y cwsmer a'r cyflenwr, gan ddatblygu **aliniad strategol hirdymor** sydd nid yn unig yn darparu'r galluoedd sydd eu hangen arnom nawr, ond sy'n clymu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a diwydiant mewn **ymdrech ar y cyd** sy'n gallu cynnal y genedl mewn cyfnod o wrthdaro. Bydd hyn yn gofyn am ymdrech ar y cyd sy'n cyfuno arbenigedd y fenter Amddiffyn gyfan: milwrol, sifil a diwydiannol. Bydd y gynghrair newydd hon yn gofyn i uwch arweinwyr Amddiffyn gymryd yr amser i ddatblygu perthnasoedd parhaus â swyddogion gweithredol allweddol yn y diwydiant, gan rannu mewnwelediadau a gwybodaeth yn fwriadol ac yn rheolaidd. Byddwn yn mabwysiadu dull cynhwysol a thryloyw sy'n goresgyn sensitifrwydd masnachol wrth weithio gyda'r sector diwydiannol Amddiffyn a diwydiannau masnachol perthnasol. Byddwn yn glir ynghylch ein rhagdybiaethau cynllunio a'n gofynion sy'n esblygu. A thrwy'r dull cydweithredol hwn, byddwn yn rhannu risg yn dryloyw, gan ganolbwyntio'n glir ar ganlyniadau strategol.

**7.** Bydd cynghrair sy'n seiliedig ar dryloywder ac ymddiriedaeth yn golygu y gallwn, gyda'n gilydd, ddeall heriau strategol hirdymor yn well a chanfod atebion i faterion fel argaeledd **sgiliau critigol, arallgyfeirio a gwytnwch yn y gadwyn gyflenwi, a chynhyrchiant.**

**8.** Byddwn yn cynnwys y diwydiant ar bob lefel yn gynharach yn y prosesau datblygu gallu milwrol.  Byddwn yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â lefelau cyfrinachedd diogelwch fel y gall partneriaid diwydiannol ddeall yn well y bygythiadau rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw a'r problemau rydym yn ceisio eu datrys. Byddwn yn parhau i **wella gwelededd** cynlluniau hirdymor y Weinyddiaeth Amddiffyn i lywio cynlluniau a buddsoddiad y diwydiant yn y dyfodol.  Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gennym amgylchedd technegol cydweithredol, sy'n gweithredu ar lefelau cyfrinachol o ran dosbarthiad, i rannu gwybodaeth â'r diwydiant mewn ffordd llawer mwy deinamig.

**9.** Byddwn yn agored i harneisio'r syniadau gorau, o ble bynnag y maent yn dod. Nid yw cyflenwyr strategol yn cael eu mesur yn ôl eu maint.  Byddwn yn nodi'r is-gontractwyr a'r **busnesau bach a chanolig** sydd o bwysigrwydd strategol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn – gan gynnwys y rheini sydd wedi'u lleoli dramor – ac yn eu trin felly.  Drwy gynnwys y diwydiant yn systematig, gan gynnwys drwy'r Fforwm Cyflenwyr Amddiffyn, byddwn yn ei gwneud yn haws i gwmnïau yn y DU gael gafael mynediad at Amddiffyn yn gynharach, ac wrth wneud hynny byddwn yn ehangu sylfaen busnesau technoleg a busnesau bach a chanolig sy'n gweithio gydag Amddiffyn. Rydym yn cydnabod cryfder busnesau bach a chanolig o ran

arloesedd a chreadigrwydd sy'n tarfu: felly byddwn yn lansio rhaglen datblygu cyflenwyr newydd sy'n cydnabod pwysigrwydd busnesau bach a chanolig yn fwy cyffredinol ac sy'n galluogi mwy ohonynt i gymryd rhan ym mhrosiectau'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

**10.** Byddwn yn gweithio gyda diwydiant a'r Ddinas i sicrhau bod **marchnadoedd cyllido'n** deall yn well yr angen hollbwysig i'n cyflenwyr o safon fyd-eang yn y DU gael mynediad at refeniw trydydd parti a gwasanaethau ariannol fel nad yw cyflenwyr amddiffyn dan anfantais. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn sylfaen o ddewis i gyflenwyr arloesol a dibynadwy.

**11.** Byddwn hefyd yn **gweithio'n agosach gyda'r gymuned ecwiti preifat a chyfalaf menter**, gan adeiladu ar ein cysylltiadau presennol drwy'r Gronfa Buddsoddi Strategol Diogelwch Gwladol (NSSIF) a Chronfa Arloesi NATO (NIF) i ddenu buddsoddiad preifat a datblygu cwmnïau diogelwch ac amddiffyn cenedlaethol newydd.  Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Thrysorlys EF i nodi safbwynt y Llywodraeth nad oes gwrthdaro cynhenid rhwng egwyddorion ariannol ESG (yr amgylchedd, cymdeithasol a llywodraethu) a buddsoddi mewn cwmnïau amddiffyn a diogelwch. Mae'r Llywodraeth yn glir bod buddsoddiad preifat yn niwydiant amddiffyn y DU yn hanfodol i'n diogelwch gwladol a gall hefyd arwain at fanteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Gallai camgymhwyso egwyddorion ESG beryglu'r buddsoddiad preifat pwysig hwnnw.

## Datblygiad sbiral

**12.** Mae cynyddu cyflymder arloesi ar draws maes y frwydr yn ymwneud â mwy na systemau a phrosesau yn unig; mae hefyd yn ymwneud â **meddylfryd**. Mae rhan o hyn yn ymwneud â thanlinellu'r ffaith nad yw gallu byth yn cael ei "gwblhau"; rhaid iddo **addasu'n gyson i'r amgylchedd sy'n newid** lle'r ydym yn gweithredu. Yn hytrach na diffinio'r union strwythur grym rydym ei eisiau, neu'r union alluoedd sydd eu hangen arnom, mae angen i ni **feithrin ein gallu i addasu'n gyflym.** Bydd ein hymateb i newidiadau mewn technoleg a bygythiadau yn pennu a ydym yn cynnal mantais strategol: felly mae'n rhaid i ni ymgorffori adborth gan ddefnyddwyr yn gyflym a manteisio ar dechnoleg sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol. Mae angen i ni **adeiladu ar y gallu presennol, gan gynyddu ei effaith yn raddol.**

**13.** Byddwn yn diwygio ein patrwm caffael o un sy'n canolbwyntio ar bennu union ofynion i un sy'n cydnabod pwysigrwydd datblygu iteraidd. I gyflawni hyn, byddwn yn cynnwys mwy o hyblygrwydd yn ein prosesau ar gyfer blaenoriaethu a dyrannu adnoddau. Mae hyn yn golygu **creu'r gofod ariannol** i ymateb i anghenion sy'n newid, gan ein galluogi i **ddatblygu ein galluoedd yn iteraidd– yn 'sbiral'.**  Byddwn yn gynyddol yn datgan costau nenfwd i'r diwydiant ar gyfer galluoedd newydd – gan sicrhau bod arian ar gael i gynyddu allbynnau amddiffyn heddiw, a bod capasiti'n cael ei gadw yn ein cyllidebau i ddatblygu a manteisio'n raddol ar atebion arloesol newydd.

**14.** Byddwn hefyd yn adeiladu ar ein profiadau cadarnhaol o gaffael Math 31 a Boxer drwy geisio caffael llwyfannau craidd

sy'n fodiwlaidd eu dyluniad, gan wneud datblygu ac addasu sbiral yn symlach ac yn gyflymach. Byddwn yn gweithio gyda'n cynghreiriaid a'n sylfaen ddiwydiannol i sicrhau nad ydym yn cael ein cloi mewn systemau caeedig – yn enwedig osgoi cloi gwerthwyr – sy'n gweithredu fel rhwystr i fewnosod galluoedd a swyddogaethau newydd yn sbiral: rhaid i ni sicrhau ein bod yn gallu diweddaru ein galluoedd yn unol â chyflymder yr amgylchedd bygythiadau. Bydd ein dulliau contractio hefyd yn addasu i gefnogi'r ffordd hon o weithio.

## Cadwyni Cyflenwi Cadarn a Chydnerth

**15.** Mae gennym raglen wedi'i hariannu ar waith i ailgyflenwi ac ychwanegu at ein cyflenwadau o arfau, darnau sbâr a chyflenwadau gweithredol. Ond yn ogystal â chynyddu'r stociau presennol, rhaid i ni gael ffordd sicr o ailgyflenwi'n gyflym pan fo angen ar adegau o wrthdaro, gan gynyddu gweithgarwch i ddiwallu'r galw gweithredol. Mae angen i'n cadwyni cyflenwi fod yn wydn yn wyneb tarfu, er mwyn sicrhau bod gan y DU fynediad sicr at ddeunyddiau allweddol, cydrannau a thechnoleg hanfodol.  Byddwn yn ehangu ac yn manteisio ar ymarferoldeb ein hadnoddau Cadernid Cadwyn Gyflenwi i ddeall lle mae'r diffygion yn ein cadwyni cyflenwi, ac yn rhoi cyfeiriad cliriach i'r diwydiant.

**16.** Gyda'r diwydiant, byddwn yn dechrau **asesiad gonest o allu, capasiti a chynaliadwyedd diwydiannol.** O fewn Amddiffyn, byddwn yn glir ynghylch ein **gofynion sofran** – yn enwedig ar gyfer arfau, arfau cymhleth, a systemau heb griwiau – drwy ymrwymiadau aml-flwyddyn os yw'n bosibl, er mwyn helpu i ddarparu arwydd o alw mwy rhagweladwy i'r diwydiant. Ar y cam cynharaf posibl yng nghylch bywyd y prosiect, byddwn yn helpu i nodi lle mae gofynion tebyg mewn marchnadoedd sifil ac allforio.

**17.** Byddwn yn edrych ar ffyrdd o gymell diwydiant i **gynyddu cynhyrchiant drwy fuddsoddi mewn digideiddio, awtomeiddio a sgiliau.** Yn benodol, byddwn yn gweithio gyda diwydiant i harneisio'r fantais o ddigideiddio pob rhan o'r system gaffael, gan gynnwys caffael, dylunio, profi a gwerthuso, gweithgynhyrchu a chymorth mewn gwasanaeth. Ar adegau, bydd angen cynhyrchu mas, pan fydd capasiti gweithgynhyrchu'r diwydiant a chymorth mewn gwasanaeth yn arbennig o bwysig. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn rhaglennu ar gyfer datblygu gallu parhaus a dull piblinell o gaffael sy'n cynnal llinellau cynhyrchu am gyfnod hirach, ac yn osgoi colli sgiliau.

**18.** Bydd achosion hefyd lle mae gennym ofyniad diogelwch cenedlaethol hanfodol i rai galluoedd diwydiannol fod ar gael '**ar y tir**' yn y DU. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal, o bosibl drwy gyfuniad o archebion y Weinyddiaeth Amddiffyn, allforion a galw sifil. Bydd hyn hefyd yn gwella cydnerthedd domestig. Fodd bynnag, mae llawer o gadwyni cyflenwi amddiffyn yn fyd-eang eu natur, ac felly byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid rhyngwladol agosaf (NATO, EU, Five Eyes a'r G7) i wella cydnerthedd cyfunol ein cadwyni cyflenwi, gan gynnwys drwy ddefnyddio **cadwyni cyfeillion a chynghreiriaid**. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Sylfaen Ddiwydiannol Technoleg Genedlaethol i greu cyfleoedd i ddiwydiant y DU weithio'n fwy

effeithiol gyda chanolfannau diwydiannol ar draws ein partneriaid Five Eyes.

**19.** Yn ehangach, bydd angen i ni **weithio'n agosach byth gyda phartneriaid rhyngwladol** i gynyddu capasiti byd-eang cynaliadwy a chyflymder caffael: cydlynu ein gofynion o ran diwydiant; gwella safoni, rhyngweithredu a rhyng-gyfnewid; blaenoriaethu pensaernïaeth agored, cysoni gofynion technegol ac archwilio cydnabyddiaeth gilyddol o achredu; a mynd i'r afael â rhwystrau eraill i gydweithrediad diwydiannol rhyngwladol. Ar ôl arwain y ffordd o ran creu'r fenter, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cynhyrchu Amddiffyn (DPAP) NATO, a fydd yn gwella safoni Cynghreiriol a'r gallu i ryngweithredu mewn arfau allweddol, ac yn lleihau'r rhwystrau i gydweithio diwydiannol rhwng Cynghreiriaid. Byddwn hefyd yn ceisio cytundebau rhyngwladol i gynnal amgylcheddau cydweithredol yn y cwmwl sy'n galluogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i weithio'n fwy di-dor gyda diwydiant y DU, llywodraethau partner, a diwydiannau mewn gwledydd eraill, ar lefelau diogelwch uwch.

**20.** Roedd ein profiad o COVID yn dangos cryfder cael sylfaen ddiwydiannol addasadwy – gyda ffatrïoedd yn gallu symud llinellau cynhyrchu i fodloni gofynion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. O ystyried yr amgylchedd diogelwch sy'n esblygu, byddwn nawr yn edrych ar opsiynau sy'n cymell partneriaid diwydiannol i **flaenoriaethu anghenion diogelwch cenedlaethol** (amddiffyn, ynni, diogelwch cartref a pharodrwydd ar gyfer argyfwng) cyn ceisiadau masnachol yn eu cynlluniau cynhyrchu. Byddai hyblygrwydd o'r fath yn gwneud gwahaniaeth sylweddol mewn cyfnod o argyfwng cenedlaethol.

## Diwygio Caffael

**21.** Er mwyn trechu'r bygythiadau a wynebwn heddiw, ac a all fod yn ein hwynebu yn y dyfodol, mae angen inni ddiwygio'n radical ein hagwedd at gaffael, mewn ffordd sy'n ategu ein cynghrair newydd â'r diwydiant. Mae profiad Wcráin wedi ein hatgoffa bod derbyn 80% yn gallu darparu gallu effeithiol a chadarn i ddwylo'r defnyddwyr heddiw. Gall aros am 100% – yr ateb perffaith – olygu colli mantais strategol. Rhaid i ni felly sbarduno mwy o **gyflymder ac ystwythder** o ran sut rydym yn caffael gallu milwrol ar gyfer y rheng flaen, gan gynnwys drwy **flaenoriaethu cyflawni amserol yn hytrach na pherffeithrwydd.** Rydym wedi dangos drwy ein cefnogaeth i Wcráin y gallwn gaffael a chyflawni galluoedd ar gyflymder anhygoel pan fydd cyllid ac archwaeth risg yn cyd-fynd ag amcanion uwch arweinwyr amddiffyn, diwydiant a gwleidyddol. Er mwyn sicrhau mantais strategol, rhaid i ni ehangu'r model hwn yn fwy ymosodol er mwyn diwallu anghenion Amddiffyn.

**22.** Er bod yn rhaid i'n system gaffael sicrhau bod y gallu'n cael ei ddarparu'n gyson o fewn paramedrau y cytunwyd arnynt – o ran amser, cost a pherfformiad – byddwn yn rhoi **gwerth cynyddol ar amser**: mae ysgogi cyflymder yn hollbwysig – hyd yn oed os yw'n ein gorfodi i gynyddu ein goddefgarwch o ran risg mewn mannau eraill. Ein huchelgais yw lleihau'r amser cyfartalog yn sylweddol o nodi angen milwrol i gontractio, ac o gontractio i ddarparu i'r rheng flaen. Mae hyn wedi cael ei wireddu'n ddiweddar wrth i'r Fyddin gaffael Llwyfan Tanio Symudol Archer Ar ben hynny, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn defnyddio technolegau a dulliau caffael newydd i



Treialon cerbyd arwyneb awtonomaidd fel rhan o NavyX mewn amodau garw yn yr Arctig

addasu'n gyflym, gyda nifer o brosiectau'r Llynges Frenhinol – ASW Spearhead, NavyX, Fleet Solid Support a Maritime Offensive Surface Strike – yn cael cydnabyddiaeth yn y Gwobrau Caffael a Chyflawni Prosiectau Amddiffyn diweddar am ddarparu rhaglenni cymhleth.

**23.** Rydym yn bwriadu mynd ymhellach, a **gosod uchafswm o bum mlynedd o ymrwymiad ar gyfer rhaglenni caffael, gydag uchafswm o dair blynedd o ymrwymiad ar gyfer rhaglenni digidol.** Gan fod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn caffael amrywiaeth eang o offer, nwyddau a gwasanaethau, byddwn yn teilwra ein dull gweithredu i adlewyrchu risg a chymhlethdod pob rhaglen, gan sicrhau ein bod yn **gymesur o ran y dull** rydym yn ei ddefnyddio. Er enghraifft, rydym yn cydnabod y bydd rhai o'n rhaglenni mwy eithriadol – y rhai ar Bortffolio Prosiectau Mawr y Llywodraeth – yn cymryd mwy o amser o reidrwydd.  Ond hyd yn oed gyda'r rhain, byddwn yn herio timau i nodi dulliau a allai gynhyrchu gallu y gellir ei ddefnyddio'n gyflymach.

**24.** Byddwn yn **pennu ein rhaglenni caffael ar gyfer llwyddiant** drwy gynnal gwaith cynllunio pen blaen trylwyr i sicrhau bod cysondeb strategol ymysg yr holl randdeiliaid o ran canlyniadau ac archwaeth risg. Bydd ymgysylltu cynnar ag arbenigwyr pwnc, gan gynnwys diwydiant, yn sicrhau bod yr ystod lawn o opsiynau'n cael eu hystyried, yn seiliedig ar yr hyn y gall y farchnad ei ddarparu am y cyllid sydd ar gael. Lle bo'n briodol, byddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer allforion a thwf cenedlaethol. Yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, byddwn yn **atgyfnerthu rôl arbenigwyr technegol**, gan gynnwys o ran amcangyfrif costau a gwyddoniaeth a thechnoleg, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y trafodaethau cynnar hyn a chryfhau agweddau allweddol ar sicrwydd i nodi materion yn gynnar.

**25.** Yn yr ymgysylltu cynnar hwn, byddwn yn glir ynghylch ein gofynion penodol, yn enwedig o ran integreiddio, gan adael lle i'r farchnad ddarparu atebion arloesol.  Ar gyfer amrywiaeth o alluoedd, fel systemau awyr heb griwiau (UAS) a gwrth-UAS, bydd y

Weinyddiaeth Amddiffyn yn diffinio (ac yn berchen ar) yr amgylchedd gweithredu, fel y dyluniad pensaernïol a safoni data; mewn gwirionedd, datgan '**Nodau barcud Amddiffyn**' ym mhob achos. Bydd hyn yn galluogi'r diwydiant i ymgorffori atebion meddalwedd gydag ystwythder a sicrhau integreiddiad, gan addasu'n fwy effeithlon i ddatrys bygythiad sy'n esblygu'n gyflym. Bydd yr **Awdurdod Dylunio Integreiddio** newydd yn gweithio gyda chynghreiriaid ac ar draws y sector diwydiant amddiffyn i greu safonau agored ar gyfer ein systemau a'n protocolau gweithredu, fel rydym eisoes wedi dangos gyda phensaernïaeth Land CEMA a phensaernïaeth Pyramid Open Avionics. Bydd Offer Amddiffyn a Chymorth a Gorchymyn Strategol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod contractau'r diwydiant yn cyflawni yn erbyn y safonau hyn a bod integreiddio i'r 'system systemau' amddiffyn yn cael ei ddangos cyn cwblhau'r gwaith o'i gyflwyno i'r gwasanaeth.

**26.** Byddwn yn **gwella proffesiynoldeb cyflwyno**. Rhaid i'n rhaglenni mawr gael eu harwain gan unigolion sydd â'r wybodaeth a'r profiad helaeth sydd eu hangen i gyflawni rhai o'r prosiectau mwyaf cymhleth ar draws y llywodraeth. I gyflawni hyn, byddwn yn adeiladu **cnewyllyn o SRO** a Chyfarwyddwyr Rhaglenni sydd â chymwysterau proffesiynol, ac yn mandadu achrediad yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau. Byddwn yn cymell SRO a swyddogion allweddol i aros yn eu swyddi ar draws rhaglenni, gyda SRO amser llawn ar brosiectau mawr.

**27.** Byddwn yn defnyddio dull thematig o ddatblygu gallu, gan symud i ffwrdd o'r bensaernïaeth parth-ganolog sy'n amlwg ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ein gorfodi i integreiddio gallu drwy ddylunio, ar draws parthau, i ymateb i ehangder llawn bygythiad cynyddol soffistigedig. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu'r dull gweithredu mwy thematig hwn.

# Pennod 4:

# Cynhyrchiant: Creu Adran sy'n Ymgyrchu

**1.** Mae'r angen i gystadlu'n effeithiol mewn byd mwy dadleuol yn golygu bod yn rhaid i Amddiffyn ddarparu mwy, yn gyflymach. Gan fod cyllidebau'n gyfyngedig, dim ond drwy sbarduno cynhyrchiant yn ffyrnig ar draws y Fenter Amddiffyn y gellir gwneud hynny – ledled y byd a gartref. Er mwyn bod yn wirioneddol gystadleuol a chyflawni hyd yn oed yn fwy effeithiol, rhaid i'r Adran fod yn **seiliedig ar strategaeth, yn seiliedig ar fygythiadau, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn gallu defnyddio data**. Byddwn yn defnyddio technegau arfer gorau i ddarparu sefydliad **sydd wedi ei alinio, yn canolbwyntio ar genhadaeth, yn fwy darbodus ac yn fwy cynhyrchiol**. Rydym eisoes wedi gwneud newidiadau sylweddol, gan gynnwys y ffordd y mae ein Prif Swyddfa'n gweithredu, ac rydym wedi dechrau defnyddio prosesau i **optimeiddio'r Model Gweithredu Amddiffyn**.

## Cynyddu Cynhyrchiant

**2.** Yn ddiweddar, lansiodd y Llywodraeth adolygiad o gynhyrchiant y sector cyhoeddus er mwyn sbarduno mwy o allbynnau ac atal costau ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan amddiffyn ran hanfodol i'w chwarae yn yr ymgyrch hon i wella cynhyrchiant, nid yn unig o fewn y Llywodraeth ond hefyd ar draws y wlad, a bydd yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r rhaglen waith honno. Rydym eisoes yn diwygio'r ffordd rydym yn gweithio **i gael gwared ar haenau sefydliadol a biwrocrataidd** nad ydynt yn addas i'r diben mwyach a byddwn yn anelu tuag at greu Adran fwy cynhyrchiol. Bydd y newid yn ein dull gweithredu yn sicrhau ein bod yn cynhyrchu mwy o enillion o'r galluoedd pwysig rydym wedi buddsoddi ynddynt er mwyn i ni ddiogelu'r genedl yn well a'i helpu i ffynnu.

**3.** **Mae ataliaeth effeithiol yn osgoi gwrthdaro costus** a'r costau dynol ac economaidd a ddaw yn eu sgil. **Mae cynyddu cynhyrchiant ym maes Amddiffyn yn ymwneud â chael mwy o'n hasedau** – boed yn bobl neu'n offer – gan wella ein gallu i atal ein gwrthwynebwyr a chryfhau ein partneriaethau. Mae rhoi mwy o longau ar y môr, awyrennau yn yr awyr a phobl ledled y byd i weithredu mewn ardaloedd dadleuol yn gosod costau ar ysgwyddau ein gwrthwynebwyr, ac yn y pen draw – ac yn hollbwysig – yn lleihau costau i ni ein hunain.

**4.** Mae cynhyrchiant hefyd yn ymwneud â **lleihau'r amser pan nad yw'r asedau hynny ar gael**, drwy well cymorth offer, drwy fanteisio ar ddata, a hynny wedi'i atgyfnerthu gan ein cynghrair newydd â diwydiant. Bydd hyn yn atal costau rhag codi ac yn osgoi cyfnodau estynedig, heb eu cynllunio, o ddiffyg argaeledd.

## Bod mewn mwy o lefydd ar unwaith

**5.** Mae osgoi risg – un o ganlyniadau cyfnod o heddwch a sefydlogrwydd cymharol – yn ein gwneud yn llai ystwyth ac yn llai cystadleuol nag y mae angen i ni fod. Mewn rhai meysydd, mae ofn methiant, cyfreitha neu embaras wedi

creu diwylliant sy’n dwysáu risg weithredol, yn arafu cyflymder y ddarpariaeth ac yn erydu ein mantais strategol. Rhaid i ni reoli ein risg yn rhagweithiol, yn hytrach na chaniatáu i’n gweithgarwch gael ei gyfyngu gan reoliadau a chanllawiau presennol. Ar draws ein gwaith o ddatblygu ein gallu a’n gweithrediadau, byddwn yn mabwysiadu **dull llawer mwy soffistigedig o reoli risg**, gan sicrhau ein bod yn taro **cydbwysedd synhwyrol rhwng mesurau lliniaru priodol a manteisio ar gyfleoedd.** Byddwn yn edrych i bob cwr o’r sefydliad i’n gwneud yn fwy cystadleuol a goresgyn syrthni sefydliadol.

**6.** Rydym yn cydnabod y bydd ein pobl yn gweithredu fwyfwy mewn timau bach ledled y byd, gan wynebu lefelau amrywiol o fygythiad. Yn y pen uchaf, byddwn yn parhau i ddarparu adnoddau i’r timau hynny gyda’r gallu milwrol llawn sydd ei angen yn eu hamgylchedd gweithredu, a byddwn yn buddsoddi yn y galluogwyr hynny, er mwyn ein galluogi i gynnal llawer mwy o bwyntiau presenoldeb cydamserol, hyd yn oed mewn amgylcheddau o fygythiad uchel. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod, wrth weithio gyda phartneriaid yn fyd-eang, y byddwn yn aml mewn amgylcheddau o dan fygythiad is, lle gallwn, ac y byddwn, yn **grymuso ein pobl i allu byw a gweithredu ochr yn ochr â’r lluoedd partner, a chael ein galluogi ganddynt**.

## Mwy parod, mwy angheuol, mwy integredig

**7.** Mae cynhyrchiant gweithredol y lluoedd – **sicrhau lefelau uwch o angeuoldeb a pharodrwydd** – yn hanfodol o ystyried y bygythiadau rydym yn eu hwynebu. Yn ogystal â manteisio ar dechnoleg newydd i’r perwyl hwn, rydym wedi sefydlu rhaglen bwrpasol i **gynyddu ein cynhyrchiant gweithredol** ar draws y fenter, gan ganolbwyntio ar gynyddu parodrwydd ein hasedau. Mae amddiffyn eisoes mewn lle da, gyda mynediad at rai o’r galluoedd milwrol gorau sy’n bodoli. Fodd bynnag, mae ein hastudiaethau wedi dangos y gallwn gael mwy ohonynt drwy ailgydbwyso buddsoddiad yn eu hargaeledd a’u cynhaliaeth. Yn y don gyntaf o brosiectau, rydym yn canolbwyntio ar gynyddu’r elw ar ein buddsoddiad yn y ffrigad Math 31 newydd, ein hawyrennau Typhoon a’n tanciau Challenger 2 – yn ogystal â sefydlu ein hunain i roi Challenger 3 ar waith.



Bydd Amddiffynnydd y Genhedlaeth Nesaf RG Mk 1 UAV yn cynnig mwy o hyblygrwydd, ystod hwy a chysylltiadau data gwell

**8.** Byddwn yn edrych ar ffyrdd arloesol o gynyddu ein gallu i gynhyrchu'r elfennau grym sydd eu hangen i gyflawni effeithiau strategol ledled y byd, ar yr adeg iawn, gyda'r dwyster iawn ac am gyhyd ag y bo angen: byddwn yn cael gwared ar rwystrau i barodrwydd ac yn gwneud newidiadau trawsbynciol sy'n targedu biwrocratiaeth ac aneffeithlonrwydd i gynyddu argaeledd, gallu a chynhaliaeth. Byddwn yn meithrin **amgylchedd sy'n rhoi ffocws di-baid ar gyflawni effaith yn y byd go iawn**, gan rannu enghreifftiau o arferion da ar bob lefel. Byddwn yn rhoi'r cyfrifoldeb penodol i uwch unigolion ym mhob Cyfarwyddiaeth i gynyddu cynhyrchiant yn eu sefydliadau o fewn amserlen dynn, drwy roi'r data, yr adnoddau a'r grym sydd eu hangen arnynt i gynyddu allbynnau Amddiffyn.

**9.** Ar draws ein Gwasanaethau unigol, bydd trawsnewid ein gweithlu'n parhau'n gyflym, gan fod cryfder milwrol yn canolbwyntio ar sgiliau rheng flaen ac arbenigol, tra byddwn yn digideiddio ac yn sifileiddio swyddogaethau ein pencadlys; rhaid i ni sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl o dechnoleg yn ein gweinyddiaeth. Mae trawsnewid yn **gweddnewid ein hamgylchedd hyfforddi** er mwyn diwallu anghenion y dyfodol. Bydd hyfforddiant yn llai dibynnol ar ystâd ffisegol ac yn fwy rhithiol, wedi'i deilwra i anghenion unigolyn – nid dull unffurf i bawb. Byddwn yn parhau i adolygu strwythurau hyfforddi priodol y Lluoedd Arfog, gan sicrhau bod y staff mwyaf dawnus sy'n dod i'r rhengoedd yn cael cyfle i gyflymu eu llwybr i weithredu ar y rheng flaen, gyda chymorth technegwyr medrus iawn.

**10.** Mae ailddiffinio sut mae Amddiffyn yn integreiddio ac yn deall gwerth yn ganolog i gynyddu ein cynhyrchiant ac ymateb i gyflymder y newid. Bydd yr **Awdurdod Dylunio Integreiddio (IDA)** yn hyrwyddo'r ffaith nad yw gwerth yn deillio o nodweddion ffisegol yn unig; yn hytrach daw gwerth o'r graddau y mae cysyniadau a galluoedd yn cael eu *hintegreiddio* a pha mor *hyblyg* ydynt i newid. Bydd hyn yn gyrru Amddiffyn tuag at ddull a ddiffinnir gan feddalwedd, nid caledwedd; ac at werthfawrogi systemau o systemau yn fwy na phlatfformau. Prif rôl yr IDA fydd optimeiddio integreiddiad Amddiffyn y DU: bydd yn gwneud hynny drwy edrych ar Amddiffyn ar lefel Portffolio ar ran y Brif Swyddfa a dechrau cynnig Integreiddio fel Gwasanaeth ar gyfer Amddiffyn, gan ddarparu'r fframwaith cyfeirio ar gyfer Amddiffyn i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch dewisiadau gallu.

**11.** Mae'r Cynllun Swyddogaeth Cymorth Amddiffyn (DSFP) hefyd yn sbarduno trawsnewid ar draws galluogwyr Amddiffyn. Mae'r DSFP yn nodi, yn cysoni ac yn rheoli'r prif weithgareddau sy'n ofynnol ar draws y Fenter Cymorth Amddiffyn i ddarparu Mantais Cymorth fel galluogwr hanfodol o ran Mantais Weithredol i'n Lluoedd Arfog. Mae'r DSFP yn canolbwyntio ar wella argaeledd, cadernid, moderneiddio a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata.

## Cofleidio digidol, awtomeiddio a gwybodaeth

**12.** Byddwn yn ceisio harneisio deallusrwydd artiffisial a galluoedd digidol i ddisodli tasgau ailadroddus ar draws y maes Amddiffyn. Byddwn yn cynyddu'r buddsoddiad mewn gallu milwrol a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial, gan flaenoriaethu opsiynau deallusrwydd artiffisial mewn ymarferion Datblygu Lluoedd a 'chydbwysedd

buddsoddi'. Byddwn yn nodi gwelliannau galluogrwydd 'enillion cyflym' ac opsiynau AI pwrpasol newydd o fewn rhaglenni mawr. Byddwn hefyd yn **chwilio am gyfleoedd i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol mewn swyddogaethau 'swyddfa gefn'** drwy ddeallusrwydd artiffisial. Byddwn yn **cynyddu'r defnydd o ddigideiddio, technoleg a data er mwyn symleiddio prosesau**, rhyddhau ein pobl, a chyflymu'r broses o wneud penderfyniadau.

**13.** Byddwn yn rhoi **defnyddio data** wrth galon ein dull gweithredu, gan ddatblygu pensaernïaeth ddigidol gydlynol ar draws y fenter amddiffyn i integreiddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ni. Byddwn yn gweithredu'n fwy deinamig yn yr **amgylchedd gwybodaeth** rhyngwladol ac yn gwella'r gwaith o gydlynu gweithgareddau **cyfathrebu strategol** Amddiffyn. Byddwn yn gwneud defnydd mwy soffistigedig o wybodaeth i egluro ein dull gweithredu, i feithrin clymbleidiau, i newid ymddygiad ein gwrthwynebwyr, ac i ddylanwadu ar amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

## Gweithio gyda'r awdurdodau rheoleiddio

**14.** Bydd angen i ni hefyd weithio'n wahanol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir gan dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Er mwyn ategu'r cynnydd angenrheidiol mewn arbrofi, byddwn yn cynnwys ein **rheoleiddwyr** yn y broses arloesi yn llawer cynharach. Bydd caniatáu i'r rheoleiddwyr helpu i siapio galluoedd newydd yn golygu eu bod yn cael eu sicrhau drwy ddyluniad a'u cyflwyno i'r gwasanaeth yn gyflymach.

**15.** Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau rheoleiddio perthnasol – er enghraifft yr **Awdurdod Hedfanaeth Milwrol mewn perthynas â thechnoleg drôn** – i'n galluogi i brofi, arbrofi ac arloesi o fewn ffiniau cyfreithiol, gan sicrhau lefelau risg ac atebolrwydd sy'n briodol. Byddwn hefyd yn cynnwys yr Awdurdod Diogelwch Amddiffyn yn ystod camau cynnar y broses datblygu galluogrwydd er mwyn datgloi gallu diogel ac amgylcheddol gyfrifol.

## Seilwaith

**16.** Byddwn yn adolygu'r ffordd rydym yn defnyddio ein seilwaith ehangach, gyda gwasgariad, cydnerthedd a chaledu ffisegol – yn ogystal â seiberddiogelwch effeithiol – yn ganolog i unrhyw gynllun ystâd yn y dyfodol. Byddwn yn datblygu cynllun seilwaith manwl a fydd yn cynnig ystâd sy'n canolbwyntio ar bobl a gallu milwrol, yn fwy cydnerth, wedi'i alinio'n well â'r amgylchedd gweithredu yn y dyfodol, ac sy'n cysylltu ein hystadau domestig a thramor. Byddwn yn buddsoddi yn yr Ystâd Amddiffyn i liniaru'r risg o fethiant asedau neu ymosodiad. Byddwn hefyd yn buddsoddi i sicrhau bod gennym **ddigon o asedau hanfodol i alluogi gwasgaru ac adfywio** a byddwn yn arwain gweithgor NATO i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a dilysu Cysyniad Cydnerthedd Haenog (LRC) NATO . Bydd yr LRC yn egluro'r agweddau milwrol ar gydnerthedd ac yn cefnogi awdurdodau milwrol NATO i feithrin gwytnwch milwrol a chefnogi gwytnwch sifil.

**17.** Mae'r Portffolio Optimeiddio Ystadau Amddiffyn (DEO), ein rhaglen trawsnewid ystadau gwerth £5.1 biliwn sy'n cwmpasu 80 o brosiectau yn y DU, ar y trywydd iawn i

ddarparu llety a chyfleusterau hyfforddi i 65,000 o staff a bydd hefyd yn galluogi gallu craidd ar draws Amddiffyn. Yn benodol, o dan DEO, byddwn yn **cynyddu ein buddsoddiad mewn seilwaith technegol** sy'n hanfodol i gyflawni ein galluoedd gan gynnwys Llu Comandos y Dyfodol a'r Grŵp Cludwyr Ymosod; gweithrediadau arbennig; hyfforddiant jet cyflym; Milwr y Dyfodol; Rhyfela Seiber; ISTAR a Deallusrwydd Amddiffyn. Bydd DEO hefyd yn creu cyfleoedd swyddi ledled y DU gan gefnogi uchelgais y Llywodraeth o ran Ffyniant Bro a thwf cenedlaethol. Mae DEO yn arwain newid yn y ffordd y mae Amddiffyn yn contractio ei seilwaith drwy greu piblinellau gwaith sefydlog ar gyfer contractwyr yn y diwydiant a chyflymu'r gwaith o gyflawni.

**18.** Bydd **buddsoddiad parhaus mewn seilwaith** yn Devonport yn cefnogi'r gwaith o greu Canolfan Ragoriaeth Cynnal a Chadw Dwfn Llongau Tanfor, gan greu a chynnal swyddi a ffyniant lleol. Yn yr Alban, mae datblygu seilwaith yn parhau yn RAF Lossiemouth lle bydd yr E7 Wedgetail yn ymuno â sgwadronau jet cyflym Typhoon a'r llu P-8A fel rhan o ymrwymiad parhaus y DU i NATO i alluogi rhanbarth Arctig diogel a heddychlon, ar yr un pryd â sicrhau buddsoddiad economaidd parhaus yn yr Alban.

**19.** Gan gydnabod nad oes noddfa hawdd rhag arfau manwl pellter hir, bydd **Defnyddio Ymladd Hyblyg (ACE)** yn defnyddio opsiynau lleoli hyblyg ac addasadwy i ddiogelu asedau, cynyddu'r gallu i oroesi a meithrin cadernid gweithredol. Bydd ACE yn galluogi'r RAF i gynhyrchu pŵer awyr ar adeg a lle sy'n galluogi dewis gwleidyddol.

**20.** Ond rhaid i ni fynd ymhellach. Byddwn yn datblygu cynllun seilwaith manwl a fydd yn cynnig ystâd sy'n canolbwyntio ar allu pobl a gallu milwrol, sy'n gallu gwrthsefyll bygythiadau, wedi'i ategu, am y tro cyntaf, gan gynllun seilwaith ugain mlynedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cyd-fynd â'r amgylchedd gweithredu i'r dyfodol, ac sy'n cysylltu ystadau domestig a thramor.

## Mudiad mwy effeithlon, mwy effeithiol

**21.** Mae angen inni symud ein diwylliant sefydliadol oddi wrth y meddylfryd amser-heddwch a ganiatawyd gan y difidend ar ôl y Rhyfel Oer. Rhaid inni fyw a gweithredu fel y byddem yn ymladd. Mae'n rhaid i'r ffordd rydyn ni'n gwneud ein busnes feithrin cydweithio a chwalu seilos yn fwriadol. Mae angen i ni rymuso unigolion, o fewn paramedrau cyfeiriad cyffredinol clir gyda chefnogaeth atebolrwydd cadarn, yn hytrach na gwthio penderfyniadau i fyny'r gadwyn. Rydym am i'n staff fod yn greadigol a manteisio ar gyfleoedd pan fyddant yn codi. Rhaid i'n strwythurau, ein prosesau a'n ffyrdd o weithio roi mantais i ni, nid ein dal yn ôl. Mae angen i ni gynyddu ein cynhyrchiant a'n hallbynnau, a nodi atebion arloesol a chreadigol sy'n ein galluogi i gael mwy o effaith yn y byd. Mae hyn yn gofyn am newid yn ein diwylliant a'n hethos, gan annog mwy o rymuso a gwell cydbwysedd rhwng risg a gwobr. Mae hefyd yn gofyn am newid sefydliadol – creu Adran Ymgyrchu.

**22.** Mae llawer wedi newid yn y degawd ers i'r Arglwydd Levene gyhoeddi ei argymhellion ar gyfer Diwygio Amddiffyn. Mae angen i ni fod yn fwy deinamig o ran sut rydym yn

ymateb i'r amgylchedd bygythiad sy'n esblygu – ac mae angen i ni hefyd integreiddio ein gweithgareddau a'n galluoedd yn well i gefnogi ein dull ymgyrchu. Felly, rydym eisoes wedi lansio'r broses o ailgynllunio'r Model Gweithredu Amddiffyn cyffredinol, sy'n ystyried y **model priodol ar gyfer cyflawni integredig yn y dyfodol**. Mae'r ailddylunio hwn yn defnyddio technegau sydd wedi'u profi'n effeithiol mewn sawl sector diwydiant. Rydym yn cynnwys trawstoriad eang o gydweithwyr ar draws y Fenter Amddiffyn i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth ddofn o'r realiti ymarferol. Bydd y broses yn canolbwyntio ar leihau nifer y trosglwyddiadau a'r fiwrocratiaeth gysylltiedig yn fwriadol, a disodli nifer o wiriadau sicrwydd arwynebol gyda llai sy'n fwy manwl.

**23.** Dros y deuddeg i ddeunaw mis nesaf, byddwn yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng cyfeiriad canolog a'r grymuso a'r rhyddid sy'n galluogi pob rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn i weithredu'n gyflym ac yn ystwyth, gan sicrhau bod ein Hadran yn cael ei threfnu yn y ffordd orau ar gyfer cyflawni. Byddwn hefyd yn mynd ar drywydd mwy o gynhyrchiant ar draws yr Adran drwy ddigideiddio ein prosesau Adnoddau Dynol ac uwchsgilio talent (fel yr amlinellir ym Mhennod 1).

**24.** Bydd rhan o'r gwaith hwn yn ystyried a oes gennym y niferoedd cywir o bobl sydd â'r sgiliau cywir ar draws y sefydliad, gan gynnwys ar raddfeydd a rhengoedd uwch. Byddwn yn blaenoriaethu sicrhau mwy o effaith yn y byd go iawn drwy sicrhau bod ein staff yn fwy medrus a sgiliedig, a thrwy eu cefnogi a'u grymuso'n well.

## Adeiladu ar fomentwm Diwygio'r Prif Swyddfa

**25.** Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, yr ydym wedi gwneud newidiadau sylweddol sydd eisoes yn cael effaith, gan ddiwygio'r Brif Swyddfa fel ei bod yn bencadlys milwrol strategol effeithiol ac yn Adran o'r Wladwriaeth sy'n perfformio'n dda. Byddwn yn parhau i gyflawni cyfres uchelgeisiol o ddiwygiadau ar draws y sefydliad, gan gyflymu'r cynnydd rydym wedi'i wneud ers DCP21.

**26.** Ers goresgyniad Wcráin, rydym wedi cryfhau'r sefydliad **Deallusrwydd Amddiffyn**. Arloesodd yn y gwaith o ddigelu asesiadau cudd-wybodaeth yn gyflym, gan ei ryddhau i'r cyhoedd drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol a manteisio ar y cyfle i dynnu sylw'n gyhoeddus at ymgyrchoedd twyllwybodaeth Rwsia. Fe wnaethom drosglwyddo arweinyddiaeth y **Rhwydwaith Amddiffyn Byd-eang** i Orchymyn Strategol, gan wella cydlyniad ein swyddogaeth "synhwyro, deall a dylanwadu" fyd-eang. Wrth wneud hynny, fe wnaethom hefyd ddarparu cynnydd ar unwaith mewn galluoedd cyfathrebu cyfrinachol mewn swyddi hanfodol dramor, gyda mwy i ddilyn.

**27.** Yn 2021, fe wnaethom sefydlu **Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol dros Asesu a Herio Net (SONAC)**. Mae SONAC wedi helpu i sicrhau bod dadansoddi a herio cadarn yn cael eu dwyn i'r amlwg wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys mewn perthynas â'r rhyfel yn Wcráin, wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau tîm coch ar draws meysydd polisi a strategaeth amddiffyn mawr, ac wedi cynhyrchu cyfres o asesiadau net i helpu i lywio ffordd yr Adran o feddwl yn y

# Swyddogaethau'r Prif Swyddfa




tymor hwy. Mae SONAC hefyd wedi arwain y broses o ddod â syniadau allanol i'r Adran i hysbysu'r Papur Gorchymyn hwn.

**28.** Mae sefydlu **Hyb Strategol** newydd yn 2022 yng nghanol yr Adran wedi helpu'r Weinyddiaeth Amddiffyn i fod yn gliriach ynghylch ei blaenoriaethau, yn gliriach yn ei

strategaeth a'i chynlluniau, ac yn fwy trylwyr wrth werthuso canlyniadau. Bydd hefyd yn ysgogi ffocws ar gyflawni ein strategaeth, nodi a datrys rhwystrau rhag cyflawni, a dal gweddill y fenter i gyfrif. Fel Adran, rhaid i ni fod yn ymatebol, yn hyblyg a gallu gweithredu'n gyflym – ond hefyd sicrhau bod ein gweithredoedd yn rhan o strategaeth hirdymor sy'n sbarduno newid parhaol yn y byd.

**29.** Tynnodd DCP21 sylw at yr angen am 'feddylfryd sy'n seiliedig ar ymgyrchu parhaus, gan weld yr holl weithgarwch yn rhan o gynllun gweithredol cyffredinol'. Yn ogystal â gweithio i ddatblygu a gwreiddio'r meddylfryd ymgyrchu hwnnw, yn y sefydliad ac mewn unigolion, rydym hefyd wedi sefydlu pedwar **tîm ymgyrchu** actorion-ganolog. Mae'r timau'n cyfuno arbenigedd polisi a milwrol, mae ganddynt fandad i ymgysylltu ar draws Whitehall, ac adrodd yn uniongyrchol i Weinidogion yn ôl yr angen. Maent yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddata, gan ddefnyddio offer digidol i wella integreiddio, gwneud penderfyniadau amserol a gwerthuso. Fel yr amlinellir ym Mhennod 6, byddwn yn **gwreiddio ymgyrchu fel y ffordd y mae Amddiffyn yn cyflawni ei effaith**, yn parhau i feithrin galluoedd timau ymgyrchu, ac yn ystyried ble yw'r lle gorau i'w lleoli er mwyn gallu integreiddio'r holl adnoddau amddiffyn a phŵer llywodraethol ehangach.

**30.** Mae'r diwygiadau a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn rhoi mwy o eglurder ynghylch swyddogaeth y Brif Swyddfa, a sut mae ei gweithgarwch yn cael ei gydlynu a'i drefnu i gyfarwyddo a chefnogi gweddill y sefydliad. Bydd Prif Swyddfa wedi'i moderneiddio, sy'n gliriach yn ei rôl, yn fwy effeithiol o ran ymateb i ddigwyddiadau cyfredol ac o ran llunio a chyflawni strategaeth hirdymor.

**31.** Bydd **dull newydd o ymdrin â diogelwch a chadernid** o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sail i effeithiolrwydd y diwygiadau hyn. Yn yr amgylchedd bygythiad newydd, rhaid i ddiogelwch a diogeledd newid o fod yn allbwn corfforaethol i fod yn alluogwr gweithredol. Rhaid i wytnwch newid o gael ei ystyried yn fater 'parhad busnes' i fod yn fater gweithredol. Felly, bydd diogelwch a chadernid yn cael eu gwreiddio yn ein swyddogaethau hanfodol gydag arweinyddiaeth ac adnoddau priodol.


Lluoedd ar y Cyd ar y ffordd i Sudan i gefnogi'r broses o adael oherwydd trais cynyddol



Rhan 2

# Ein Huchelgais Gweithredol



# Pennod 5:

# Ataliaeth ac Amddiffyn: Ein Gallu i Ymladd ac Ennill

**1.** Busnes craidd yr Amddiffyn yw atal ac amddiffyn yn erbyn y bygythiadau i'n diogelwch, eu gwthio'n ôl lle bo angen, ac addasu iddynt wrth iddynt esblygu. Cenhadaeth sylfaenol Amddiffyn y DU yw diogelu'r DU, Dibynwledydd y Goron, a'n Tiriogaethau Tramor, yn ogystal â'n Cynghreiriaid NATO.

**2.** Mae'r amgylchedd diogelwch heriol yn gofyn i ni ddod yn arbenigwr unwaith eto ym maes ataliaeth: nid dim ond cysyniad sy'n perthyn i'r Rhyfel Oer, ond un yr ydym yn byw ac yn ei anadlu bob dydd. Mewn amgylchedd diogelwch cyfnewidiol, cymhleth ac amwys, rhaid i ni ymgorffori dull cwbl integredig o atal ac amddiffyn – gan gynnwys ar draws meysydd, ar draws sbectrwm cystadleuaeth, ar draws y llywodraeth, a gyda chynghreiriaid a phartneriaid – gan fanteisio ar holl adnoddau pŵer y wladwriaeth. Mae angen i ni fod yn gredadwy o ran ataliaeth drwy gosbi, ac ataliaeth drwy wadu, gartref a thramor. Mae'n rhaid i'n gwrthwynebwyr beidio cael **unrhyw amheuon am ein gallu a'n parodrwydd i frwydro, ac i ennill**. Felly, mae ein gallu i atal yn dibynnu ar alluoedd cytbwys a chredadwy – ar draws y môr, tir, awyr, y gofod a seiberofod – a pharodrwydd wedi'i gyfleu'n glir i'w defnyddio yn y lle ac ar adeg o'n dewis.



Milwyr y DU yn cymryd rhan yn Ymarfer WINTER CAMP, Estonia

**3.** Bydd rhanbarth yr **Ewro-Iwerydd** yn parhau i fod yn flaenoriaeth glir i ni a bydd yn parhau i dderbyn mwy o fuddsoddiad ac yn denu mwy o weithgarwch nag unrhyw ranbarth arall. Dyma ein rhanbarth cartref, a mae cysylltiad anorfod rhwng diogelwch gwladol y DU a diogelwch y rhanbarth ehangach, Byddwn felly'n datblygu grym sydd wedi'i optimeiddio i ymladd rhyfel yn yr Ewro-Iwerydd ac amddiffyn ein mamwlad.

**4.** Fodd bynnag, ni allwn gyfyngu ar ein huchelgeisiau yno. Bydd ansefydlogrwydd mewn rhanbarthau eraill ledled y byd, a'r bygythiadau sy'n deillio ohonynt, yn cael effaith ar famwlad y DU a'n buddiannau yn fyd-eang. Nid yw ein gwrthwynebwyr wedi'u cyfyngu i'w rhanbarthau eu hunain ond byddant yn cystadlu â ni ym mhobman am ddylanwad. Yn yr un modd, mae buddiannau'r DU yn parhau i gael eu herio gan fygythiadau nad ydynt yn rhai gwladol, fel terfysgaeth, môr-ladrad a throseddau cyfundrefnol. **Mae angen i ni allu cystadlu a herio bygythiadau yn fyd-eang. Mae angen i ni hefyd fod yn barod i fanteisio ar gyfleoedd; mae hyn yn gofyn am bresenoldeb parhaus nid yn unig yn Ewrop ond ledled y byd**.

## Dull Integredig o Atal ac Amddiffyn

Mae'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ni wella integreiddio:

- ar draws yr holl Wasanaethau, gan flaenoriaethu dull ar y cyd o synhwyro i ymosod;
- ar draws meysydd, gan gynnwys niwclear, confensiynol, electronig, seiber a gofod, gan wneud integreiddio ar draws meysydd yn realiti yn ein dewisiadau gallu a'n cysyniadau gweithredu;
- ar draws y Llywodraeth, gan weithio'n agosach fyth gyda'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r Asiantaethau Diogelwch a Gwybodaeth yn benodol i ddefnyddio'r holl adnoddau pŵer cenedlaethol, gan gynnwys, er enghraifft, drwy osod sancsiynau a mynd i'r afael â'r ffordd wrthwynebus o drin gwybodaeth;
- ar draws y sbectrwm gwrthdaro o ryfela dwys iawn i gystadleuaeth hybrid o dan y trothwy;
- gyda diwydiant, ffurfio cynghrair newydd sy'n fwy rhagweithiol, ymatebol a gwydn;
- ar draws theatrau rhanbarthol, gan gydnabod y mandylledd rhwng rhanbarthau, ac nad yw bygythiadau gwladwriaethau o reidrwydd wedi'u cyfyngu i'w cymdogaethau eu hunain. Mae effeithiolrwydd ein dull ymgyrchu byd-eang yn dibynnu ar gymhwyso'r holl adnoddau Amddiffyn yn soffistigedig – a phŵer Llywodraethol ehangach – i gyflawni effeithiau wedi'u targedu; a
- gyda chynghreiriaid a phartneriaid, yn enwedig drwy NATO, gyda ffocws cryfach ar ryngweithredu, gan gynnwys ym maes digidol a data.

## Niwclear

**5.** Fel y nodir yn yr IRR, elfen sylfaenol dull integredig o atal ac amddiffyn o hyd yw **ataliad niwclear credadwy ac annibynnol yn y DU**, sydd wedi'i aseinio i amddiffyn NATO. Mae system ataliol niwclear y DU yn gweithio bob awr o bob dydd i sicrhau ein diogelwch ni a diogelwch ein Cynghreiriaid NATO. Mae'n atal y bygythiadau mwyaf eithafol i'n diogelwch cenedlaethol a'n ffordd o fyw ac yn ein galluogi i gymryd y camau sy'n ofynnol i gynnal diogelwch a sefydlogrwydd rhanbarthol a byd-eang heb fygythiad gorfodaeth niwclear.

**6.** Mae erydu rheolaeth ar arfau, diarfogi a phensaernïaeth gwahardd twf arfogaeth wedi cael effaith negyddol ar sefydlogrwydd strategol. Rydym bellach yn wynebu **ystod llawer ehangach o risgiau strategol a llwybrau i ddwysáu**, wedi'u sbarduno'n rhannol gan ddatblygiadau cyflym mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, a thrwy ehangu cystadleuaeth ym meysydd mwy newydd y gofod a seiber. Mae'r rhain i gyd yn cael eu gwaethygu gan y ffaith bod Rwsia wedi mynd yn groes i ymrwymiadau ei chytuniad dro ar ôl tro, a'r cyflymder a'r raddfa y mae Tsieina yn ehangu ei harfau niwclear a chonfensiynol, yn ogystal ag ymdrechion Iran a Gogledd Corea i ddatblygu eu rhaglenni niwclear eu hunain.

**7.** Mae'r risgiau hyn, yn ogystal â rhethreg niwclear anghyfrifol Rwsia yng nghyd-destun ei rhyfel anghyfreithlon yn erbyn Wcráin, wedi tanlinellu'r angen i gynnal ein system niwclear ein hunain y tu hwnt i oes y system bresennol er mwyn darparu arf ataliol niwclear credadwy, annibynnol a galluog – fel gwarantwr mwyaf ein diogelwch ni a'n Cynghreiriaid NATO – cyhyd ag y bo angen.

**8.** Felly, rydym wedi ymrwymo i **raglen unwaith mewn dwy genhedlaeth o foderneiddio** ein grymoedd niwclear, wedi'i hategu gan fuddsoddiad hirdymor. Yn 2016, pleidleisiodd y Senedd dros adnewyddu ein hataliad niwclear a disodli llongau tanfor Dosbarth Vanguard gyda phedair llong danfor Dosbarth Dreadnought newydd. Mae'r rhaglen yn dal ar y trywydd iawn i'r Cyntaf yn y Dosbarth ymuno â'r gwasanaeth ddechrau'r 2030au. Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ataliad effeithiol drwy gydol comisiynu'r Dosbarth Dreadnought, byddwn hefyd yn **disodli ein pen ffrwydrol niwclear presennol.** Mae llongau tanfor Dosbarth Dreadnought y DU, a phennau ffrwydrol newydd y DU, yn cael eu dylunio a'u hadeiladu yn y DU ac yn cynrychioli rhai o'r systemau mwyaf datblygedig a adeiladwyd erioed. Mae eu datblygiad yn defnyddio technoleg arloesol o'r radd flaenaf i ddarparu gallu aruthrol, gan gefnogi degau o filoedd o swyddi ledled y wlad yn uniongyrchol a buddsoddi biliynau o bunnoedd yn economi'r DU.

**9.** I gydnabod pwysigrwydd canolog ein system atal niwclear, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cael £3 biliwn yn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf, a £6 biliwn arall dros y tair blynedd ddilynol, a fydd yn cael ei fuddsoddi ar draws y fenter amddiffyn niwclear. Mae hyn yn ychwanegol at ein lefelau buddsoddi presennol. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o **adeiladu seilwaith diwydiannol**, **moderneiddio ein capasiti gweithgynhyrchu a chynnal a chadw** i wella argaeledd llongau tanfor a chynyddu cydnerthedd, twf ein **rhaglenni sgiliau** niwclear i raddedigion a phrentisiaid, a **chynnal** llongau tanfor mewn gwasanaeth. Byddwn yn parhau i gynyddu capasiti a gallu ein menter niwclear dros y degawdau nesaf. Bydd buddsoddiadau penodol mewn dociau sych a lifftiau llongau yn

Faslane a Devonport yn cynyddu cydnerthedd dros y blynyddoedd nesaf.

**10.** Mae llwyddiant y fenter niwclear yn parhau i fod yn **ymdrech wirioneddol genedlaethol.** Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i wella cydweithrediad trawslywodraethol i gyflawni menter amddiffyn niwclear y DU, gan gynnwys manteisio ar gyfleoedd addas i gydweithio ar sgiliau, gallu, Ymchwil a Datblygu, a seilwaith, gan sicrhau arwyddion o alw cydlynol ddiwydiant a'r byd academaidd. Byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Amddiffyn Niwclear i nodi'r rhaglenni ailgyfalafu sydd eu hangen i gryfhau a meithrin cadernid yng ngalluoedd y DU a darparu dull gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer pobl a sgiliau arbenigol.

## Galluoedd Ymladd Rhyfel Credadwy

**11.** Mae effaith ataliol Amddiffyn y DU nid yn unig yn deillio o'n galluoedd niwclear, ond hefyd o **hygrededd ein galluoedd ymladd rhyfel confensiynol ar draws pob maes.** Fel y nodir yn yr IRR, rhaid i'r grymoedd hyn fod yn ddigon abl i atal gwrthwynebwyr posibl rhag ymgysylltu â gwrthdaro, ac i ymladd ac ennill os bydd ataliaeth yn methu. Y galluoedd ymladd rhyfel credadwy hyn sydd hefyd yn gwneud y DU yn gynghreiriad dibynadwy a medrus iawn o fewn NATO.

**12.** Wrth i faes y frwydr ddatblygu, mae'n hanfodol bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau bod ei **galluoedd ymladd rhyfel yn gyfredol**, ar draws pob maes. Mae'r rhyfel yn


Ar fwrdd awyren hyfforddi Texan T1

Wcráin wedi cynyddu brys ein **rhaglen foderneiddio a symud**, yn enwedig o ran yr elfennau hynny o'r lluoedd sydd fwyaf tebygol o fod yn dyngedfennol mewn gwrthdaro yn y dyfodol. Byddwn yn mynd i'r afael â diffygion mewn galluoedd lle'r oedd byd llai dadleuol a llai ansefydlog yn golygu ein bod yn gallu cymryd mwy o risg. Bydd galluoedd Gwybodaeth, Gwyliadwriaeth, Caffael Targedau a Rhagchwilio (ISTAR), yn ogystal â galluoedd Rhyfela Electronig (sy'n gallu darparu neu negyddu mantais anghymesur), deallusrwydd signalau a seiber, yn cynyddu o ran pwysigrwydd.

**13.** Bydd ein gallu i atal yn parhau i gael ei ategu gan **angeuoldeb** ein Lluoedd. Mae'r Llynges Frenhinol yn parhau i ddatblygu angeuoldeb i ategu ei galluoedd cario ac ymosod amffibiaidd. Mae gallu Taflegrau Ymosod y Llynges wedi cael ei brynu'n gyflym ac mae llongau eisoes yn cael eu ffitio i dderbyn y gallu hwn sy'n caniatáu ymosodiadau manwl ar y tir ac ar y môr. Bydd y Fyddin hefyd yn gwella ei galluoedd tanio dwys, gan alluogi'r Fyddin i wrthsefyll a tharo targedau manwl yn ddyfnach, yn galetach, yn gyflymach ac yn fwy cywir. Mae'r RAF yn parhau i esblygu ac arloesi, gan gynnwys technoleg gwrth-UAS a galluoedd cychwynnol Dronau Haid.

## Cyflenwadau a galluogwyr

**14.** Dim ond drwy fuddsoddi yn ein stocrestrau a'n galluogwyr y byddwn yn cynnal ein angeuoldeb. Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi dangos bod **angen stoc digonol o arfau i gynnal gweithrediadau morol, awyr a thir** – gofyniad sy'n cael ei amlygu ymhellach drwy roi ein stociau ein hunain i Luoedd Arfog Wcráin. Bydd ailgyflenwi – a chynyddu – y stociau hyn yn dangos ein parodrwydd a'n hygrededd cynyddol i atal bygythiadau ac amddiffyn y genedl a'n Cynghreiriaid. Felly, byddwn yn buddsoddi £2.5 biliwn yn ychwanegol yn ein harfau a chyflenwadau stoc dros y degawd nesaf, ar ben y buddsoddiadau ychwanegol a neilltuwyd yn Natganiad yr Hydref a Chyllideb y Gwanwyn. Byddwn yn parhau i adolygu ein daliadau o'r holl eitemau hanfodol treuliadwy, a byddwn yn buddsoddi mewn galluoedd fel arfau cymhleth, arfau cyffredinol, a stociau sbâr gweithredol i ddiwallu anghenion gweithrediadau parhaus.

**15.** Yn dilyn y cynnydd diweddar yn y gyllideb Amddiffyn, byddwn hefyd yn cynyddu ein buddsoddiad mewn **cadernid a pharodrwydd seilwaith arfau'r DU**, gan gynnwys cyfleusterau storio (boed hynny yn y DU neu dramor fel rhan o fenter ryngwladol) a'r fenter sy'n sail iddynt. Byddwn yn gweithio gyda diwydiant i wneud **cadwyni cyflenwi** yn fwy gwydn a dibynadwy, gan ddarparu ffordd sicr i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ail-gyflenwi'n gyflym pan fo angen, gan gadw i fyny â'n gwrthwynebwyr, ac ymchwyddo er mwyn bodloni'r galw gweithredol.

**16.** Mae **darparu galluogwyr yn elfen hanfodol o effeithiolrwydd ein Lluoedd Arfog** ac mae'n sail i'n hygrededd fel grym ymladd rhyfel – ac felly ein hataliaeth. Byddai gweithrediadau ymladd dwyster uchel gyda gwrthwynebwyr sy'n gymheiriaid neu gymheiriaid agos yn rhoi llawer mwy o bwysau ar ein galluogwyr nag yr ydym wedi'i weld ers degawdau, yn enwedig y galluoedd a'r gweithlu. Felly, mae'n ddyletswydd ar bob un o'n Gwasanaethau Sengl i roi blaenoriaeth i fuddsoddi yn y rhwydweithiau hyn. Mae Rhwydwaith Cymorth Amddiffyn cadarn yn

hanfodol er mwyn sicrhau mantais weithredol ac mae'n darparu'r gallu i bontio'n effeithiol rhwng cystadleuaeth, argyfwng a gwrthdaro mewn amgylchedd dadleuol.

**17.** Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn grymoedd **gwrth-CBRN**, gan sicrhau bod y DU yn cynnal rhyddid gweithredu gwleidyddol a milwrol er gwaethaf presenoldeb, bygythiad neu ddefnydd deunyddiau CBRN. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i fynd i'r afael â lledaenu arfau, gan gefnogi gwydnwch mamwlad y DU yn erbyn bygythiadau CBRN, yn ogystal â chynnal ein gallu amodol i weithredu dramor. Byddwn yn parhau i gefnogi ymdrechion NATO i wella ei barodrwydd i atal ac amddiffyn yn erbyn digwyddiad CBRN ac i sicrhau bod y Gynghrair yn y sefyllfa orau i ymladd a rhagori mewn amgylchedd bygythiad CBRN, heddiw ac yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn buddsoddi mwy yn ein galluoedd **meddygol** a'n cyflenwadau fel galluogwyr hanfodol o ran cynnal gweithrediadau.

**18.** Rydym yn ail-fuddsoddi mewn meysydd allweddol fel **Codiad Strategol** a'r **Sylfaen Strategol** i wella ein cydnerthedd, ein parodrwydd, ein hargaeledd, ein gallu a'n cynaliadwyedd. Mae mynediad neu reolaeth gadarn ar Godiad Strategol Aer, Môr a Thir yn gofyn am fuddsoddiad er mwyn gallu defnyddio, cynnal, ailgyfuno ac adfer lluoedd, yn enwedig wrth bontio i argyfwng. Mae'r Sylfaen Strategol yn gofyn am Borthladdoedd Esgyniad Awyr a Môr eilaidd ac eiledol, ailsefydlu gallu rheilffyrdd milwrol a buddsoddi mewn offer hanfodol i'r ymgyrch. Bydd buddsoddiad o'r fath yn ein helpu i gynnal ein huchelgeisiau byd-eang, cryfhau ein cynghreiriau rhyngwladol, a chynyddu'r gallu i ryngweithredu â phartneriaid.

**19.** Bydd **darlun logisteg cyffredin** yn sail i effeithiolrwydd y Rhwydwaith Cefnogi Amddiffyn. Bydd hyn yn cael ei alluogi gan asgwrn cefn digidol effeithlon, cadarn a sicr sy'n gallu **cydlynu'r doreth o systemau data a gwybodaeth** a ddefnyddir ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn. Byddwn yn buddsoddi mewn systemau gwybodaeth rhyngweithredol, sy'n gallu gwrthsefyll bygythiadau seiber, i gynyddu rhannu data ac integreiddio â chynghreiriaid a phartneriaid, yn enwedig drwy NATO wrth iddo symud tuag at ddull logisteg ar y cyd.

## Y gofod a seiber – meysydd newydd a galluogwyr allweddol

**20.** Mae'r gofod yn fwyfwy hanfodol i Amddiffyn, ac mae'r rhyfel yn Wcráin wedi atgyfnerthu hyn. **Mae galluoedd yn y gofod yn alluogwyr allweddol mewn gweithrediadau aml-faes**, gan gefnogi meysydd Gwybodaeth, Gwyliadwriaeth a Rhagchwilio, cyfathrebu, llywio, amseru, Gorchymyn a Rheolaeth fyd-eang, a rhybudd taflegrau. Gallwn hefyd ddefnyddio'r gofod i gyflawni effeithiau i gefnogi gweithrediadau ledled y byd. O'r herwydd, mae'r gofod yn rhoi **mantais weithredol i ni yn erbyn gwrthwynebwyr posibl**; ar ben hynny, rydym yn dibynnu arno am wytnwch cenedlaethol a'n ffordd o fyw. Rhaid i ni ddiogelu ac amddiffyn buddiannau'r DU yn y gofod a thrwyddo, ac mae'r Strategaeth Gofod Amddiffyn (DSS), a gyhoeddwyd yn 2022, yn nodi fframwaith ar gyfer gwneud hynny.

**21.** Ers cyhoeddi'r DSS, mae Gorfodaeth Gofod y DU wedi datblygu'n gyflym. Mae bellach yn darparu'r Portffolio Gofod Amddiffyn

gwerth £1.5 biliwn o alluoedd a gwasanaethau gofod arloesol a chydnerth. Ochr yn ochr â hyn, mae Gorchymyn Strategol yn parhau i ddarparu'r rhaglen £5 biliwn ar gyfer y **genhedlaeth nesaf o gyfathrebiadau lloeren diogel Skynet**. Rydym wedi ehangu a dyfnhau ein perthynas â chynghreiriaid a phartneriaid allweddol: yn ddwyochrog drwy NATO a'r Cynllun Gweithrediadau Gofod Cyfun (Five Eyes, Ffrainc a'r Almaen); ac yn ddwyochrog drwy gytundebau newydd gydag Awstralia, Japan, Gweriniaeth Corea, a'r Unol Daleithiau (Gorchymyn y Gofod UDA a Llu Gofod UDA). Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cefnogi ymdrechion y DU drwy'r Cenhedloedd Unedig i hybu trafodaethau ar **normau ymddygiad cyfrifol yn y gofod**, sy'n ceisio lleihau'r risg o gamgyfrifo. Yn unol â hyn, mae'r DU wedi ymrwymo i beidio â chynnal profion dinistriol ar Daflegrau Gwrth-Loerennau Esgyniad Uniongyrchol.

**22.** Mae'r gofod yn cael ei herio fwyfwy, gyda chyflymder y newid technolegol yn dod yn fwyfwy cyflym. Rhaid i'r DU weithredu'n gyflym i ddarparu galluoedd gofod os ydym am sicrhau mantais weithredol. Bydd Gorchymyn Gofod y DU yn gwella ein dealltwriaeth o'r maes drwy well **Ymwybyddiaeth o Faes y Gofod**. Bydd y cysyniad newydd o Gyd-weithrediadau Masnachol yn cyfuno ffynonellau data masnachol a milwrol, gan ysgogi AI a Dysgu Peiriannol, wrth i ni barhau i gyfrannu at Rwydwaith Sefyllfaol y Gofod ein cynghreiriaid. Byddwn yn integreiddio'n well ar draws y Llywodraeth a gyda'r diwydiant drwy gyflymu'r gwaith o ddarparu Canolfan Genedlaethol ar gyfer Gweithrediadau Gofod. Byddwn yn blaenoriaethu datblygu galluoedd 'Rheoli Gofod' newydd sy'n ein galluogi i gynnal rhyddid i weithredu drwy gynhyrchu effeithiau wedi'u graddnodi'n ofalus. Byddwn hefyd yn edrych ar ein gallu i lansio er mwyn amrywio ein gallu i fod yn bresennol ym maes y gofod. Bydd hyn yn cynnig dewis gwleidyddol i gefnogi opsiynau ymateb integredig. Yn olaf, ond heb fod yn llai sylfaenol, mae Amddiffyn yn tyfu **gweithlu gofod medrus**. Byddwn yn cyflwyno rheolaeth yrfaol weithredol ar gyfer arbenigwyr gofod a byddwn yn parhau i ddarparu Academi Gofod, mewn partneriaeth â diwydiant a'r byd academaidd, i ddarparu'r hyfforddiant o ansawdd uchel sydd ei angen ar draws Amddiffyn ar bob lefel. Hyd yma, mae 650 o staff wedi cael eu hyfforddi'n barod.

**23.** Bydd amddiffyn yn **arweinydd byd-eang ym maes seiber**, yn barod i gystadlu'n gyson, a brwydro pan eir dros drothwy gwrthdaro arfog, gan barhau i wrthsefyll bygythiadau seiber ar yr un pryd. Mae'r **Llu Seiber Cenedlaethol (NCF)** a sefydlwyd yn 2020, yn bartneriaeth rhwng amddiffyn a chudd-wybodaeth – gan gynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn, GCHQ, SIS a Dstl – sy'n cynnal gweithrediadau seiber bob dydd i amddiffyn yn erbyn bygythiadau i'r DU, hyrwyddo polisi tramor y DU, cefnogi gweithrediadau milwrol, ac atal troseddau difrifol. Ym mis Ebrill 2023, roedd cyhoeddi'r adroddiad 'NCF: Responsible Cyber Power in Practice' yn cyflawni'r ymrwymiad yn yr IRR i fod mor dryloyw â phosibl am alluoedd seiber yr NCF a darparu eglurder ynghylch sut mae'r DU yn gweithredu fel pŵer seiber cyfrifol a democrataidd.

**24.** Yn ganolog i ddull gweithredu'r NCF mae 'athrawiaeth effaith wybyddol' – defnyddio technegau sydd â'r potensial i greu drwgdybiaeth, lleihau morâl, a gwanhau galluoedd ein gwrthwynebwyr i gynllunio a chynnal eu gweithgareddau'n effeithiol. Gall hyn gynnwys atal grwpiau terfysgol rhag cyhoeddi darnau o gyfryngau eithafol ar-lein neu ei gwneud yn anoddach i wladwriaethau

ddefnyddio'r rhyngrwyd i ledaenu twyllwybodaeth drwy effeithio ar eu canfyddiad o'r amgylchedd gweithredu.

**25.** Mae gwaith yr NCF yn gudd ac felly nid ydym yn datgelu manylion gweithrediadau unigol. Fodd bynnag, er gwaethaf y lefel angenrheidiol o gyfrinachedd, yn unol â'n hymrwymiad i fod yn weithredwr seiber cyfrifol, gallwn gadarnhau bod y NCF, dros y tair blynedd diwethaf, wedi cyflawni gweithrediadau i:

- warchod gweithgareddau milwrol dramor;
- tarfu ar grwpiau terfysgol;
- mynd i'r afael â bygythiadau seiber soffistigedig, llechwraidd a pharhaus; a
- mynd i'r afael ag ymgyrchoedd twyllwybodaeth gan wladwriaethau.

**26.** Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn ehangu capasiti a chyrhaeddiad y NCF i gadw i fyny â gwrthwynebwyr **a sicrhau bod galluoedd seiber ymosodol yn addas ar gyfer gwrthdaro yn y dyfodol** ac yn cael yr effaith fwyaf fel rhan integredig o'r lluoedd. Ni ellir datgelu llawer o'n galluoedd yn y maes hwn yn gyhoeddus. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sefydlu ac ehangu'r NCF yn Salmesbury, Swydd Gaerhirfryn.

**27.** Mae Amddiffyn Digital yn parhau i fwrw ymlaen â'r mesurau diogelu seiberddiogelwch ar gyfer ein pobl a'n systemau i ddiogelu, canfod, ymateb ac adfer ar ôl digwyddiadau seiber, a chyflawni gweithrediadau seiber amddiffynnol, gan gynnwys y tu hwnt i'n rhwydweithiau lle bo angen. Bydd ein gallu i ddysgu o ddigwyddiadau a chwilio am fygythiadau yn creu mantais strategol i'n staff a'n partneriaid mewn gwrthdaro. Mae hyn yn golygu cydweithio'n agos â'n partneriaid trawslywodraethol, gan gynnwys y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, a'n partneriaid rhyngwladol, yn enwedig drwy Five Eyes a NATO.

## NATO

**28. Ein hymrwymiad i Erthygl 5 Cytuniad Gogledd yr Iwerydd, wedi'i ategu gan rymoedd modern a chredadwy, yw'r arf ataliol mwyaf pwerus yn erbyn bygythiadau**. Mae NATO yn rhoi mantais gystadleuol i ni dros ein gwrthwynebwyr drwy undod 31 o genhedloedd ac effaith luosog lluoedd rhyngweithredol. NATO fydd conglfaen diogelwch ardal Ewro-Iwerydd a chonglfaen amddiffyn y DU.

**29.** Fel y mae'r IRR yn ei nodi, mae **ymrwymiad y DU i NATO yn haearnaidd** ac yn ddiwyro. Rydym wedi rhagori'n gyson ar Addewid Buddsoddi mewn Amddiffyn NATO i wario 2% o'r Cynnyrch Domestig Gros ar amddiffyn ac wedi gosod dyhead cenedlaethol newydd dros y tymor hwy i fuddsoddi 2.5% o'r Cynnyrch Domestig Gros ar amddiffyn, fel y mae'r amgylchiadau ariannol ac economaidd yn ei ganiatáu. Rydym yn cynnig y sbectrwm llawn o alluoedd amddiffyn i'r Gynghrair, gan gynnwys drwy ddatgan ein Ataliad Niwclear Parhaus yn y Môr i'r Gynghrair yn ogystal â'n galluoedd seiber ymosodol drwy'r Llu Seiber Cenedlaethol. Mae ein Lluoedd Arfog yn cymryd rhan ym mhob un o weithrediadau ac ymgyrchoedd NATO ac yn darparu dros 1,000 o staff i Strwythurau Gorchymyn a Lluoedd NATO, gan gynnwys Dirprwy Uwch Gadlywydd 4* y Cynghrair yn Ewrop.

**30.** Mae'r Gynghrair wedi ymateb i fyd mwy peryglus gydag undod a phenderfyniad. Mae

undod NATO wedi bod yn gadarn drwy gydol y rhyfel yn Wcráin. Nid yw cynghreiriaid wedi cael eu rhwystro ac ni fyddant yn cael eu rhwystro rhag rhoi cefnogaeth ymarferol a gwleidyddol i Wcráin yn y tymor hir. Mae'r ffaith bod y Ffindir wedi ymuno â'r Gynghrair ym mis Ebrill 2023, gyda Sweden i ddilyn, yn cryfhau NATO ymhellach ac yn cryfhau ein diogelwch.

**31.** Mae NATO hefyd wedi cyflymu ei **thrawsnewidiad mwyaf radical** ers y Rhyfel Oer. Drwy Gysyniad Strategol 2022 a gweithredu'r Cysyniad ar gyfer Ataliaeth ac Amddiffyn Ardal yr Ewro-Atlantig, mae NATO yn brwydro yn erbyn y bygythiadau y mae'n eu hwynebu heddiw ac yn paratoi ar gyfer bygythiadau yfory. Mae gan y Gynghrair genhedlaeth newydd o gynlluniau ymladd rhyfel, a fydd yn cael eu hategu gan fwy o luoedd parodrwydd-uchel, system rhybuddion milwrol wedi'i moderneiddio, mwy o offer wedi'i osod ymlaen llaw, a strwythur gorchymyn a lluoedd a fydd yn ei alluogi i ymateb yn gyflymach i bob bygythiad. Byddwn yn barod i chwarae rhan allweddol yng Nghynlluniau Rhanbarthol a Gweithredol a Strategol NATO.

**32.** Mae'r DU wedi bod wrth galon y trawsnewid hwn a bydd yn cynnal ei safle blaenllaw yn y degawd nesaf. Wrth i NATO drawsnewid, bydd cyfraniad y DU hefyd yn cael ei ategu gan ein hymrwymiad i integreiddio a rhyngweithredu. Byddwn yn gwneud **ymrwymiad cynhwysfawr o ran lluoedd i'r Gynghrair** drwy gynnig darpariaeth sylweddol i Fodel Lluoedd newydd NATO (NFM). Wrth i'r Gynghrair geisio croesawu dau aelod newydd, bydd y DU hefyd yn arwain y cydweithio ymysg Cynghreiriaid i lunio strwythur **Gorchymyn a Rheoli diwygiedig, gyda ffocws penodol ar Ogledd Ewrop** – yr ardal ranbarthol sydd o'r pwys mwyaf i amddiffyn ein mamwlad. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gallu i ryngweithredu â Chynghreiriaid drwy fabwysiadu safonau NATO, systemau unffurf, a chydweithio. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda NATO wrth iddo esblygu ei athrawiaeth ar gyfer defnyddio galluoedd ym maes seiber a gofod, a byddwn yn hyrwyddo buddsoddiad pellach yn nhrawsnewidiad digidol NATO i alluogi gweithrediadau aml-faes, wedi'u galluogi gan ddata.

**33.** Bydd y Llynges Frenhinol yn parhau i ddarparu'r cyfraniad morol mwyaf cynhwysfawr i allu ymladd rhyfel NATO gan unrhyw Llynges Ewropeaidd, gan ddatgan yn rheolaidd alluoedd Cludo, Rhyfela Gwrth-danforol (ASW) ac Ymosodiadau Arfordirol gyda'u galluogwyr i rymoedd morol y Gynghrair. Bydd prif longau y DU yn parhau i weithredu fel llongau blaenllaw NATO a byddwn yn amlwg iawn yng ngweithgareddau morol NATO yn y Gogledd Uchel, y Môr Baltig a Môr y Canoldir a Chefnfor yr Iwerydd.

**34.** Bydd y Fyddin yn parhau i arwain y Grŵp Brwydro Presenoldeb Uwch rhyngwladol yn Estonia a bydd yn darparu elfen tir y Tasglu Parodrwydd Uchel Iawn ar y Cyd yn 2023 ac, yn 2024, elfen tir Llu Ymateb y Cynghrair. Tra'n cynnal ein Hadran ymladd rhyfel, bydd y Fyddin hefyd yn cynnig cryfhau, gydag Cynghreiriaid, Corfflu Ymateb Cyflym y Cynghrair sy'n cael ei arwain gan y DU fel cronfa o filwyr wrth gefn strategol ar gyfer lluoedd arfog NATO.

**35.** Mae'r Llu Awyr Brenhinol yn parhau i gynnal patrolau awyr NATO dros Wlad Pwyl, Romania ac Estonia. Bydd hefyd yn darparu i NATO ei allu sylweddol o ran gwybodaeth, gwyliadwriaeth a rhagchwilio, ail-lenwi



tanwydd yn yr awyr a'i fflydoedd trafnidiaeth strategol modern, yn ogystal â'i bedwaredd a phumed genhedlaeth o awyrennau ymladd hynod fedrus.

## Y Llu Ymgyrchol ar y Cyd a'r Grŵp Gogleddol

**36.** Er mwyn cyflawni ein gallu i atal, amddiffyn a chystadlu, mae'r IRR hefyd yn pwysleisio y bydd angen i'r DU weithio y tu hwnt i NATO drwy fformatau mânochrog ('minilateral'). Mae ein hymrwymiad i amddiffyn Gogledd Ewrop hefyd yn cael ei ddangos drwy weithredu'r **Llu Ymgyrchol ar y Cyd (JEF)** – y mae'r DU yn Genedl Fframwaith ar ei gyfer. Mae'r JEF wedi profi i fod yn offeryn effeithiol ar gyfer gwella diogelwch rhanbarth Gogledd yr Iwerydd, y Gogledd Uchaf a Môr y Baltig, ac ar gyfer darparu cefnogaeth i wledydd sy'n cymryd rhan fel yr ydym wedi'i wneud yn ystod proses y Ffindir a Sweden o ymuno â NATO. Bydd y JEF yn parhau i weithio'n gwbl unol â NATO i ddarparu haen ychwanegol o amddiffyn, diogelwch a sefydlogrwydd. Mae'r Grŵp Gogleddol yn fforwm gwerthfawr arall lle mae ei aelodau – sydd wedi ymrwymo i gynnal diogelwch a sefydlogrwydd yn rhanbarth Gogledd Ewrop a'r cyfandir ehangach, yn ogystal â chryfhau bondiau trawsiwerydd – yn dod at ei gilydd ar gyfer trafodaethau ar faterion amddiffyn a diogelwch. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein harweinyddiaeth o'r JEF a'r Grŵp Gogleddol, gan hyrwyddo cydweithrediad a rhyngweithredu agos a pharhaus.

## CEFNOGAETH I WCRAIN

Fel y nodir yn yr IRR, y flaenoriaeth bwysicaf yn yr Ewro-Iwerydd yw cefnogi Wcráin i ailddatgan ei sofraniaeth a gwrthod unrhyw fudd strategol i Rwsia o'i goresgyniad. Mae ein cefnogaeth barhaus a diwyro i Wcráin wedi dangos y DU ar ei gorau. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r galluoedd sydd eu hangen ar Wcráin i amddiffyn ei hun rhag ymosodiadau Rwsia, i gymryd tir yn ôl sydd wedi'i atafaelu'n anghyfreithlon, ac i ddechrau trafodaethau o sefyllfa gref – pan fydd yn dewis gwneud hynny – i sicrhau heddwch parhaol. Byddwn yn sefyll wrth Wcráin am y tymor hir. Darparodd y DU £2.3 biliwn o gymorth milwrol i Wcráin yn 2022 – mwy nag unrhyw wlad ar wahân i'r Unol Daleithiau – ac mae eisoes wedi ymrwymo i gynnal y lefel honno o gymorth milwrol tan 2024.

O fewn diwrnod i ymosodiad anghyfreithlon Rwsia ar Wcráin, trefnodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn gynhadledd i roddwyr rhyngwladol i ddarparu cymorth yr oedd ei angen ar frys i Wcráin – milwrol a dyngarol. Roedd y DU mewn sefyllfa dda i ddarparu cymorth milwrol i Wcráin oherwydd ers 2014, ar ôl i Rwsia gipio Crimea yn anghyfreithlon yn ogystal â thiriogaeth Wcráin yn rhanbarth Donbas, mae'r DU wedi bod yn cynnal Ymgyrch ORBITAL, yn hyfforddi lluoedd Wcráin ac yn datblygu eu galluoedd. Rydym yn parhau i addo ein cefnogaeth ein hunain yn genedlaethol, ac yn annog a galluogi dwsinau o wledydd eraill i wneud yr un fath, yn aml yn mewn ffordd gynnil. Ar 8 Chwefror 2023, llofnododd y Prif Weinidog a'r Arlywydd Zelenskyy, Ddatganiad Llundain. Roedd hyn yn ailddatgan ymrwymiad diwyro y DU i sofraniaeth a chyfanrwydd tiriogaethol Wcráin a'n cefnogaeth filwrol barhaus i Wcráin.

Mae ein cyfraniadau cenedlaethol wedi cynnwys arfau, amddiffyniad awyr a cherbydau arfog. Rydym wedi rhoi; cannoedd o gerbydau arfog a diogel; sgwadron o Danciau Challenger 2, gyda cherbydau adfer a thrwsio arfog i ddilyn; gynau AS90 155mm hunan-yredig, barod i'r frwydr, gyda mwy ar adegau amrywiol o barodrwydd ar gyfer ailgyflenwi a stocio wrth gefn; dros 10,000 o arfau gwrth-danciau (yn cynnwys tua 5,500 NLAW, a Javelin, Bimstone ac arfau gwrth-danciau eraill); nifer o Systemau Lansio Rocedi ac arfau; chwe cherbyd Stormer gyda lanswyr Starstreak wedi'u gosod arnynt; miloedd o daflegrau daear i'r awyr, yn cynnwys Starstreak, a thaflegrau amddiffyn awyr pellter canolig, yn cynnwys AMRAAM; dros 2,000 o systemau awyr heb griw (yn cynnwys cannoedd o arfau awyr oediog); hofrenyddion Sea King; cerbydau logisteg; generaduron; ac offer cyfathrebu. Yn fwyaf diweddar, mae'r DU wedi darparu taflegrau pellter hir Storm Shadow o'r radd flaenaf, sy'n gallu 'taro'n ddwfn'.

Byddwn yn parhau i fod yn ddarparwr offer milwrol blaenllaw i Wcráin. Eleni, bydd ein cefnogaeth yn dod i gyfanswm o ryw £2.3 biliwn eto, gan gynnwys dros 360,000 o rowndiau o ffrwydron magnelaeth trwm; gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd o UAS strategol; a channoedd o daflegrau amddiffyn awyr ychwanegol.

Yn ystod haf 2022, sefydlodd y DU, gan weithio'n agos gyda phartneriaid rhyngwladol, y Gronfa Ryngwladol i Wcráin (IFU) – mecanwaith cyllido sy'n defnyddio cyfraniadau gan bartneriaid rhyngwladol i gaffael cymorth milwrol blaenoriaethol yn gyflym. Mae cyfraniadau o dros £770 miliwn wedi'u gwneud i'r IFU. Bydd y rhain yn sicrhau cyflenwad parhaus o gymorth milwrol – angheuol a heb fod yn angheuol – i Wcráin drwy gydol 2023 a thu hwnt. Ddechrau 2023, cytunodd y DU, ochr yn ochr â'n partneriaid rhyngwladol, ar y pecyn gallu IFU cyntaf. Roedd y pecyn yn cynnwys galluoedd hanfodol ar ffurf amddiffyn awyr, systemau awyr heb griwiau, gwybodaeth forol, gwyliadwriaeth a rhagchwilio, a darnau sbâr ar gyfer offer, gan gynnwys tanciau Wcráin. Bydd nifer o becynnau galluogrwydd yn cael eu cytuno drwy ail Rownd Cynigion Brys; cytunwyd ar y cyntaf o'r pecynnau hyn, a oedd yn canolbwyntio ar amddiffyn awyr, ym mis Mehefin 2023.

# Pennod 6:

# Ymgyrchu a Chystadleuaeth Fyd-eang

**1.** Bydd bob amser yn ofynnol i amddiffyn weithredu ar draws y byd i ddiogelu ein buddiannau ni a buddiannau ein cynghreiriaid. Mae actorion sy'n herio ein buddiannau mewn un rhanbarth, yn ddieithriad yn ein herio ledled y byd.

**2.** Nid ydynt ychwaith yn herio'r DU yn unig. Rydym wedi gweld parodrwydd actorion i ddefnyddio'r holl ysgogiadau pŵer gwladwriaethol, gan gynnwys trais a gorfodaeth, i gyflawni rôl o reoli a dadsefydlogi'r drefn ryngwladol agored sy'n cynnal cymdeithas fyd-eang. Maent yn tanseilio sofraniaeth ac ymreolaeth cenhedloedd, yn creu ansefydlogrwydd, yn bygwth masnachu, ac yn herio diogelwch dynol.

**3.** Mae ein dull ymgyrchu yn llywio'r ffordd rydym yn ymateb i'r heriau hyn yn yr Ewro-Iwerydd ac ar draws y byd. Er ein bod wedi nodi yn y bennod flaenorol ein hail-fuddsoddiad yn ein grym ymladd drwy lens ei gyfraniad yn bennaf at NATO, mae'r grym hwnnw'n dal i fod yn sail i'n pŵer caled yn y byd y tu hwnt hefyd. Mae ein cludwyr awyrennau, er enghraifft, wedi ymrwymo i NATO yn ystod y pedwar mis ar hugain diwethaf yn ogystal â chael eu defnyddio yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel i gyfrannu at nodau polisi tramor eraill y DU yn y rhanbarth hwnnw.

## Beth yw dull ymgyrchu?

**4.** O ystyried y sefyllfa o ran bygythiadau sy'n newid, byddwn nawr yn datblygu ymrwymiad DCP21 i ymgysylltu'n barhaus â **dull ymgyrchu byd-eang** yn erbyn y bygythiadau gan weithredwyr gwladwriaethol ac anwladwriaethol. Bydd ein dull gweithredu yn cael ei alluogi gan gyllideb benodol, sy'n ein galluogi i ymateb yn gyflym a manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt ddod i'r amlwg. Gyda'i gilydd, bydd y gyllideb weithredol bwrpasol hon, meddylfryd ymgyrchu sy'n defnyddio'r holl adnoddau Amddiffyn, ffocws cynyddol ar gynhyrchiant (fel y nodir ym Mhennod 4), a datblygu timau o 'arbenigedd y gellir ei allforio', yn ein galluogi – erbyn 2030 – i ddyblu'r effaith yr ydym yn ceisio ei chael yn y byd.

**5.** Gan ganolbwyntio ar weithredwyr bygythiadau, a'r rhwystrau y maent yn eu cyflwyno i'r DU o ran cyflawni ei hamcanion diogelwch cenedlaethol, mae ymgyrchu'n ffordd drefnus a gweithredol o gyflawni ein nodau. Mae dull ymgyrchu yn dwyn ynghyd holl adnoddau Amddiffyn – nid milwrol yn unig, ond hefyd gwybodaeth, economaidd ac amddiffyn diplomyddol – ar y cyd â'r Llywodraeth ehangach, elfennau o'r sector preifat, a gyda'n cynghreiriaid a'n partneriaid, i fynd i'r afael â'r bygythiadau diogelwch mwyaf dybryd sy'n ein hwynebu. Mae'n cynrychioli ein dull gweithredu integredig ar gyfer ataliaeth.

**6.** Mae ein dull gweithredu yn mynnu bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystyried y cyd-destun ehangaf, yn cydnabod sut mae gweithgareddau'n ategu ei gilydd, a gweithgarwch adnoddau sy'n cyfrannu at amcanion yr ymgyrch. Mae'n canolbwyntio ar allbynnau yn hytrach na mewnbynnau ac



mae'n gwerthfawrogi bod cysylltiad annatod rhwng hyfforddiant a masnachu, bod cydweithio o ran gwybodaeth a gallu yn rhan lawn o'r tapestri effaith fel partneriaid gweithredol.

**7.** Mae ymgyrchu'n cydnabod bod pob gweithred gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael effaith gyfathrebol. Mae popeth a wnawn, neu nad ydym yn ei wneud, yn cyfleu neges a fydd yn cael ei gweld yn wahanol gan lu o gynulleidfaoedd targed, boed yn gyfeillgar, yn niwtral neu'n elyniaethus; gartref a thramor. Mae ymgyrchu'n hybu buddiannau'r genedl drwy ddefnyddio Amddiffyn fel ffordd o gyfathrebu i ddylanwadu ar agweddau, credoau ac ymddygiad cynulleidfaoedd.

## Sut ydyn ni'n ymgyrchu?

**8.** Mae ymgyrchu'n digwydd drwy Amddiffyn, o lefel strategol, drwy'r gweithredol, i gyflawni tactegol. Mae adnoddau Amddiffyn yn eang: ein pobl – gweision sifil a staff y lluoedd arfog; ein diwylliant a'n hethos – cynhwysol, amrywiol a deinamig; ein technoleg sy'n arwain y byd a'n gallu arloesol – yn fwy angheuol, integredig a deinamig nag erioed o'r blaen; ein rhwydwaith byd-eang o adrannau a hybiau Amddiffyn a'n gallu i reoli prosiectau; ein hintegreiddio â diwydiant; a'n cynghreiriaid a'n partneriaid, yr ydym yn eu hyfforddi ac yn bartneriaid â hwy, y byddwn yn dysgu ganddynt, ac yn allforio iddynt. Er mwyn llwyddo, byddwn yn dod â'r holl adnoddau Amddiffyn at ei gilydd yn ein meddylfryd ymgyrchu. Bydd ein hymgyrchoedd yn ymgorffori **integreiddiad aml-faes**.

**9.** Mae'r **Rhaglen Gweithredu Byd-eang** yn llywio ein dull gweithredu, gan osod y signal galw ar gyfer ein hymgyrchoedd. Mae'n disgrifio'r effeithiau y byddwn yn eu cyflawni gan ddefnyddio'r holl adnoddau Amddiffyn a sut y byddwn yn gweithio gyda gweddill y Llywodraeth a'n cynghreiriaid a'n partneriaid i fynd i'r afael â'r rhwystrau i'n diogelwch cenedlaethol a chyflawni ein canlyniadau strategol. Mae'n cynnig dewis o gamau gweithredu, dewis o ran neges a phartneriaid i fynd i'r afael â'r heriau. Bydd y Rhaglen Gweithredu Byd-eang yn trefnu rhwng ymgyrchoedd, gan gydbwyso pwysau ymdrech, sicrhau'r effaith fwyaf bosibl a sicrhau effaith ystyrlon.

**10.** Bydd ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar ymgyrchoedd wedi'u teilwra sy'n ein helpu i atal, amddiffyn a chystadlu er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau mwyaf sylweddol rydym yn eu hwynebu. Mae'r **timau ymgyrchu** yn trefnu ac yn cydlynu gweithgarwch Amddiffyn er mwyn i ni fod yn fwy effeithiol na swm ein rhannau. Gan allu manteisio ar arbenigedd thematig a daearyddol, mae timau ymgyrchu yn defnyddio ein holl alluoedd i herio gweithgarwch malaen ar draws rhanbarthau a pharthau. Maent yn edrych yn hirdymor, gan gynllunio i lunio gweithgarwch yn y dyfodol yn ogystal â gosod gofynion ar gyfer datblygu gallu a chydbwyso dewisiadau buddsoddi. Maent yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf difrifol nawr ac yn diogelu rhag risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau posibl yn y dyfodol.

**11.** Bydd ein dull ymgyrchu yn seiliedig ar ddata a digideiddio. Bydd **ymgyrchu strategol sy'n seiliedig ar ddata** yn gwella ein penderfyniadau, yn galluogi gorchymyn ymgyrchoedd, yn llywio tueddiadau a chyfleoedd ac yn caniatáu i'r Weinyddiaeth Amddiffyn feddwl yn y tymor hir ond gweithredu nawr. Mae'n galluogi'r

Weinyddiaeth Amddiffyn i gael gwell dealltwriaeth, mewnwelediad a rhagolygon, cymhathu a chyflwyno data i sicrhau'r effaith fwyaf posibl.

## Llu Ymateb Byd-eang

**12.** Mae'r gallu i '**gyrraedd yno yn gyntaf**' – boed hynny oherwydd ein bod yn bresennol yn barod, neu oherwydd ein bod yn gallu gweithredu'n gyflym – yn rhan bwysig o'n gallu i atal yn Ewrop a thu hwnt gan fod yr amgylchedd diogelwch byd-eang wedi esblygu o fod yn gystadleuol i fod yn ddadleuol. Mae lluoedd grym arnom sy'n gallu ymateb yn fyd-eang, yn gyflym, gan ddefnyddio galluoedd ar draws y pum maes, a chydlynu ein hallbynnau byd-eang, er mwyn cyflawni cenhadaeth Amddiffyn.

**13.** Felly, byddwn yn creu **Tasglu Ymateb Byd-eang (GRF)** Amddiffyn, gan ddod â'n lluoedd a ymfyddinwyd a'n lluoedd parodrwydd-uchel at ei gilydd, a defnyddio galluoedd o bob rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym mhob maes. Bydd yn cael ei optimeiddio ar gyfer effaith gyflym, fyd-eang i ymateb i argyfwng, dangos grym ac ymgyrchu'n barhaus. Fel tasglu ar draws pob maes, bydd yn darparu ymatebion hyblyg a dewis strategol i ddelio â heriau sy'n dod i'r amlwg, yn unrhyw le yn y byd.

## Presenoldeb Parhaus

**14.** Mae ymgyrchu'n effeithiol, lleoli rhag blaen a phresenoldeb parhaus yn dal yn bwysig, gan ein helpu i ddeall yr amgylchedd diogelwch byd-eang, synhwyro bygythiadau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, bod yn barod i weithredu, a dysgu gwersi ac addasu ein dull gweithredu. Mae ein presenoldeb parhaus yn rhan annatod o'n ataliaeth drwy wadu ac mae'n cyfrannu at allu'r DU i ddangos pŵer meddal. Bydd ein dulliau ymgyrchu a'n gweithgareddau a amlinellir isod yn ein helpu i ragweld, atal, lleihau a datrys gwrthdaro'n well.


**15.** Drwy drosglwyddo arweinyddiaeth y **Rhwydwaith Amddiffyn Byd-eang Integredig** i Orchymyn Strategol, gallwn



Brigâd ymosodiadau awyr 16 yn ymarfer ar Draeth Pen-bre

# Rhwydwaith Byd-eang Amddiffyn:

Mae'r graffig yn darlunio rhwydwaith generig



**Mae 10,000 o swyddogion cadw heddwch y flwyddyn yn cael hyfforddiant gan Dîm Cefnogi Heddwch Prydain (Affrica)**

**Y cyfrannwr ariannol pumed-mwyaf at gadw heddwch y Cenhedloedd Unedig**

**Staff Amddiffyn Prydain**

**8**

# Pobl, lleoedd a thechnoleg





**89**

**o Attachés Amddiffyn a Chynghorwyr Amddiffyn**

**Hybiau Byd-eang**

**5**

1 Y Gwlff
2 Gorllewin Affrica
3 Dwyrain Affrica
4 Asia a'r Môr Tawel
5 Dwyrain Ewrop
6 Oceania
7 Ffrainc
8 UDA

1 Cyprus
2 Gibraltar
3 Yr Almaen
4 Oman
5 Kenya



**Mae Attachés Amddiffyn wedi'u hachredu mewn 136 o wledydd**

fanteisio ymhellach ar bŵer cyfuniadau, integreiddio safleoedd tramor, Attachés Amddiffyn, swyddi cyswllt a gwasanaeth benthyca, a rhwydweithiau alumni, i gyd yn cael eu galluogi gan well cysylltedd a defnyddio data. Bydd y rhwydwaith hwn o 'bobl, lleoedd a thechnoleg' yn rhoi mantais sy'n ein helpu i ddiogelu'r genedl o fewn cyrraedd yn yr Ewro-Iwerydd ac ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel, yn ogystal ag Affrica, y Gwlff a rhanbarthau critigol eraill, drwy well perthnasoedd a gwell gallu i synhwyro a deall.

**16.** Ar hyn o bryd, mae ein **Attachés Amddiffyn** wedi'i leoli ar 89 platfform Llysgenhadaeth y DU ar wahân, ac wedi'u hachredu mewn 136 o wledydd gwahanol. Ein nod yw tyfu ein rhwydwaith byd-eang o Staff Amddiffyn Prydain ac Attachés Amddiffyn yn raddol wrth i adnoddau ddod ar gael ac yn unol ag amcanion y Llywodraeth ac Amddiffyn. Mae chwe lleoliad Attaché Amddiffyn newydd wedi cael eu hagor yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Byddwn yn proffesiynoli ac yn gweithredu'r rhwydwaith ymhellach er mwyn sefydlu ffrwd yrfa sydd wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Staff y Lluoedd Arfog a chreu llif o dalent sy'n arfogi ein rhwydwaith â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer ymgyrchu byd-eang. Byddwn yn darparu hyfforddiant 'ffyniant' wedi'i dargedu i'n Attachés Amddiffyn i gryfhau'r gallu ym maes gwaith amddiffyn.

**17.** Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein **Hybiau Byd-eang** yng Nghyprus, Gibraltar, yr Almaen, Oman a Kenya. Mae gennym gyfleusterau morol pwrpasol yn Bahrain ac




Criw o HMS Lancaster yn rhyng-gipio daliad yr amheuir ei fod yn cynnwys arfau anghyfreithlon oddi ar Gwlff Oman



rydym yn datblygu hyb strategol amddiffyn yn Oman: mae'r rhain yn darparu llwyfan y gallwn ei ddefnyddio i gyflwyno asedau a chynyddu gweithrediadau hyfforddi gyda phartneriaid ar draws Cefnfor India yn fwy aml. Mae ein hyb strategol yn Kenya yn darparu angor rhanbarthol ar gyfer hyfforddi a meithrin gallu ar draws y rhanbarth, gan ategu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â bygythiadau ar y cyd fel terfysgaeth yn rhanbarth Horn Affrica. Mae'r hybiau hyn, a'n canolfannau a'n cyfleusterau cymorth tramor eraill, yn darparu presenoldeb Amddiffyn mewn rhannau pwysig o'r byd. Maen nhw'n gweithredu fel sbringfwrdd i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gyflawni prosiectau'n fyd-eang, gan ddarparu mynediad hanfodol i'n lluoedd arfog, partneriaid yn y Llywodraeth a'n cynghreiriaid, ac maen nhw'n hanfodol er mwyn i ni allu mynd i'r afael â bygythiadau nawr ac yn y dyfodol. Bydd buddsoddi yn ein hybiau yn galluogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gefnogi galluoedd y genhedlaeth nesaf ar draws pob un o'r pum maes.

**18.** Byddwn yn parhau i gynnal presenoldeb yn y Tiriogaethau Tramor, o gynnal garsiwn yn **Ynysoedd y Falkland** yn Ne'r Iwerydd, i leoli llongau'n barhaol yn y Caribî ac ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel, gan atal bygythiadau i'r Tiriogaethau Tramor a thrwy ddarparu cymorth dyngarol a chymorth thrychinebau (HADR) pan fo angen.

## Cadw heddwch

**19.** Mae'r DU, y cyfrannwr ariannol pumed-mwyaf at gadw heddwch y Cenhedloedd Unedig, yn chwarae rhan flaenllaw yn y Cenhedloedd Unedig a diwygio ymdrechion: drwy ariannu datblygiad polisi, rhoi staff mewn swyddi dylanwadol, a lobïo i ddenu cyfraniadau gan eraill. Mae hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy ein gweithgaredd adleoli ein hunain; mae'r DU yn cyfrannu tua 285 o staff Amddiffyn at ymgyrchoedd cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig, ar draws saith ymgyrch unigol. Mae hyn yn cynnwys darparu 260 o staff i'r ymgyrch cadw heddwch yng Nghyprus (UNFICYP), gan chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gynnal sefydlogrwydd yr ynys; a deg yn Somalia. Rhwng 2020 a dechrau 2023, cyfrannodd y DU hefyd 250 o aelodau Grŵp Rhagchwilio Pellter Hir i'r ymgyrch cadw heddwch ym Mali (MINUSMA). Roedd hyn wedi gwella ein henw da am berfformiad mewn theatr yn sylweddol ac wedi gwella darpariaeth gyffredinol MINUSMA, gan ddangos prawf o gysyniad ar gyfer ein gweledigaeth o gadw heddwch yn rhagweithiol.

**20.** Mae'r DU hefyd yn enwog am yr hyfforddiant y mae'n ei ddarparu i luoedd cadw heddwch gwledydd eraill, gan gynnwys hyfforddiant cyn adleoli a datblygu capasiti arbenigol ac uchel ei effaith mewn meysydd fel gwrth-IED, meddygol a gwybodaeth cadw heddwch. Mae 10,000 o swyddogion cadw heddwch y flwyddyn yn cael hyfforddiant drwy Dîm Cefnogi Heddwch Prydain (Affrica), sydd wedi'i leoli yn Kenya. Mae'r DU nawr yn awyddus i wella ei hyfforddiant, gan gynnwys drwy edrych ar y posibilrwydd o hyfforddwyr o Brydain yn mynd â milwyr partneriaid i'r theatr i ddarparu mentora parhaus; mae gwaith i ddatblygu cynllun peilot yn mynd rhagddo.

## Meithrin gallu a gwytnwch ein partneriaid

**21.** Mae sefydliadau terfysgol – gan gynnwys Al Shabaab a Daesh – yn parhau i fod yn bryder difrifol ar draws ymylon rhanbarth Euro-Iwerydd, yn enwedig yn Affrica a'r Lefant. Mae ein gallu i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol ac ochr yn ochr â nhw yn hanfodol er mwyn atal a gwrthsefyll gweithredwyr o'r fath a helpu i gefnogi sefydlogrwydd rhanbarthol. Mae ein **darpariaeth addysg, hyfforddiant ac adeiladu capasiti amddiffyn** sy'n arwain y byd i'n partneriaid ar draws y byd yn gyfraniad sylweddol at bŵer meddal y DU: mae'n adeiladu, yn cryfhau ac yn cynnal partneriaethau hirhoedlog; mae'n gwella'r gallu i ryngweithredu ac integreiddio o'r lefel strategol i'r tactegol; ac mae'n rhoi hwb i wytnwch ein partneriaid, ac yn eu helpu i atal, amddiffyn a chystadlu yn eu rhanbarthau eu hunain. Mae hyn yn eu paratoi'n well i ddiogelu eu gwledydd rhag grwpiau eithafol a dylanwadau niweidiol eraill, gan leihau'r risg i fuddiannau Prydain dramor.

**22.** Yn Affrica, byddwn yn cefnogi llais Affrica ar faterion diogelwch gan gynnwys drwy hyrwyddo'r mantra o atebion dan arweiniad Affrica i broblemau Affrica. Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned ryngwladol a'r Cenhedloedd Unedig i rannu baich, ac i hyrwyddo democratiaeth a system ryngwladol agored a sefydlog. I ddangos ein hymrwymiad parhaus i ddiogelwch Gorllewin Affrica, byddwn yn cefnogi ymdrechion ein partneriaid i ddod â sefydlogrwydd i ranbarth **Sahel** a'r gwladwriaethau arfordirol. Byddwn yn parhau i feithrin partneriaethau diogelwch morol ar draws **Gwlff Guinea**, byddwn yn gwella ein perthynas ddwyochrog â **Ghana**, a byddwn yn dyfnhau ein cydweithrediad â **Nigeria**. Mae ein hyb strategol yn **Kenya** yn darparu angor rhanbarthol ar gyfer hyfforddi a meithrin gallu ar draws y rhanbarth, gan ategu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â bygythiadau cyffredin fel terfysgaeth sy'n deillio o Somalia a rhanbarth ehangach Horn Affrica.


**23.** Er bod rôl bwysig o hyd ar gyfer perthnasoedd dwyochrog, byddwn hefyd yn parhau i fod yn ymrwymedig berthnasoedd amlochrog a mânochrog ('minilateral'). Gall partneriaethau dwyochrog gynhyrchu hyd yn oed mwy o werth o'u cyfuno, a phan welir materion drwy lens strategol a rhanbarthol ehangach. Felly, byddwn yn gweithio i helpu i ddatblygu sylfeini sefydliadau rhanbarthol sy'n hanfodol i sefydlogrwydd hirdymor fel yr **Undeb Affricanaidd** a **Chymunedau Economaidd Rhanbarthol**. Byddwn yn hyrwyddo perthnasoedd amlochrog i feithrin mwy o ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid, fel y dangosir drwy ein cefnogaeth i Gynllun Accra – yr ateb dan arweiniad Affrica i fynd i'r afael â lledaeniad trais gan y Sahel. Bydd ein nifer cynyddol o bartneriaethau pwysig yn darparu sylfaen ar gyfer cydweithredu a all arwain at atebion ymarferol, rhanbarthol i broblemau cymhleth.

**24.** O ystyried y risg barhaus a achosir gan sefydliadau terfysgol a phrocsis gwladol yng Ngogledd Affrica, byddwn hefyd yn parhau i gydnabod pwysigrwydd strategol ein partneriaid yno, yn enwedig yr **Aifft, Moroco ac Algeria**.

**25.** Mae ein hymrwymiad i **gefnogi cydnerthedd a diogelwch gwladwriaethau sofran** yn berthnasol p'un a ddaw'r bygythiad gan sefydliadau terfysgol neu gan weithredwyr gwladwriaethol. Yn yr Ewro-



## Adnoddau Amddiffyn



Iwerydd, mae Rwsia eisoes wedi dangos parodrwydd i herio sofraniaeth ei chymdogion yn y Balcanau a'r Cawcasws, fel **Moldova a Georgia.** Rydym wrthi'n cefnogi gwledydd yn rhanbarth y Balcanau Gorllewinol – rhanbarth strategol bwysig ar gyfer diogelwch Ewropeaidd – i wneud cynnydd tuag at werthoedd democrataidd a mwy o integreiddio Ewro-Iwerydd, gan gynnwys drwy feithrin cadernid yn eu sefydliadau amddiffyn a diogelwch. Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i KFOR, ymgyrch NATO yn **Kosovo**, a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth amddiffyn dwyochrog i Luoedd Arfog **Bosnia a Herzegovina**. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgyrch sefydlogi heddwch yr EUFOR yn Bosnia a Herzegovina a byddwn yn edrych ar y ffordd orau o gefnogi'r fenter hon. Byddwn yn parhau i feithrin ein partneriaethau â Chynghreiriaid NATO yn y rhanbarth fel Albania, Montenegro a Gogledd Macedonia.

**26.** Bydd Amddiffyn yn parhau i chwarae rhan hanfodol o lunio polisi a chyflawni'r Gronfa Diogelwch a Sefydlogrwydd Gwrthdaro (CSSF) wrth iddi esblygu i fod yn **Gronfa Diogelwch Integredig y DU** (ISF). Yn unol â blaenoriaethau'r IRR, byddwn yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd o dan y Gronfa i fynd i'r afael â gwrthdaro, ansefydlogrwydd ac ansicrwydd dramor, gan gynnwys o fygythiadau trawsgenedlaethol, hybrid a gwladwriaethol. Bydd yr ymdrechion hyn yn cael eu hintegreiddio ar draws y Llywodraeth i sicrhau'r effaith fwyaf.

**27.** Mae llawer o feysydd lle mae gan Amddiffyn y DU arbenigedd sy'n cael ei barchu'n eang ledled y byd, a lle gofynnir am ein cyngor yn aml. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel seiber, gwyddoniaeth a thechnoleg, meddwl academaidd a chysyniadol, a datblygu strategaethau. Yn yr holl feysydd hyn, byddwn yn mynd ati'n fwriadol i **ddatblygu arbenigedd y gellir ei allforio**: gweision sifil, swyddogion milwrol ac arbenigwyr eraill a ddewiswyd, sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n barod i'w lleoli i rannu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad, yn ogystal â dysgu gwersi gan ein partneriaid, a rhannu arferion gorau. Felly, byddwn yn sefydlu tri thîm penodol o arbenigwyr y gellir eu defnyddio i gefnogi partneriaid. I ddechrau, bydd timau'n darparu arbenigedd seiber, canllawiau galluogrwydd, a strategaeth amddiffyn a chyngor cynllunio. Bydd hyn yn galluogi Amddiffyn i gynhyrchu a rhannu mantais strategol yn rhagweithiol gyda'n partneriaid ledled y byd.

## Allforion Amddiffyn

**28.** Mae allforion amddiffyn, a chydweithio o ran gallu rhyngwladol yn fwy cyffredinol, yn cynnig llawer mwy o fanteision na chynhyrchu incwm syml i gwmnïau amddiffyn. Gall allforion amddiffyn hefyd gyfrannu at y canlynol:

- Hyrwyddo amcanion polisi strategol y Llywodraeth, gan gynnwys drwy adeiladu a chryfhau cynghreiriau a phartneriaethau diogelwch hirdymor; gwadu cyfleoedd gwleidyddol ac economaidd i wrthwynebwyr a chystadleuwyr; a gwella sefydlogrwydd rhanbarthol a chynnal trefn agored ryngwladol.
- Buddion termau real i'r Weinyddiaeth Amddiffyn drwy: rannu baich a chyd-ddatblygu gyda phartneriaid rhyngwladol; cynnal llinellau cynhyrchu a sgiliau ar y tir; cynyddu buddsoddiad mewnol mewn ymchwil a datblygu, S&T, arloesedd, a

galluoedd newydd; a chael mynediad at arbenigedd pobl eraill.

- Adeiladu diwydiant amddiffyn cadarn yn y DU sydd â set amrywiol o gwsmeriaid a chynhyrchion; sy'n gallu gwrthsefyll ymadawiad neu danberfformio gan unrhyw actor unigol; sy'n gallu buddsoddi yn ei weithlu yn y DU mewn ymateb i ofynion sy'n newid; ac sydd â'r gallu i gynhyrchu mewn ymchwydd, sy'n ymateb i newidiadau cyflym yn y galw. Bydd prosesau caffael cyflymach yn ysgogi cyflymder i'r farchnad ac yn rhoi hwb i allforio; yn ei dro, bydd hybu allforio yn cynyddu'r galw cyfun ac yn adfer allbwn diwydiannol; yn ei dro bydd hyn yn helpu i ailgyflenwi'r stoc: ein stoc ni ein hunain a'n Cynghreiriaid'.

**29.** Rydym yn benderfynol o gynnal ein henw da yn fyd-eang fel un o brif gynhyrchwyr galluoedd ac offer amddiffyn, wedi'i ategu gan ein gweithlu medrus, a'n seilwaith a'n sectorau datblygu ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg sy'n arwain y byd. Byddwn yn parhau i ddenu cwmnïau sydd wedi'u lleoli dramor i fuddsoddi yn y DU, neu i symud rhannau o'u busnesau i'r DU. Byddwn hefyd yn parhau i integreiddio ein dull o allforio gyda chydweithrediad rhyngwladol, mentrau ar y cyd, a buddsoddiad tramor.

**30.** Er mwyn cynyddu allforion amddiffyn, byddwn yn:

- Mabwysiadu dull hirdymor o ymdrin â marchnadoedd allforio, gan gydnabod bod angen ymgysylltu'n barhaus ac yn strategol ynghylch allforion amddiffyn, yn aml dros flynyddoedd lawer. Byddwn hefyd yn mynd ati'n fwy gweithredol i gynnal ac uwchraddio cyfleoedd sy'n deillio o werthiant allforion sylweddol. Mae'r cyfleoedd hyn nid yn unig yn darparu cyfle i greu refeniw pellach, ond hefyd y potensial i gryfhau perthnasoedd strategol hirdymor gyda phartneriaid tramor – yn enwedig lle mae'r Llynges Frenhinol, Byddin Prydain a'r Llu Awyr Brenhinol yn draddodiadol yn llynges, byddin neu awyrlu gyfeiriol.
- Rhoi premiwm ar allforio o ran datblygu a dethol gallu drwy ei wneud yn ffactor hanfodol yn y broses gaffael. O'r cychwyn cyntaf, bydd gwerth allforio'r gallu dan sylw yn cael ei asesu a, lle mae potensial, bydd yn cael ei rannu ar y cam cynnar hwn gyda'r Adran Busnes a Masnach. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i noddwyr gallu ystyried gwerth allforio ac asesu cyfleoedd yn y farchnad ar bwyntiau penderfynu allweddol mewn rhaglenni. Byddwn yn cyflwyno meddylfryd 'caffael i allforio', gan sicrhau diogelwch technoleg priodol ar yr un pryd. Bydd rhoi mwy o flaenoriaeth i allforio nid yn unig yn cynnwys ein prif raglenni allforio, ond bydd hefyd yn cynnwys galluoedd swmp-uchel, elw-isel hefyd: 'cystadlu am stocrestr'. Yn gryno, bydd gwerth allforio yn dod yn rhan o DNA ein proses gaffael.
- Mabwysiadu agwedd o ymgyrchu tuag at allforion. Byddwn yn datblygu'r mecanweithiau ar draws y Llywodraeth gyfan i gefnogi hyn, gan gynnwys ailsefydlu Grŵp Rhyngweinidogol Allforion Amddiffyn i ysgogi blaenoriaethau a chynnal ymgysylltiad uwch – gan ddefnyddio Gweinidogion, uwch swyddogion a chenhadon masnach – mewn ymgyrchoedd allweddol. Byddwn yn gweithio gydag Allforion Amddiffyn a Diogelwch y DU (UKDSE) i gydlynu adnoddau ar draws y Llywodraeth,

gan ddod â nhw i mewn yn gynharach a rhannu data, fel bod gwybodaeth UKDSE am gyfleoedd yn y farchnad fyd-eang a gofynion perthnasol yn cefnogi ystyriaethau allforio.

- Manteisio ar gryfderau'r DU yn y sector Technoleg Amddiffyn, gan gynnwys Rhyfela Electronig a gwrth-UAS. Byddwn yn dwysáu'r gefnogaeth i ymgyrchoedd allforio allweddol lle ceir cyfle amlwg yn y farchnad fyd-eang, gan gynnwys cwmnïau arloesol yn y DU nad yw eu cynnyrch o bosibl yn rhan o stocrestr y Weinyddiaeth Amddiffyn ei hun.
- Cyflymu'r gwaith o gyflwyno fframweithiau Llywodraeth-i-Lywodraeth ar gyfer cynghreiriaid a phartneriaid allweddol i gefnogi cydweithio ac allforio galluogrwydd. Mewn rhai achosion, bydd y rhain yn gofyn am Swyddfeydd Partneriaethau Amddiffyn parhaus, i oruchwylio'r gwaith o ddarparu partneriaethau gallu strategol. Byddwn yn sefydlu swyddfa newydd i gydlynu blaenoriaethau traws-Lywodraethol ac arferion gorau, gan gysylltu cyfleoedd allforio amddiffyn ag amcanion strategol ehangach.

# Pennod 7:

# Cryfder drwy ein partneriaethau

**1.** Nid yw'r DU yn debygol o weithredu ar ei phen ei hun mewn byd rhyng-gysylltiedig. Felly, mae angen dull cydweithredol i wrthsefyll bygythiadau niweidiol yn effeithiol ac yn gynaliadwy a chefnogi sefydlogrwydd byd-eang, drwy rannu baich sy'n cefnogi ei gilydd: roedd y bennod flaenorol yn tynnu sylw at ein partneriaethau gwerthfawr yn Affrica, y Lefant a mannau eraill. Mae'r DU yn cael ei chydnabod am ei rôl fel pŵer cynnull ac mae cryfder ein Rhwydwaith Amddiffyn yn cael ei werthfawrogi gan ein cynghreiriaid a'n partneriaid. Mae cysylltiadau byd-eang y DU yn cynnig cyfleoedd i lunio a dylanwadu ar yr amgylchedd strategol. Drwy ein safiad a'n presenoldeb parhaus o amgylch y byd, rydym yn cael effaith ataliol, gan herio'r gofod y byddai ein gwrthwynebwyr fel arall yn ceisio'i lenwi, ac rydym mewn gwell sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd.

**2.** Bydd amrywiaeth eang o gysylltiadau a deialog – gan gynnwys gyda'r rheini a allai fygwth ein buddiannau – yn helpu i feithrin sefydlogrwydd strategol, tryloywder a gwell dealltwriaeth y naill ffordd a'r llall. Bydd hyn yn cefnogi llwybrau ar gyfer dad-ddwysáu pan fo angen, a dull gweithredu wedi'i adnewyddu (a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r FCDO) i reoli arfau a gwrth-ledaenu sy'n ategu ein ataliaeth a'n safiad amddiffyn.

## Cynghreiriaid a Phartneriaid Ewro-Iwerydd

**3.** Mae gallu di-dor i ryngweithredu â'n cynghreiriaid agosaf – yn enwedig drwy nawdd NATO – yn cael effaith enfawr. Yr **Unol Daleithiau** yw, ac a fydd, partner dwyochrog mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer diogelwch, amddiffyn a pholisi tramor. Mae cryfder cyfun ein perthynas nid yn unig yn hanfodol i ddiogelwch y DU, ond hefyd i'r Ewro-Iwerydd ehangach, a'r byd. Yn unol â Datganiad yr Iwerydd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, byddwn yn parhau i gydweithredu â'n cynghreiriaid pwysicaf, er mwyn iddo barhau i fod y mwyaf dwfn, eang a mwyaf datblygedig rhwng unrhyw ddwy wlad yn y byd. Byddwn yn parhau i gynnal galluoedd hanfodol USAF ar diriogaeth y DU. Byddwn yn parhau i ddyfnhau ein partneriaethau ar draws meysydd, ar weithrediadau, drwy bartneriaethau ar y cyd ar ymchwil a datblygu, ac yn y genhedlaeth nesaf o allu yn y gofod a gallu seiber. Rydym yn cydnabod bod yr Unol Daleithiau yn arwain y byd mewn llawer o feysydd, ond er mwyn aros ar y blaen i'n gwrthwynebwyr, mae ein cryfder cyfunol ar y cyd hyd yn oed yn fwy.

**4.** **Ffrainc** yw cyfaill Ewropeaidd agosaf y DU. Roedd Cytundeb Tŷ Caerhirfryn yn 2010 yn gosod sylfaen barhaus ar gyfer ein cydweithrediad, drwy greu Llu Ymgyrchol ar y Cyd y DU-Ffrainc (CJEF). Byddwn yn gweithio'n agos i hyrwyddo diogelwch rhyngwladol a mynd i'r afael â heriau a rennir, gan gynnwys drwy harneisio'r potensial llawn i gyflawni effeithiau drwy'r CJEF. Yn Uwchgynhadledd y DU-Ffrainc ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom ymrwymo i wella ymhellach ein hintegreiddiad milwrol dwyochrog ac amlochrog presennol, yn enwedig drwy ein hymarferiadau tir ar y cyd drwy NATO. Gan adeiladu ar ein cydweithrediad yn yr Ewro-




Iwerydd, byddwn yn edrych ar gyfleoedd i Ffrainc a'r Deyrnas Unedig ddangos am y tro cyntaf drefn presenoldeb mwy parhaus y Grŵp Cludwyr Ymosod Ewropeaidd ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel. Byddwn yn archwilio datblygiad cynyddol cydweithio galluoedd milwrol ar y cyd, gyda phwyslais ar ryngweithredu a manteisio ar feysydd gwyddoniaeth a thechnoleg newydd. Byddwn hefyd yn gwella cydweithrediad diwydiannol drwy berthynas agosach o ran strategaeth ddiwydiannol. Byddwn yn parhau â'n deialog strategol, sy'n cwmpasu bron pob maes polisi, er mwyn sicrhau cysondeb. Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd o wella cydweithrediad â'r Unol Daleithiau a Ffrainc gyda'i gilydd – fel cynghreiriaid NATO ac Aelodau Parhaol Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig – **ar fformat P3**.

**5.** Rydym wedi ymrwymo o hyd i'n holl **Bartneriaid JEF** (Denmarc, Estonia, y Ffindir, Gwlad yr Iâ, Latfia, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden). Fel y dangoswyd gan y gwarantau diogelwch dwyochrog a lofnodwyd gyda'r **Ffindir a Sweden** y llynedd, byddwn yn parhau i sefyll ochr yn ochr â'n ffrindiau agosaf i amddiffyn ein gwerthoedd cyffredin a'n diogelwch ar y cyd. Rydym wedi dyfnhau ein partneriaeth â **Norwy** – partner hanfodol sydd wedi ymrwymo i ddiogelu Môr y Gogledd rhag ymosodiadau Rwsia – yn y maes morol, gan gynnwys galluoedd rhyfela gwrth-danforol ar y cyd ac i ddiogelu seilwaith cenedlaethol critigol o dan yr wyneb.

**6.** Mae ein hymrwymiad i'n partneriaid Baltig, ar ochr Ddwyreiniol y Gynghrair, yn parhau i fod yn ddiwyro. Mae gennym bartneriaeth arbennig o agos ag **Estonia**, drwy ein rhaglen Presenoldeb Rhag Blaen uwch (eFP). Ar 8 Tachwedd 2022, fe wnaethom lofnodi Trywydd Amddiffyn sy'n nodi ein cynllun ar y cyd i weithredu'r ymrwymiadau ar gyfer blaen-amddiffyniad Estonia a wnaed gan y DU yn Uwchgynhadledd NATO ym Madrid.



**7.** Yn y **Gogledd Uchel**, ein nod o hyd yw cynnal normau hanesyddol o densiwn isel a chydweithredu uchel, ond rydym yn barod i ymateb i'r ddeinameg ranbarthol newidiol sy'n deillio o iâ môr sy'n lleihau, sy'n creu mwy o gystadleuaeth a milwreiddio yn y rhanbarth. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ein Seilwaith Cenedlaethol Critigol a'n buddiannau cenedlaethol eraill, i sicrhau ein rhyddid i lywio a gweithredu ar draws y rhanbarth ehangach, i atgyfnerthu'r system ryngwladol agored, yn enwedig UNCLOS, ac i herio ymddygiad niweidiol ac ymddygiad ansefydlogi.

**8.** Mae'r **Almaen** yn parhau i fod yn un o'n cynghreiriaid agosaf o'r un anian. Rydym yn parhau i rannu gweledigaeth gyffredin i chwarae rhan flaenllaw ar y cyd yn NATO, yn enwedig o ran cefnogi ystlys ddwyreiniol NATO. Mae hyn wedi cael ei wireddu'n ddiweddar drwy ein gweithrediadau Plismona Awyr Baltig ar y cyd. Byddwn hefyd yn parhau i gryfhau ein partneriaeth ddiwydiannol amddiffyn ymhellach, yn enwedig yn y maes Tir, lle mae datblygu Boxer ar y cyd yn enghraifft wych o gydweithio ar allu offer. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Almaen i gynyddu ei gwariant Amddiffyn a byddwn yn cefnogi'r Almaen wrth iddi ddarparu ei buddsoddiad cynyddol yn ei Lluoedd Arfog. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn mynd ar drywydd datganiad gweledigaeth ar y cyd o'r newydd dros y flwyddyn nesaf a byddwn yn edrych fwyfwy ar weithio mewn partneriaeth â'r Almaen ar ymfyddino gweithredol.

**9.** Mae'r berthynas rhwng y DU a **Gwlad Pwyl** mor gryf ag y bu erioed. Gan adeiladu ar y sylfeini a ddarparwyd gan Gytuniad Amddiffyn y DU-Gwlad Pwyl 2017 a'n haelodaeth ar y cyd o NATO a'r Grŵp Gogleddol, dros y 18 mis diwethaf rydym wedi gweithio'n agos i ddarparu cymorth milwrol a hyfforddiant i Luoedd Arfog Wcráin. Mae Gwlad Pwyl wedi darparu cefnogaeth a chynhaliaeth hael i nifer o weithrediadau gan y DU yn ei thiriogaeth ac rydym wedi dyfnhau ein perthynas ddiwydiannol, er enghraifft drwy gontract diweddar Pilica+ gwerth £1.8 biliwn ar gyfer Amddiffyn Awyr ar y Tir (GBAD) pellter byr. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn sefydlu ein perthynas i gadarnhau ein dull gweithredu ar y cyd ar gyfer Wcráin, i sicrhau cynnydd ar brosiectau galluogrwydd fel Taflegryn Cyffredin y Dyfodol a rhaglen ffrigad Miecznik AH140, ac i hwyluso rhagor o ymfyddino ac ymarferion.

**10.** Mae **Twrci** yn bartner hollbwysig i'r DU, yn ogystal â phŵer rhanbarthol o bwysigrwydd cynyddol, sydd ar groesffyrdd tri chyfandir, yn un o gynghreiriaid NATO pwysig, ac aelod dylanwadol o'r G20. Byddwn yn ymrwymo i gryfhau ein perthynas Amddiffyn gref a pharhaus. Byddwn hefyd yn mynd ar drywydd mwy o gydweithio diwydiannol, yn enwedig yn y maes Awyr. Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y mae Twrci yn ei chwarae o ran cynnal diogelwch yn y Môr Du, gan gynnwys drwy Gonfensiwn Montreux.

**11.** Byddwn hefyd yn dyfnhau ein deialog strategol â'r gymdogaeth ehangach yn ardal Môr y Canoldir, fel rhan o'n hymrwymiad i **ddull gweithredu NATO 360° ar gyfer atal ac amddiffyn.** Rydym yn mwynhau perthnasoedd hirsefydlog â **Sbaen, Portiwgal a Gwlad Groeg**, ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd fel Cynghreiriaid a thrwy NATO, gan gynnwys drwy nodi meysydd newydd ar gyfer cydweithredu dwyochrog ar amddiffyn gan fod y DU wedi gadael yr UE, er enghraifft drwy'r Datganiad Gweledigaeth ar y Cyd a lofnodwyd yn ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Amddiffyn gyda Gwlad Groeg.

Mae ein perthynas â **Gweriniaeth Cyprus** yn parhau i fod yn hollbwysig. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn Ardaloedd Sylfaen y Sofran yn Cyprus, sef nod allweddol sy'n galluogi cyrhaeddiad byd-eang, a byddwn yn parhau i ddarparu presenoldeb i'r dyfodol yn Nwyrain Môr y Canoldir, sy'n strategol bwysig. Gyda'r **Eidal**, byddwn yn annog datblygu rhagor ar bartneriaethau cydweithredol yn y diwydiant amddiffyn. Mae hyn yn cael ei ddangos gan ein cydweithrediad hanesyddol a pharhaus yn y sector awyrennau ymladd ac arfau, a amlygwyd yn ddiweddar gan lansiad ein partneriaeth â Japan mewn perthynas â'r genhedlaeth nesaf o Awyrennau Ymladd dan y **Rhaglen Awyrennau Ymladd Byd-eang tairochrog (GCAP)**.

**12.** Byddwn yn parhau i gefnogi cydweithrediad a chydlyniad agos rhwng **NATO a'r UE**: bydd meysydd lle bydd angen cyfuno cryfderau ac offer gwahanol y ddau sefydliad. Er enghraifft, rydym yn cefnogi'r angen i archwilio dulliau cydategol o ymdrin â bygythiadau hybrid a chydnerthedd, y gofod, seiberofod a diogelwch morol. Rydym yn croesawu'r Datganiad ar y Cyd newydd ar Gydweithredu NATO-UE, a lofnodwyd ym mis Ionawr, a oedd yn cynnwys ymrwymiadau penodol i gydweithio'n agosach ar gystadleuaeth geostrategol, chydnerthedd, technolegau newydd a thechnolegau sy'n tarfu, ac ymyriant gwybodaeth dramor. Mae'n dal yn bwysig bod y Datganiad ar y Cyd yn cydnabod yr angen i amddiffyniad Ewropeaidd fod yn ategu NATO, ac yn rhyngweithredol gyda NATO – a'i fod yn galw am y cyfraniad mwyaf posibl gan Gynghreiriaid NATO o'r tu allan i'r UE i fentrau'r UE ac i'r gwrthwyneb. Bydd angen y cydweithrediad agos hwn arnom er mwyn amddiffyn diogelwch hirdymor Ewrop, yn enwedig wrth ddatblygu a chaffael technolegau amddiffyn i ailgyflenwi ein stociau wrth i ni barhau i gefnogi Wcráin.

**13.** Mae Fframwaith newydd Windsor yn creu sylfaen ar gyfer cysylltiadau cryfach rhwng y **DU a'r UE**. Bydd y DU yn defnyddio'r momentwm newydd yn y berthynas i ddatblygu mathau o gydweithredu uniongyrchol, fel rydym eisoes yn bwriadu ei wneud drwy brosiect PESCO ar symudedd milwrol. Rydym yn croesawu'r cyfle i gefnogi mentrau a gweithrediadau'r UE yn y dyfodol, yn enwedig pan fydd hyn yn ategu'r gweithrediadau presennol y mae'r DU yn cymryd rhan ynddynt. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithredu, cydlynu a gweithgarwch ategol gyda'r UE.

## Partneriaethau Iwerydd-Môr Tawel: Five Eyes, AUKUS, GCAP

**14.** Tynnodd yr IRR sylw at gryfder partneriaethau 'Iwerydd-Môr Tawel', ar sail barn ar y cyd bod cysylltiad anorfod rhwng ffyniant a diogelwch yr Ewro-Iwerydd ac ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel. Mae partneriaethau amddiffyn sy'n cwmpasu'r rhanbarthau yn arbennig o bwysig mewn amgylchedd o fygythiadau heriol. Ar draws Iwerydd-Môr Tawel, mae gan y DU bartneriaid y gall rannu, yn ddwyochrog ac yn amlochrog, y wybodaeth fwyaf sensitif gyda nhw – yn fwyaf arbennig drwy **Five Eyes** – ac y gall ddatblygu atebion technolegol a datblygiadau gwyddonol newydd ar y cyd â nhw, gan fanteisio ar arbenigedd pob gwlad. Mae partneriaethau newydd **AUKUS a GCAP** yn dangos ein hymrwymiad i **ddyfnhau'r berthynas rhwng rhanbarthau'r Ewro-Iwerydd ac ardal Cefnfor India a'r Môr**



Awyrennau ymladd Typhoon y Llu Awyr Brenhinol yn cyrraedd Awstralia ar gyfer ymarfer PITCH BLACK

**Tawel,** ac i wynebu bygythiadau'r dyfodol gyda'n gilydd.

**15.** Mae partneriaeth **Five Eyes** yn enghraifft o ymddiriedaeth ddofn, ymrwymiad ar y cyd a gwerthoedd cyffredin Awstralia, Canada, Seland Newydd, y DU a'r Unol Daleithiau. Bydd y DU yn gweithio ar draws holl ystod ein hagendâu ar y cyd i ddatblygu'r bartneriaeth ymhellach. Mae ein perthynas â phartneriaid o'r fath sydd o'r un anian yn llwyfan ar gyfer mwy o gydweithio strategol, rhannu gwybodaeth, datblygu gallu a chydlynu gweithredol.

**16.** Mae Partneriaeth nodedig AUKUS, sy'n cynrychioli cydweithrediad digynsail ar longau tanfor sy'n cael eu pweru gan niwclear a galluoedd uwch eraill, yn dangos pa mor agos yw'r berthynas rhwng y DU, UDA ac Awstralia. O dan nawdd y bartneriaeth dairochrog hon, byddwn yn darparu **SSN-AUKUS**, llong danfor wedi'i phweru'n gonfensiynol, a fydd yn cael ei hadeiladu a'i gweithredu gan Awstralia a'r DU. Mae hyn yn seiliedig ar ddyluniad cenhedlaeth nesaf y DU ar gyfer llong danfor sy'n cael ei phweru gan niwclear (SSN) sy'n ymgorffori technoleg o'r tair gwlad, gan gynnwys technolegau llongau tanfor arloesol yr Unol Daleithiau. Mae Partneriaeth ehangach AUKUS hefyd yn cynnig cyfle unigryw i rannu arbenigedd a meithrin gwytnwch gyda'r Unol Daleithiau ac Awstralia. Gan ganolbwyntio ar gyflymu'r gwaith o gyflawni galluoedd yn y tymor agos i fodloni gofynion gweithredol ein lluoedd arfog, gan gynnwys mewn meysydd fel deallusrwydd artiffisial, seiber, hypersonigau a gwrth-hypersonigau, a rhyfela o dan y môr, mae AUKUS yn sbarduno cynnydd technolegol ac yn gwella'r gallu i ryngweithredu gyda'n partneriaid agosaf. Bydd hyn yn ein helpu i gynnal ein mantais dechnolegol a milwrol mewn amgylchedd strategol cynyddol heriol ac ansefydlog.

**17.** Mae AUKUS yn cynnig llawer o fanteision penodol. Yn anad dim, mae'n cryfhau ein **galluogrwydd rhyfela**. Bydd yn ein galluogi i atal bygythiadau yn y dyfodol ar draws pob maes. Bydd SSN-AUKUS yn atal bygythiadau yn y maes rhyfela tanddwr, yn diogelu ein ataliad niwclear a'n llinellau cyfathrebu hanfodol ar y môr, ac yn cyflawni amrywiaeth o dasgau milwrol, gan gynnwys rhyfela gwrth-wyneb a gwrth-danfor, ymosod ar y tir a chasglu gwybodaeth. Yn ail, bydd AUKUS yn gwella ein gallu i **ryngweithredu** – gan sicrhau bod tair gwlad o'r un anian sydd â diddordebau cyffredin ar y llwyfan byd-eang yn gallu cydweithio'n agosach fyth. Bydd SSN AUKUS yn allu gwirioneddol fyd-eang. Bydd nid yn unig yn gallu gweithredu yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel, bydd ein galluoedd yn cryfhau ein cyfraniad i NATO yn Ewrop, a bydd yn ein galluogi i weithredu yn y Gogledd Uchel lle mae effaith newid yn yr hinsawdd yn agor mynediad i longau milwrol a masnachol newydd i Ogledd yr Iwerydd. Yn drydydd, bydd AUKUS yn ein helpu i rannu **ymchwil a datblygu** ar draws portffolio o alluoedd milwrol uwch ar y cyd. Mae cydweithio diwydiannol yn darparu mynediad at rai o'r technolegau mwyaf datblygedig ar y blaned, gan ganiatáu i ni hefyd integreiddio ein cadwyni cyflenwi a darparu mwy o wytnwch ar adeg o gostau cynyddol a phwysau chwyddiant.

**18.** Bydd y Llynges Frenhinol yn **hyfforddi personél llongau tanfor o Lynges Frenhinol Awstralia**, yn darparu criwiau ar y cyd ar gyfer SSNs y DU, ac yn cynyddu nifer y adleoliadau yn y rhanbarth yn y dyfodol – gan adeiladu ar ymweliad HMS Astute ag Awstralia yn 2021. Ar gyfer y DU, mae rhesymeg esblygu ein rhaglen bresennol i ddisodli SSN gyda SSN-AUKUS yn glir. Bydd ein dyluniad, ynghyd â thechnoleg yr Unol Daleithiau, yn creu llwyfan sy'n arwain y byd y bydd y Llynges Frenhinol yn ei ddefnyddio i adeiladu ein gallu yn yr Iwerydd yn ogystal â hyrwyddo amcanion y DU ledled y byd.

**19.** Byddwn yn **gweithio gyda'n partneriaid yn y diwydiant** i sicrhau ein bod yn barod i fanteisio ar gyfleoedd ychwanegol AUKUS, gan adeiladu ar y buddsoddiad diweddar rydym wedi'i wneud yn ein darpariaeth llongau tanfor. Bydd hyn yn arwain at filoedd o swyddi yn y Deyrnas Unedig. Yn benodol, bydd Rolls-Royce UK yn adeiladu'r adweithyddion niwclear ar gyfer holl longau tanfor Awstralia. Fel rhan o hyn, bydd Awstralia yn gwneud buddsoddiad ariannol cymesur yn ein sylfaen ddiwydiannol ar gyfer llongau tanfor. Mae ein partneriaeth hefyd yn cyflawni ein hymrwymiad i osod y safonau uchaf o ran gwrth-ledaenu niwclear.

**20.** Mae'r **Rhaglen Awyrennau Ymladd Byd-eang (GCAP)** yn bartneriaeth newydd, a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2022, rhwng y DU, Japan a'r Eidal, sy'n dod â'r Dwyrain a'r Gorllewin at ei gilydd i ddatblygu Awyrennau Ymladd newydd. Nod y genhedlaeth nesaf hon o awyrennau ymladd, a fydd yn weithredol erbyn 2035, yw harneisio technolegau'r genhedlaeth nesaf i ddarparu synwyryddion, arfau a systemau data arloesol. Mae'n cael ei ddylunio i sicrhau ein bod yn gallu diogelu ein buddiannau a'n cynghreiriaid a'n partneriaid, i gadw rheolaeth dros yr awyr, ac i gynnal ymgyrchoedd hollbwysig mewn amgylcheddau dadleuol, wedi'u hintegreiddio â lluoedd ar draws yr awyr, y tir a'r môr, ac yn rhyngweithredol gyda'n fflyd F-35 ac awyrennau cynghreiriaid.

**21.** Nod GCAP yw parhau ar flaen y gad o ran datblygiadau ym maes technoleg amddiffyn – gan fod yn gyflymach a mwy hyblyg na'n

gwrthwynebwyr. Felly, rydym yn dylunio gallu sydd â gwr nodweddion yr unfed ganrif ar hugain, gan gynnwys pensaernïaeth systemau agored i ganiatáu uwchraddio cyflym, dysgu peirianyddol i gefnogi gweithredwyr dynol, a rhwydweithiau digidol sy'n cysylltu lluoedd ar draws yr awyr, y tir a'r môr i sicrhau mantais weithredol a chynyddu ein galluoedd cyffredinol. Bydd yr awyrennau, a fydd yn dechrau disodli'r Typhoon o 2035 ymlaen, yn asgwrn cefn y Llu Awyr Brenhinol ac yn rhan ganolog o system ehangach o alluoedd, gan gynnwys systemau arfau cenhedlaeth nesaf a systemau awyr heb griwiau.

**22.** Nod y rhaglen yw harneisio cryfder cyfun diwydiannau amddiffyn ein gwledydd, gan rannu arbenigedd a chostau a chyflawni'n gyflym. Mae'n cefnogi swyddi sgiliedig iawn yn y tair gwlad, gyda dros 2,800 o bobl yn gweithio arni yn y DU yn unig, gan weithredu fel man cychwyn ac ysgol ar gyfer gyrfaoedd mewn rolau sgiliedig iawn fel peirianneg meddalwedd. Bydd yn cyfrannu at sector awyrennau ymladd o safon fyd-eang y DU, sy'n cyflogi dros 40,000 o bobl yn uniongyrchol ac yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n cryfhau ein sylfaen ddiwydiannol sofran ac yn sbarduno arloesedd drwy fuddsoddi ar raddfa fawr mewn ymchwil a datblygu, gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi buddsoddi ymhell dros £1 biliwn hyd yma, gyda channoedd o filiynau yn fwy gan ddiwydiant. Gyda'n gilydd, rydym yn buddsoddi mewn technolegau diwydiannol uwch fel dylunio digidol a gweithgynhyrchu haen-ar-haen, fel y gwelir yn Factory of the Future BAE Systems yn Swydd Gaerhirfryn. Mae'r effaith yn cael ei theimlo ar draws y wlad, gyda hybiau awyrennau ymladd allweddol yng ngogledd-orllewin Lloegr, de-orllewin Lloegr a Chaeredin, yn gwneud cyfraniad pwysig at Ffyniant Bro.

**23.** Mae GCAP hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi nodau strategol ehangach y DU. Mae'n cryfhau cysylltiadau rhwng yr Iwerydd a'r Môr Tawel, gan ddyfnhau'r cydweithio rhwng partneriaid allweddol, ac mae'n ceisio darparu gallu ar y cyd sy'n atgyfnerthu diogelwch yn y ddau ranbarth. Mae GCAP, fel AUKUS, yn fenter dros sawl degawd gyda phartneriaid sy'n rhannu ein hasesiad o'r amgylchedd rhyngwladol ac a fydd yn helpu i gadw trefn ryngwladol agored a sefydlog.

## Y byd y tu hwnt

**24.** Gosododd yr IRR nod i'r Deyrnas Unedig sefydlu'r presenoldeb ehangaf a mwyaf integredig yn **ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel** gan unrhyw wlad yn Ewrop, gan adeiladu ar ein cysylltiadau niferus, yn hanesyddol ac yn gyfoes, wedi'i sbarduno gan ein huchelgais economaidd fel chweched economi fwyaf y byd: disgwylir i hanner yr holl dwf byd-eang ddod o'r rhanbarth hwn rhwng nawr a 2050. Mae cysylltiadau hanesyddol yn y **Dwyrain Canol ac Affrica**, gan gynnwys drwy'r Gymanwlad, yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal ein cysylltiadau, dyfnhau cydweithrediad a chwilio am gyfleoedd ar gyfer partneriaethau agosach; mae bygythiadau terfysgaeth yn y rhanbarthau hynny, ac ymddygiad ansefydlogi rhai gweithredwyr gwladwriaethol, hefyd yn golygu bod angen i ni barhau i weithio'n agos i gefnogi gallu a gwydnwch rhanbarthol ein partneriaid ein hunain. Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd deialog strategol gyda phartneriaid yn **America Ladin**, yn enwedig Brasil, Chile ac Uruguay, yn ogystal â'r **Caribî**, yn enwedig i gefnogi amddiffyn a diogelwch ein Tiriogaethau Tramor. Byddwn


HMS y Frenhines Elizabeth yn arwain Grŵp Cludwyr Ymosod rhyngwladol yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel

yn parhau i gefnogi ein partneriaid yn **Ne'r Môr Tawel a De'r Iwerydd**, a byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth y Llywodraeth ar gyfer Ynys-wladwriaethau Bach Datblygol (SIDS) drwy ddarparu rhaglenni sy'n mynd i'r afael â physgota anghyfreithlon a darparu cymorth mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd.

## Ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel

**25.** Rydym yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel agored a rhydd, yn unol â'n gwerthoedd ni a gwerthoedd llawer o'n partneriaid, a'n safle fel aelod parhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Mae'r 'gogwydd' at ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel wedi bod yn ymdrech gan y llywodraeth gyfan, sy'n golygu bod ein gweithgarwch amddiffyn yn cyd-fynd â'n cryfderau diplomyddol, masnachol, diwydiannol a thechnolegol fel rhan o ddull cydlynol o ymdrin â'r rhanbarth. Rydym wedi cyflawni mwy na'r ymrwymiadau amddiffyn a wnaethom i'r perwyl hwnnw. Ers 2021, rydym wedi:

- Cynyddu ein presenoldeb parhaus yn y rhanbarth. Rydym wedi gosod dwy Long Patrôl ar y Môr yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel, yn barhaol. Yn ystod eu blwyddyn gyntaf o weithredu, fe wnaethon nhw orfodi sancsiynau'r Cenhedloedd Unedig yn erbyn Gogledd Corea, gweithio gyda llywodraeth Ffiji i frwydro yn erbyn pysgota anghyfreithlon, danfon brechlynnau Covid i Pitcairn, a darparu cymorth dyngarol i Tonga yn dilyn Tsunami ym mis Ionawr 2022.
- Dangos ein cyrhaeddiad pŵer caled i'r rhanbarth drwy ddefnyddio'r cludwr awyrennau HMS y Frenhines Elizabeth a'i Grŵp Cludwyr Ymosod yn 2021. Roedd hon yn daith o 55,000 milltir forol a oedd



Ymarfer PITCH BLACK gyda Llu Awyr Brenhinol Awstralia a Llu Awyr Brenhinol y DU gyda'i gilydd

yn ymestyn o Ddwyrain yr Iwerydd i Japan ac yn ôl, ac yn cynnwys ymgysylltiad milwrol a diplomyddol y DU â mwy na deugain o wledydd, gan gynnwys yr ymarferion milwrol tri gwasanaeth cyntaf erioed rhwng y DU ac India. Bydd y Grŵp Cludwyr Ymosod yn dychwelyd i ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel yn 2025, gan gynrychioli ymrwymiad y DU i arfer y galluoedd gorau sydd gan ein Lluoedd Arfog i'w cynnig ochr yn ochr â phartneriaid yn y rhanbarth.

- Ehangu ein hymgysylltiad ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi cael ei gyflawni drwy rwydwaith estynedig o Attachés Amddiffyn, yn ogystal ag adleoli rheolaidd ac ymweliadau hyfforddi, gan gynnwys cyfranogiad awyrennau Typhoon yn 'Exercise Pitch Black' yn Awstralia yn 2022 ac ymarferion y Fyddin yn Awstralia, Gweriniaeth Corea a gyda phartneriaid Trefniadau Amddiffyn Pum Pŵer (FPDA).

**26.** Byddwn nawr yn cynnal y cynnydd rydym wedi'i wneud, gan **roi y gogwydd ar sail hirdymor, strategol a chynaliadwy, gan gynnwys drwy gyflawni ein dull ymgyrchu**: cryfhau ein presenoldeb, dyfnhau ein partneriaethau, amddiffyn normau a gwerthoedd rhyngwladol yn gadarn, a helpu i feithrin cadernid rhanbarthol. Yn ei ymweliad â Singapôr ym mis Mehefin 2023, ailddatganodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn ein hymrwymiad i hyrwyddo ffyniant a sefydlogrwydd yn y rhanbarth.

**27.** Mae ein hôl troed milwrol presennol yn cynnwys ein safle yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, presenoldeb Byddin Prydain yn Nepal a Brunei, Staff Amddiffyn Prydain yn Singapôr ac Awstralia, a rhwydwaith o attachés ledled y rhanbarth.

**28.** Byddwn yn gweithio i wella gwytnwch a galluoedd partneriaid allweddol drwy hyfforddiant ac ymarferion milwrol. Bydd hyn yn cynnwys adleoli offer a phobl yn rheolaidd yn y rhanbarth. Bydd y Grŵp Ymateb Arfordirol yn barod i adleoli yn gyfnodol i ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel yn ddiweddarach eleni. Ym mis Mehefin 2023, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn, o ystyried bod angen ymdrech ar y cyd i gynnal y drefn ryngwladol agored, y byddwn yn dwysáu ein buddsoddiad mewn **grwpiau rhanbarthol**,

gan gynnwys y Trefniadau Amddiffyn Pum Pŵer (FPDA), ASEAN (rydym wedi gwneud cais i ymuno â Chyfarfod y Gweinidogion Amddiffyn a Mwy) a phartneriaeth Five Eyes. Rydym hefyd wedi ymrwymo o hyd i gefnogi'r gwaith o gryfhau cysylltiadau NATO â'i bartneriaid yn y rhanbarth.

**29.** Byddwn hefyd yn cryfhau ein **cydweithrediad dwyochrog** â phartneriaid yn y rhanbarth, gan gynnwys drwy gydweithio diwydiannol, gan barhau i ddarparu sbectrwm o alluoedd ac arbenigedd gwerthfawr sy'n ategu rhai ein cynghreiriaid a'n partneriaid eraill.

**30.** Mae **Awstralia a Seland Newydd** ymysg partneriaid agosaf a hynaf y DU, wedi'i clymu at ei gilydd drwy rannu hanes a gwerthoedd, yn ogystal â thrwy bartneriaeth y Gymanwlad a Five Eyes, a nawr – yn achos Awstralia – AUKUS. Bydd y DU yn gweithio'n agos gyda'r ddwy wlad ar draws holl ystod ein hagendâu ar y cyd.

**31.** **Japan** yw un o'n partneriaid diogelwch agosaf yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel, gyda dull ar y cyd o ymdrin â heriau diogelwch ac ymrwymiad i drefn ryngwladol agored. Gan adeiladu ar cydweithredu dwysach o ran gallu a thechnoleg drwy GCAP, a'r Cytundeb Hiroshima a lofnodwyd yn ddiweddar, bydd y Cytundeb Mynediad Cilyddol gyda Japan yn caniatáu i'n lluoedd adleoli i wledydd ein gilydd ar gyfer ymarferion a gweithrediadau ar raddfa fawr. Yn seiliedig ar ymrwymiad i ryngweithredu, o dan y Cytundeb Mynediad Cilyddol byddwn yn datblygu rhaglen uchelgeisiol o ymarferion a chynllunio ar y cyd mwy, amlach, cymhleth ac ymarferol, gan gynnwys drwy adleoli Grŵp Cludwyr Ymosod y DU i ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel yn y dyfodol. Mae cytundebau diweddar gyda Japan yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ddyfnhau ein perthynas strategol ar draws sbectrwm o feysydd. Byddwn yn atgyfnerthu ein strwythur llywodraethu amddiffyn presennol, gan gynnwys drwy sefydlu deialog amddiffyn lefel uchel newydd, i sicrhau ein bod yn mynd ar drywydd pob cyfle i gryfhau cydweithrediad amddiffyn.

**32.** Mae India yn bartner allweddol a bydd tyfu ein perthynas yn parhau i fod yn elfen sylweddol o'n hymgysylltiad yn y rhanbarth. Rydym yn bwriadu cydweithio yng Ngorllewin Cefnfor India ac rydym hefyd yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan India i'w chwarae ar y llwyfan byd-eang. Byddwn yn ceisio dyfnhau partneriaethau diwydiannol, symud cydweithio ar allu i lefelau newydd, ac archwilio cyfleoedd allforio a rennir, gan adeiladu ar Drywydd y DU-India 2030.

**33.** Byddwn hefyd yn mynd ar drywydd cysylltiadau amddiffyn dwyochrog dyfnach gyda gwledydd eraill yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys **Gweriniaeth Corea ac Indonesia**, ac mae gennym Drywyddion Amddiffyn gyda nhw, **Singapore, Fietnam a Phacistan**. A byddwn yn siarad â **Tsieina** am heddwch a sefydlogrwydd yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel a'r angen i Tsieina chwarae rhan gyfrifol yn fyd-eang.

## Y Dwyrain Canol

**34.** Mae'r Dwyrain Canol yn bwynt cysylltiadau pwysig ar gyfer ymgyrchoedd blaenoriaethol Amddiffyn. Mae'n hanfodol i ddiogelwch a ffyniant Ewro-Iwerydd, yn enwedig o ganlyniad i bwysigrwydd y rhanbarth i gyflenwadau ynni byd-eang, ac o ystyried ymddygiad ansefydlogi Iran. Bydd

cynnal presenoldeb parhaus yn y Gwlff yn sail i'n hymrwymiad hirdymor i'r Dwyrain Canol; drwy ein presenoldeb yno, byddwn hefyd yn gallu rhoi ein hymgysylltiad yn ardal Cefnfor India a'r Môr Tawel ar sail strategol hirdymor. Mae gennym berthynas gref â phob un o'r chwe gwlad yng **Nghyngor Cydweithredol y Gwlff**, a byddwn yn parhau i ddatblygu'r **partneriaethau strategol** hyn – yn ddwyochrog ac fel grŵp – i helpu i wneud y rhanbarth yn fwy diogel, gan gynnwys drwy ddeialog gwell, mwy o ryngweithredu drwy ymarferion a hyfforddiant, a mwy o gydweithrediad o ran gallu diwydiannol ym maes amddiffyn. Drwy **Grŵp y Ddraig**, byddwn yn cynnull Penaethiaid Staff milwrol o'r chwe gwlad sy'n rhan o'r GCC, Irac, Yr Iorddonen a'r Aifft, i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o faterion diogelwch rhanbarthol.

**35.** Bydd ein perthynas hirsefydlog â **Sawdi Arabia** yn cael ei gwella drwy Gynllun Cydweithredu Amddiffyn y DU-Sawdi Arabia, yn ogystal â'r ymrwymiad i ddatblygu partneriaeth awyrennau ymladd yn y dyfodol, gan ddarparu partneriaeth sy'n wynebu'r dyfodol sydd wedi'i hangori mewn cydweithrediad diwydiannol ac wedi'i rhwymo ynghyd drwy ddatblygu gallu ar y cyd a mwy o ryngweithredu. Mae'r berthynas rhwng y **DU ac Oman** yn ddwfn ac yn hanesyddol, wedi'i thanlinellu gan nifer sylweddol o staff ein Gwasanaeth Benthyg a datblygu canolfan strategol amddiffyn sy'n darparu cyfleuster hyfforddi o'r radd flaenaf ac sy'n ymestyn i Orllewin Cefnfor India. Bydd ein perthynas â **Qatar** yn parhau i dyfu drwy ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'n dau sgwadron awyr ar y cyd – yr unig sgwadronau o'r fath yn y byd – yn ogystal â thrwy ehangu'r berthynas yn y maes Tir. Byddwn yn parhau i weithio gyda **Bahrain** – yn enwedig o ystyried presenoldeb cyfleuster cymorth morol allweddol a'n rôl flaenllaw yn y Lluoedd Morol Cyfun amlwladol – **yr Emiradau Arabaidd Unedig, a Kuwait** i warchod ein buddiannau cyffredin a datblygu ein galluoedd: rydym yn parhau i fod wedi ein clymu gan gydweithrediad milwrol, partneriaethau ynni, masnach a buddsoddi, a'n cysylltiadau rhwng pobl a phobl.

**36.** Byddwn hefyd yn parhau i ddyfnhau ein perthnasoedd yn y **Lefant**. Bydd **Israel** yn parhau i fod yn weithredwr rhanbarthol allweddol – a geowleidyddol ehangach – a byddwn yn parhau i ddatblygu ein perthynas amddiffyn ddwyochrog. Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i Ymgyrch INHERENT RESOLVE ac Ymgyrch Irac NATO (NMI), ymgyrch cynghori a meithrin gallu nad yw'n ymwneud ag ymladd, gan gefnogi sofraniaeth Irac ac uniondeb tiriogaethol. Bydd ein perthynas barhaus â'r **Iorddonen** hefyd yn cael ei dyfnhau, gan gynnwys drwy ein Gwasanaeth Benthyciadau a thimau hyfforddi sydd wedi'i lleoli yno.

# Pennod 8:

# Cydnerthedd Strategol

**1.** Mae gan amddiffyn ran hollbwysig i'w chwarae o ran diogelu'r wlad, ac o ran gwneud y genedl yn fwy cydnerth. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno galluoedd craidd y gall y Weinyddiaeth Amddiffyn yn unig eu defnyddio, er enghraifft, i amddiffyn ein gofod awyr ac i ddiogelu seilwaith cenedlaethol hanfodol o dan yr wyneb ac ar y tir. Mae hefyd yn gofyn am integreiddio agos â gweddill y Llywodraeth mewn meysydd fel seiberamddiffyn, diogelwch economaidd, ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd.

**2. Mae llwyddo mewn rhyfel yn ymdrech genedlaethol**, sy'n cynnwys nid yn unig Amddiffyn, ond y Llywodraeth gyfan, ein sylfaen ddiwydiannol, a'n poblogaeth. Daw ein cydnerthedd strategol yn rhannol o'n gallu i ysgogi ein hadnoddau milwrol ar raddfa mewn cyfnod o argyfwng mewn ymateb i fygythiadau i'n mamwlad. Bydd ein Lluoedd Wrth Gefn, gyda sgiliau arbenigol a chysylltiadau unigryw, wrth galon yr ymdrech hon, gan ffurfio craidd y lluoedd ail a thrydydd echelon a fydd yn atgyfnerthu ac yn cynnal galluoedd ymladd rhyfel ac yn amddiffyn y wlad. Bydd y **Lluoedd Wrth Gefn Strategol** – sydd wedi'u hadeiladu o amgylch cyn-aelodau wrth gefn y lluoedd arfog – yn ychwanegu dyfnder pellach o ran gallu, a fydd yn gallu cynhyrchu capasiti ymchwydd na aseiniwyd o'r blaen a mynediad ehangach at arbenigedd mewn argyfwng cenedlaethol.

**3.** Bydd ein cydnerthedd strategol hefyd yn manteisio ar ein **partneriaeth drawsnewidiol â diwydiant** i greu sylfaen ddiwydiannol fwy gwydn, dibynadwy ac addasadwy – fel y nodir ym Mhennod 3; a thrwy ein hymgysylltiad â phartneriaid agos gan gynnwys y Ffindir a Sweden, y gallwn addasu modelau **Amddiffyn Cyfan a Chynhwysfawr** gyda nhw. Bydd hefyd yn dod o waith sy'n cael ei arwain gan rannau eraill o'r Llywodraeth, ond byddwn yn cefnogi hyn, er enghraifft yn **Amddiffyn Democratiaeth a mynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth.**

**4.** O ystyried y sefyllfa o ran diogelwch sy'n dirywio, mae ein hangen i gryfhau ein cydnerthedd a diogelu seilwaith cenedlaethol hanfodol yn cynyddu. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y Llywodraeth i **gynllunio a phrofi sut y byddem yn adnabod gwendidau'n well, ac yn defnyddio ein systemau, i ddiogelu ac amddiffyn y famwlad mewn cyfnodau o ryfela**. Drwy gymryd camau nawr, byddwn yn gwella ein parodrwydd, ac yn gwella ein ataliaeth ar gyfer y dyfodol. Mae ein cydnerthedd cenedlaethol yn ymestyn ar draws y Deyrnas Unedig gyfan a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r holl Weinyddiaethau Datganoledig ar faterion Amddiffyn.

## Argyfyngau Sifil Posibl

**5.** Mae Lluoedd Arfog y DU yn rhan annatod o ymdrech y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r bygythiad o derfysgaeth ac argyfyngau eraill sy'n dod i'r amlwg – gartref yn ogystal â thramor. Mae'r Fyddin a'r Llynges yn darparu **timau gwaredu ordnans ffrwydrol** ledled y wlad i helpu i waredu arfau confensiynol a dyfeisiau ffrwydrol byrfyfyr yn ddiogel. Mae'r



Fyddin hefyd yn cyfrannu 2,600 o bersonél â pharodrwydd dau ddiwrnod i gefnogi cydnerthedd y famwlad, gan gynnwys galluoedd arbenigol ac ôl-lenwad heddlu arfog o dan Op TEMPERER, gyda rhagor o gymorth ar gael gan Wasanaethau eraill, i ddarparu cymorth i'r Heddlu os bydd digwyddiad terfysgol sy'n mynd y tu hwnt i'w capasiti neu eu gallu i ymateb.

**6.** Byddwn yn parhau i **gefnogi'r awdurdodau sifil** yn fwy cyffredinol a byddwn yn cadw lluoedd ar lefelau uchel o barodrwydd i ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau cenedlaethol. Yn ystod pandemig COVID-19, roedd Lluoedd Arfog y DU yn darparu lefel na welwyd ei thebyg o'r blaen o gymorth i adrannau domestig. Fodd bynnag, mae'r dirywiad yn yr amgylchedd diogelwch rhyngwladol yn golygu ei bod yn hollbwysig bod Amddiffyn yn canolbwyntio ar ei rôl graidd o sicrhau diogelwch cenedlaethol y DU. Er mwyn galluogi hyn, bydd yn bwysig sicrhau bod y cymorth y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei ddarparu'n ddomestig wedi'i gyfyngu i dasgau y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn unig yn gallu eu cyflawni.

## Amddiffyn y Famwlad

**7.** Mae'r RAF yn parhau i weithio ochr yn ochr â Gwasanaethau eraill, partneriaid ar draws y Llywodraeth a NATO, i amddiffyn ein hawyr, ein gofod a'n moroedd rhag gweithgareddau cynyddol aml gan awyrennau, lloerennau, llongau a llongau tanfor Rwsia. Dim ond y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gallu **plismona gofod awyr y DU** drwy ddarparu awyrennau Typhoon Rhybudd Ymateb Cyflym (QRA) 24/7, a gefnogir gan awyrennau ail-gyflenwi tanwydd yn yr awyr Voyager a'r System Arolygu a Rheoli Awyr. Mae patrolau awyr morol P8 Poseidon hefyd yn gwarchod dyfroedd y DU, uwchben ac o dan yr wyneb, gan orchuddio cannoedd o filltiroedd sgwâr mewn un daith.



QRA ar waith, gyda Typhoons yr Awyrlu Brenhinol a Gripen o Sweden (ddim yn y llun) yn rhyng-gipio awyrennau Rwsia ger gofod awyr NATO a Sweden




Llong gwyliadwriaeth môr aml-swyddogaeth (MROS) newydd, o'r enw RFA Proteus, yn iard longau Cammell Laird

Yn y cyfnod o bum mlynedd hyd at fis Ebrill 2023, mae QRA y DU wedi cael ei sgramblo ar ddau achlysur i atal patrolau hedfan pellter hir Rwsia ac mewn ymateb i un ar bymtheg o ddigwyddiadau diogelwch awyr eraill yn y DU. Bydd yr RAF yn parhau i ddatblygu ei raglen gwrth-UAS i ddarparu amddiffyniad safle sefydlog i luoedd a adleolir a safleoedd sy'n hanfodol i amddiffyn.

**8.** Mae ein gallu gwrth-danfor a rhyfela ar wely'r môr wedi cael ei wella drwy gaffael cychod gwyliadwriaeth môr aml-swyddogaeth (MROS) yn gyflym, adeiladu llongau ymladd byd-eang Math 26 sydd ar y gweill, a chyfres o systemau heb griwiau: bydd y rhain yn **gwella diogelwch seilwaith dan y môr a gwely'r môr** ymhellach, sy'n hanfodol i ddiogelwch economaidd ac ynni'r DU. Bydd y ddwy long MROS pwrpasol – y cyntaf ohonynt yn ymuno â'r fflyd yn ystod haf 2023 – yn gweithredu systemau oddi ar y bwrdd o bell ac awtonomaidd arloesol ar gyfer gwyliadwriaeth o dan y dŵr a rhyfela ar wely'r môr, sy'n hanfodol i'n diogelwch cenedlaethol.

**9.** Byddwn yn parhau i **gasglu a phrosesu llawer iawn o ddata** sy'n ymwneud â'r maes morol o amgylch ein glannau. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth gynyddol o alluoedd casglu medrus iawn a systemau ymwybyddiaeth sefyllfaol, gan gynnwys meddalwedd gwyliadwriaeth, radar arfordirol, gweithrediadau hedfan, rhagchwilio yn y gofod, a llongau'r llywodraeth i ddarparu gwybodaeth gyfredol a chywir i uwch arweinwyr. Wrth i'r gwaith o ddatblygu technoleg awtonomaidd ac o bell barhau, mae angen sicrhau bod y dechnoleg hon yn cael ei chyflwyno i'r amgylchedd morol yn ddiogel heb beryglu ein diogelwch cenedlaethol ehangach.

**10.** Mae'r her o amddiffyn ein hunain rhag ymosodiad o'r awyr, dramor a gartref, ar ei fwyaf acíwt ers dros ddeng mlynedd ar hugain – fel y gwelwyd yn y rhyfel yn Wcráin. Er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau hyn, byddwn yn cynyddu ein hymdrechion i ddarparu dull **Amddiffyn Awyr a Thaflegrau Integredig.** Bydd gwneud hynny'n gwneud cyfraniad mawr at amddiffyn y famwlad a

chydnerthedd cenedlaethol. Fel y prif wasanaeth ar gyfer Amddiffyn Awyr a Thaflegrau Integredig, bydd yr RAF yn hyrwyddo'r defnydd o synwyryddion ar y tir, yn yr awyr, ar y môr ac yn y gofod, ac ystod eang o alluoedd awyr a thaflegrau, gan gynnwys gwrth-UAS, i ganfod, amddiffyn a diogelu'r DU.

**11.** Byddwn yn moderneiddio ein dull o amddiffyn aer a thaflegrau, ar gyfer ein lluoedd ein hunain a thrwy integreiddio â Chynghreiriaid. Yn ogystal â'n rhaglen **Amddiffyn Taflegrau Balistig** (BMD) Sea Viper Evolution a'n hymrwymiad gwirfoddol i gyfrannu Radar BMD yn y DU i wella diogelwch NATO, byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd o adeiladu ar ein cynnig i'r Gynghrair, yn enwedig wrth i ni barhau i fuddsoddi mewn galluoedd cenhedlaeth nesaf ar y Tir, yn yr Awyr ac ar y Môr.

**12.** Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y **dechnoleg fwyaf arloesol**, gan gynnwys



HMS Dragon yn tanio Sea Viper oddi ar Ynysoedd Hebrides

system amddiffyn yr awyr Sky Sabre, drwy gydweithio o fewn AUKUS, a gydag ymchwil a datblygu yn cael ei sianelu drwy Ganolfan Amddiffyn Taflegrau y DU i **dechnolegau canfod a rhyng-gipio'r dyfodol**. Byddwn hefyd yn gweithio i gynyddu ein gallu i gael gwared ar fygythiadau cyn iddynt gael eu lansio drwy ddulliau mwy penodol o atal lledaenu arfau, a thrwy barhau i ddatblygu ein galluoedd ymosodol ein hunain. Byddwn hefyd yn cynyddu ein cydnerthedd ar draws Amddiffyn drwy **wella symudedd a gwasgariad ein lluoedd**, parhau i ddiweddaru ac **amnewid ein rhwydwaith radar**, archwilio datblygiad cyfres o synwyryddion, a symud oddi wrth safleoedd sefydlog at gael rhwydwaith mwy gwasgaredig – ac felly cydnerth – ar draws y wlad.

**13.** Mae llawer o feysydd lle bydd Amddiffyn yn **cefnogi gweddill y Llywodraeth i feithrin ein cydnerthedd cenedlaethol a'r famwlad**. O ystyried ein profiad o'r pandemig, ymosodiadau seiber, a'r ffordd y mae Rwsia'n cam-drin cyflenwadau ynni, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cefnogi ymdrech ehangach gan y Llywodraeth i ragweld, asesu, atal, lliniaru, ymateb ac adfer mewn perthynas â risgiau. Byddwn yn gweithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth i weithredu Strategaeth Cydnerthedd 2022, sy'n nodi cynllun y Llywodraeth i gryfhau'r systemau a'r galluoedd sylfaenol ar gyfer cydnerthedd. Wrth wneud hynny, byddwn yn cefnogi ymgyrch y Llywodraeth tuag at gamau diogelu a pharatoi ('diogelwch drwy gydnerthedd') – gan adeiladu ein ataliaeth drwy wadu.

## Diogelwch Economaidd

**14.** Cadarnhaodd yr IRR fod Diogelwch Economaidd yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno cystadleuaeth systemig rhwng gwladwriaethau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym ni, a'n cynghreiriaid allweddol, wedi gweld cyfres gynyddol soffistigedig ac esblygol o fygythiadau diogelwch economaidd


Môr-filwyr Brenhinol mewn Bad Glanio yn ystod Ymgyrch Achillean

gan wladwriaethau gelyniaethus – gyda goblygiadau sylweddol i Amddiffyn. Ers cyhoeddi DCP21, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi meithrin gallu gwell i **nodi a lliniaru amrywiaeth o risgiau diogelwch economaidd**. Mae rhan fawr o hyn yn canolbwyntio ar gefnogi Deddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol y Llywodraeth 2021, gan sicrhau bod **buddsoddiad mewn sectorau sy'n berthnasol i Amddiffyn yn yr economi** yn cael ei sgrinio'n amserol, gyda risgiau posibl i'n diogelwch cenedlaethol yn cael eu nodi a'u lliniaru.

**15.** Mae gwaith diweddar wedi nodi bod yr ystod o fygythiadau yn ymestyn y tu hwnt i ymdrechion i gaffael technoleg a gallu sensitif sy'n gysylltiedig ag Amddiffyn. Mae risgiau'n bodoli drwy ddefnydd wedi'i dargedu gan wladwriaethau gelyniaethus o **gydweithio ar ymchwil, cyflogi arbenigwyr amddiffyn a thechnegol** o'r DU, a **defnyddio partneriaethau busnes** a chontractau cymorth technegol sy'n cynnwys trosglwyddo gwybodaeth amddiffyn arbenigol. Gellir defnyddio'r trosglwyddo gwybodaeth hwn i roi hwb i alluoedd milwrol ein gwrthwynebwyr a thanseilio ein heffeithiolrwydd. Mae'r strategaeth ymasiad milwrol sifil a ddefnyddir gan rai gwrthwynebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod y risgiau i Amddiffyn yn ymestyn y tu hwnt i'r sylfaen ddiwydiannol amddiffyn uniongyrchol. Byddwn yn ad-drefnu ein gallu o fewn Amddiffyn i ganiatáu i ni gyfrannu at fynd i'r afael â'r ystod lawn o fygythiadau posibl. Mae gweithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn y maes hwn yn rhan o ymateb cyffredinol y Llywodraeth i fygythiadau economaidd ac yn ategu gwaith arall yn y maes Amddiffyn i ddiogelu rhag bygythiadau ffisegol, ysbïo ac ymosodiadau seiber y gellir eu defnyddio ar y cyd â bygythiadau economaidd.

**16.** Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd yn parhau i gefnogi ymdrechion ehangach y Llywodraeth i lunio agenda diogelwch economaidd y G7 a chyfrannu at ddatblygu polisi ar **fynediad at ddeunyddiau hanfodol**. Mae hyder yng nghadernid ein cadwyni cyflenwi a **diogelu ein galluoedd** yn hanfodol ar gyfer cydweithredu â chynghreiriaid yn y dyfodol a sicrhau bod cwmnïau yn y DU yn gallu cynnal mynediad at raglenni amddiffyn a diogelwch gwladwriaethau eraill. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cryfhau'r cydweithio a'r rhannu gwybodaeth gyda'n cynghreiriaid agosaf at y diben hwn, gan gynnwys drwy fforwm y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technoleg a Diwydiant Amddiffyn (NTIB), sy'n gweithio i hyrwyddo **mwy o gydweithio ym maes diogelwch y gadwyn gyflenwi, mynediad at ddeunyddiau hanfodol, a rhannu gwybodaeth am fygythiadau diogelwch economaidd trawswladol**.

**17.** Mae dull integredig o atal ac amddiffyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatblygu adnoddau newydd i addasu i'r amgylchedd bygythiad sy'n newid, ac integreiddio adnoddau presennol, gan gynnwys ein galluoedd economaidd. Byddwn yn cydweithio ag adrannau eraill i weithredu dull integredig o ymdrin â **gwladweinyddiaeth economaidd** ar draws y Llywodraeth. Byddwn yn defnyddio ein profiad o fodelu senarios a gemau rhyfel i lywio'r ffordd y mae gweithgareddau economaidd y wladwriaeth yn cael eu trefnu, fel rhan o ddull ehangach o atal, sy'n cael ei yrru gan dystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys datblygu fframwaith dadansoddol newydd ac offer ategol i ymgorffori egwyddorion gwladweinyddiaeth economaidd yn y gwaith o gynllunio a gweithredu gweithgareddau Amddiffyn.



ISBN 978-1-5286-4291-0
E02937467